



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2012
Tuesday, 24 April 2012

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
31	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
38	Datganiad: Ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at Ymgysylltiad Cyflogwyr â Sgiliau Statement: The Welsh Government's Approach to Employer Engagement on Skills
54	Datganiad: Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Strategaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru Statement: The Welsh Government Equality Objectives and Strategic Equality Plan
71	Datganiad: Cyflwyno Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) Statement: Introduction of the School Standards and Organisation (Wales) Bill
90	Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) Motion to Approve the General Principles of the Local Government Byelaws (Wales) Bill
108	Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd: Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf The Climate Change Strategy for Wales: First Annual Progress Report
127	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Y Llywydd: Prynhawn da.

The Presiding Officer: Good afternoon.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Economi Cymru

The Welsh Economy

I. Mohammad Asghar: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rhagolygon ar gyfer economi Cymru dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0455(FM)

I. Mohammad Asghar: Will the First Minister make a statement on the prospects for the Welsh economy for the next twelve months. OAQ(4)0455(FM)

The First Minister (Carwyn Jones): In common with the rest of the UK, the economic prospects for Wales are uncertain.

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Yn unol â gweddill y DU, mae'r rhagolygon economaidd ar gyfer Cymru yn ansicr.

Mohammad Asghar: Thank you for that reply, First Minister. The latest Federation of Small Businesses Wales's members survey reveals that only 12% of FSB members believe the business climate in Wales will improve over the next 12 months, while almost three times as many believe that it will deteriorate. Therefore, 60% of its members identified taxation and rates as barriers or obstacles to business success in Wales. Does the First Minister agree that abolishing business rates for small businesses will allow firms to expand, to take on new staff and provide a welcome boost to the Welsh economy?

Mohammad Asghar: Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae arolwg diweddar o aelodau Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru yn dangos mai dim ond 12% o aelodau'r ffederasiwn sy'n credu y bydd yr hinsawdd i fusnes yng Nghymru yn gwella dros y 12 mis nesaf, tra bod bron tair gwaith yn fwy yn credu y bydd yn dirywio. Felly, mae 60% o'i aelodau wedi nodi trethiant ac ardrethi fel rhwystrau i lwyddiant busnesau yng Nghymru. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y bydd dileu'r ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach yn caniatáu i gwmnïau ehangu a chyflogi staff newydd ac yn rhoi hwb derbyniol iawn i economi Cymru?

The First Minister: There is a system of business rate relief already in place for small businesses. Taxation is not devolved; that is a matter for the UK Government, so if small businesses in Wales believe that they are overtaxed, then that is a matter they should take up with the UK Government.

Y Prif Weinidog: Mae system o ryddhad ardrethi busnes eisoes ar waith ar gyfer busnesau bach. Nid yw trethu wedi'i ddatganoli; mater i Lywodraeth y DU yw hynny, felly os yw busnesau bach yng Nghymru yn credu eu bod yn cael eu gordrethu, yna mae hynny'n fater y dylent ei drafod gyda Llywodraeth y DU.

Mike Hedges: Do you agree with me that the electrification of the main line all the way to Swansea would be one of the best things that could be done to improve the economy of south-west Wales? Can you reveal any recent discussions the Welsh Government has had with the UK Government over the full electrification of the Great Western line between Swansea and Cardiff?

Mike Hedges: A ydych yn cytuno â mi mai trydaneiddio'r brif reilffordd yr holl ffordd i Abertawe fyddai un o'r pethau gorau y gellid ei wneud i wella economi de-orllewin Cymru? A allwch ddatgelu unrhyw drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynghylch trydaneiddio'n llawn reilffordd y Great Western rhwng Abertawe a

Chaerdydd?

The First Minister: There have been extensive and numerous discussions between ourselves and the UK Government, and we look forward to it announcing the full electrification of the main line to Swansea. We know full well that that will have a hugely positive impact on the economy of all those communities along the main line.

Alun Ffred Jones: Mae ffigurau diweithdra yng Nghymru yn dal i gynyddu. Yn ardal Castell-nedd er enghraifft, mae 10 person di-waith yn chwilio am bob un swydd ar gael. Mae'r darlun hwnnw yn gyffredin ymhlith ardaloedd Cymru. Ar yr un pryd, mae'r angen am dai fforddiadwy, boed y rheini ar rent neu fel arall, hefyd yn fawr. Beth yw ymateb eich Llywodraeth chi i her Cartrefi Cymunedol Cymru, a Phwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad hwn, i fuddsoddi rhagor yn y maes hwn, i godi tai o'r newydd a chreu swyddi ar yr un pryd?

Y Prif Weinidog: Rydym wedi gwneud hynny drwy ddefnyddio'r arian ychwanegol rydym wedi'i dderbyn, a sicrhau, wrth gwrs, ein bod ni'n gallu rhoi arian i adeiladu tai fforddiadwy. Wrth gofio'r toriadau yng nghyllidebau'r Cynulliad a'r Llywodraeth, mae terfyn i faint o arian y gallwn ei roi i gynlluniau fel hyn, o'i gymharu â'r arian y byddem yn dymuno ei roi. Fodd bynnag, mae record y Llywodraeth ynglŷn â hybu'r economi yn un cryf iawn.

Eluned Parrott: First Minister, Cardiff University in my region is by far the most successful research university in Wales in terms of generating money from innovation activities, which creates high-quality jobs not only directly, but in local technology-led companies in south-east Wales. I am sure you would wish to celebrate the success of Cardiff University, but what can the Welsh Government do to help other universities in Wales learn from this shining example of best practice?

The First Minister: We have been working with all universities in Wales to ensure that they are able to commercialise their intellectual property, something that,

Y Prif Weinidog: Cafwyd trafodaethau helaeth a niferus rhyngom ni a Llywodraeth y DU, ac rydym yn edrych ymlaen at ei chlywed yn cyhoeddi trydaneiddio'n llawn y brif reilffordd i Abertawe. Rydym yn gwybod yn iawn y bydd hynny'n cael effaith hynod o gadarnhaol ar economi'r holl gymunedau hynny ar hyd y brif reilffordd.

Alun Ffred Jones: Unemployment figures in Wales are still increasing. In the Neath area, for example, a total of 10 unemployed people apply for every position that becomes available. This situation is common to many parts of Wales. At the same time, there is great demand for affordable housing, be that for rent or otherwise. What would your response be to the challenge set by Community Housing Wales, and the Assembly's Communities, Equality and Local Government Committee, for you to invest more in this area, to build new housing and create jobs at the same time?

The First Minister: We have done just that by using the additional funding we have received, and by ensuring, of course, that we can invest funding in the construction of affordable houses. Bearing in mind the cuts to the Assembly and Government budgets, there is a limit to the amount we can invest in schemes such as these, regardless of how much we would like to invest. However, the Government has a strong record on promoting the economy.

Eluned Parrott: Brif Weinidog, Prifysgol Caerdydd yn fy rhanbarth i yw'r brifysgol ymchwil fwyaf llwyddiannus o lawer yng Nghymru o ran cynhyrchu arian o weithgareddau arloesi, gan greu swyddi o ansawdd uchel, yn uniongyrchol, a hefyd mewn cwmnïau technoleg yn y de-ddwyrain. Rwy'n siŵr yr hoffech ddathlu llwyddiant Prifysgol Caerdydd, ond beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu prifysgolion eraill yng Nghymru i ddydgu yn sgîl yr enghraifft ddisglair hon o arfer gorau?

Y Prif Weinidog: Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r holl brifysgolion yng Nghymru i sicrhau y gallant fasnacheiddio eu heiddo deallusol, rhywbeth nad oeddent

historically, they were not as good at, although, in fairness, over the last few years, that situation has improved dramatically. Universities can, of course, be important drivers as far as the economy is concerned because they are able to enable the set-up of new spin-off businesses. We are beginning to see those both in Cardiff and in Swansea at the Institute of Life Sciences.

Dylan Thomas

2. Julie James: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo etifeddiaeth Dylan Thomas ar ôl Dathliadau'r Canmlwyddiant yn 2014. OAQ(4)0470(FM)*

The First Minister: Further details of the Dylan Thomas centenary festival will be announced later this year. The intention is to ensure that the festival itself delivers educational, cultural and tourism benefits during 2014, but also before and after that date.

Julie James: Thank you for that, First Minister. I think that we agree that it is important that the international celebrations for Dylan Thomas's centenary are a launch pad for promoting cultural tourism opportunities in Swansea and in Wales as a whole, and can be used to attract ongoing investment and growth. There are good examples from around the world. In Ireland, the Dylan Thomas festival is being held alongside a festival for James Joyce; in Germany and America, Dylan has been introduced onto the national curriculum. I would like very much, First Minister, for you to encourage tourism and highways departments to co-ordinate signage promoting Wales and Swansea in particular as Dylan Thomas country. I know that you are very proud—

The Presiding Officer: Order. Are you coming to the question?

Julie James: I am just getting to it, Presiding Officer.

I know that the Government is proud of and recognises the value of the literary legacy; would the First Minister be open to proposals

cystal am ei wneud, yn hanesyddol, er bod y sefyllfa, a bod yn deg, wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gall prifysgolion, wrth gwrs, fod yn sbardunau pwysig o ran yr economi oherwydd eu bod yn galluogi sefydlu sgîl-fusnesau newydd. Rydym yn dechrau gweld y rhain yng Nghaerdydd ac yn Abertawe yn y Sefydliad Gwyddorau Bywyd.

Dylan Thomas

2. Julie James: *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to promote the legacy of Dylan Thomas beyond the Centenary Celebrations in 2014. OAQ(4)0470(FM)*

Y Prif Weinidog: Bydd manylion pellach am wyl canmlwyddiant Dylan Thomas yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Y bwriad yw sicrhau bod yr wyl ei hun yn arwain at fanteision addysgol, diwylliannol ac i dwristiaeth yn ystod 2014, ond hefyd cyn ac ar ôl y dyddiad hwnnw.

Julie James: Diolch ichi am hynny, Brif Weinidog. Rwy'n meddwl ein bod yn cytuno ei bod yn bwysig bod y dathliadau rhyngwladol ar gyfer canmlwyddiant Dylan Thomas yn fan cychwyn ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth ddiwylliannol yn Abertawe ac yng Nghymru gyfan, ac y gellir eu defnyddio i ddenu twf a buddsoddiad parhaus. Ceir enghreifftiau da o bob cwr o'r byd. Yn Iwerddon, caiff gŵyl Dylan Thomas ei chynnal ochr yn ochr â gŵyl ar gyfer James Joyce; yn yr Almaen ac America, mae Dylan wedi cael ei gyflwyno i'r cwricwlwm cenedlaethol. Hoffwn yn fawr iawn, Brif Weinidog, ichi annog adrannau twristiaeth a phriffyrdd i gydgyssylltu arwyddion hyrwyddo Cymru ac Abertawe yn benodol fel gwlad Dylan Thomas. Gwn eich bod yn falch iawn—

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn?

Julie James: Yr wyf ar fin dod ato, Lywydd.

Gwn fod y Llywodraeth yn falch o'r etifeddiaeth lenyddol ac yn cydnabod gwerth hynny; a fyddai'r Prif Weinidog yn agored i

to continue to promote that legacy internationally and with future generations in Wales beyond the remit of the 2014 celebrations themselves?

The First Minister: All of the issues that you have raised are being considered as we look to put forward plans for the festival. It is important, of course, that the festival is well trailed, well promoted and leaves a legacy beyond 2014.

Suzu Davies: Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn cytuno bod Dylan Thomas o bwysigrwydd byd-eang. Pa drafodaethau y mae eich Llywodraeth wedi eu cael gyda Llywodraeth a darlledwyr y Deyrnas Unedig ynghylch hyrwyddo dathliad cwbl genedlaethol? Mae hwn yn gyfle, fel rhan o'r strategaeth twristiaeth, i dynnu sylw rhyngwladol at Gymru.

Y Prif Weinidog: Bydd yr ŵyl yn un cwbl genedlaethol, beth bynnag, os ydych yn ystyried Cymru fel cenedl. Fodd bynnag, rydym yn barod i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i drafod sut y gall gefnogi unrhyw achlysur. Byddwn hefyd yn sicrhau bod marchnadoedd rhyngwladol, yn enwedig y farchnad yn America, yn cael eu hystyried fel lle i werthu'r ŵyl, wrth gofio bod nifer o bobl yn America yn enwedig wedi clywed am Dylan Thomas. Felly, bydd yn bwysig dros ben i sicrhau ein bod yn gwneud popeth a allwn i ddenu twristiaid i Gymru yn sgîl cynnal gŵyl Dylan Thomas.

Bethan Jenkins: Fel rhan o waddol Dylan Thomas, sicrhawyd Canolfan Dylan Thomas gref yn Abertawe er mwyn ysbrydoli eraill i ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn y ganolfan honno. Yn sgîl penderfyniad diweddar Dinas a Sir Abertawe i brydlesu'r ganolfan i Brifysgol Cymru, a ydych yn rhannu fy mhryder y gellid glastwreiddio'r hyn sy'n digwydd yno gan ei bod wedi newid sgôp yr hyn sy'n gallu digwydd yno ac oherwydd ei bod wedi rhoi nifer o ddigwyddiadau llenyddol dan ofal Canolfan Celfyddydau Taliesin?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n benderfyniad i gyngor Abertawe, ond byddwn yn gobeithio, mewn dwy flynedd, y bydd pob rhan o Abertawe a phob rhan o

gynigion i barhau i hybu'r etifeddiaeth honno yn rhyngwladol a chyda chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru y tu hwnt i gylch gwaith dathliadau 2014 eu hunain?

Y Prif Weinidog: Mae pob un o'r materion a godwyd gennych yn cael eu hystyried wrth inni edrych ar gyflwyno cynlluniau ar gyfer yr ŵyl. Mae'n bwysig, wrth gwrs, i'r ŵyl gael sylw da, iddi gael ei hyrwyddo'n dda ac iddi adael gwaddol y tu hwnt i 2014.

Suzu Davies: First Minister, I am sure that you agree that Dylan Thomas is of global importance. What discussions has your Government had with the Government and broadcasters in the United Kingdom as regards promoting a truly national celebration? This offers an opportunity, as part of the tourism strategy, to attract international attention to Wales.

The First Minister: The festival will be a national festival, if you consider Wales to be a nation. However, we are willing to work with the United Kingdom Government in order to discuss how it could support events. We will also ensure that international markets, particularly the American market, are taken into account as a place where the festivities can be sold, bearing in mind that so many Americans have heard of Dylan Thomas. Therefore, it will be important to ensure that we do all we can to attract tourists to Wales in the wake of the Dylan Thomas festival.

Bethan Jenkins: Part of the Dylan Thomas legacy led to ensuring a strong Dylan Thomas Centre in Swansea with the aim of inspiring others to get involved with activities and events at that centre. In light of the City and County of Swansea's recent decision to lease the centre to the University of Wales, do you share my concern that what happens there could be diluted as a result of the fact that it has changed the scope of what can take place and transferred a number of literary events to the Taliesin Arts Centre?

The First Minister: That is a matter for Swansea council, but we would hope that, in two years' time, every part of Swansea and every part of Wales will be able to participate

Gymru yn gallu cymryd rhan yn y dathliadau. in the celebrations.

Peter Black: Perhaps I could turn Bethan Jenkins's question a different way: as the University of Wales has now taken over the Dylan Thomas Centre and has committed itself to retaining the exhibition there and promoting the heritage of Dylan Thomas, what other partners are you working with in order to get this festival off the ground? Will you be involving the University of Wales, Swansea council and other agencies in order to try to maximise the impact of the Dylan Thomas festival when it takes place?

The First Minister: Yes. A DT100 steering group has been set up and it includes representatives from Swansea council as well as other bodies. If there is a need to extend the number of partners who are part of that group, then that is something that we would consider.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, new figures show that, since 2008, 7,374 Welsh NHS operations have been cancelled due to a lack of available beds. Do you believe that that figure is acceptable?

The First Minister: That amounts to 0.6% of the total number of operations. While we would obviously wish, in an ideal world, to see no operations being cancelled, there will be occasions—such as the sickness of a surgeon for up to a week, which would affect the number of operations—that are very difficult to predict and to deal with. However, given the fact that an exceptionally small number of operations are cancelled, while of course we would rather see that number reduce, when put in context, it still means that the vast majority of people get their operations in due time.

Kirsty Williams: No-one mentioned the sickness of staff, which is unavoidable. Some 7,374 people could not have their operation because of a lack of available beds, and that trend is rising. Other people missed out on

Peter Black: Efallai y gallwn droi cwestiwn Bethan Jenkins mewn ffordd wahanol: gan fod Prifysgol Cymru bellach yn gyfrifol am Ganolfan Dylan Thomas ac wedi ymrwymo i gynnal yr arddangosfa yno a hyrwyddo treftadaeth Dylan Thomas, pa bartneriaid eraill sydd gennych i gydweithio â hwy er mwyn rhoi hwb i'r ŵyl hon? A fyddwch yn cynnwys Prifysgol Cymru, cyngor Abertawe ac asiantaethau eraill er mwyn ceisio gwneud y gorau o effaith gŵyl Dylan Thomas pan fydd yn digwydd?

Y Prif Weinidog: Byddwn. Mae grŵp llywio DT100 wedi cael ei sefydlu ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o gyngor Abertawe yn ogystal â chyrff eraill. Os oes angen ehangu nifer y partneriaid sy'n rhan o'r grŵp hwnnw, yna mae hynny'n rhywbeth y byddem yn ei ystyried.

Questions Without Notice from the Party Leaders

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, mae ffigurau newydd yn dangos bod 7,374 o lawdriniaethau GIG Cymru wedi cael eu canslo ers 2008 oherwydd diffyg gwelyau. A ydych yn credu bod y ffigur hwnnw'n dderbyniol?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n gyfystyr â 0.6% o gyfanswm y llawdriniaethau. Er y byddem yn amlwg yn dymuno, mewn byd delfrydol, na fyddai dim llawdriniaethau'n cael eu canslo, bydd rhai adegau—megis salwch llawfeddyg am hyd at wythnos, a fyddai'n effeithio ar nifer y llawdriniaethau—sy'n anodd iawn eu rhagweld a mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, o ystyried y ffaith mai nifer fach iawn o lawdriniaethau a gaiff eu canslo, er y byddai'n well gennym, wrth gwrs, weld y nifer yn gostwng, mae'n golygu, o fewn cyd-destun, fod y mwyafrif helaeth o bobl yn cael eu llawdriniaethau yn yr amser priodol.

Kirsty Williams: Ni soniodd neb am salwch y staff, sydd yn anochel. Ni allai 7,374 o bobl gael eu llawdriniaethau oherwydd diffyg gwelyau, ac mae'r duedd honno'n cynyddu. Nid oes rhai eraill yn cael llawdriniaethau am

their operation because of list overruns, because of equipment failure and because of administrative errors within the NHS. While the causes may be different, the outcome is the same: it is distressing and inconvenient for patients and it costs the NHS money. Does the First Minister have a figure for how much money was wasted due to cancelled operations, for whatever reason, last year?

The First Minister: Given the fact that 99.4% of operations went ahead as planned, I think that that is an exceptionally good record. I understand that it is inconvenient for people, but there will be a number of reasons as to why operations are cancelled. It may be because of the sickness of a surgeon, it may be because people are missing their appointments and it may be because beds are not available. However, when you look at the overall record, it is quite clear that the NHS has an exceptional record on delivering operations on time.

Kirsty Williams: There is no 'may be' about it. If the First Minister would care to look at the details of the situation, which is serious for those individuals involved, he will see that the number of people who are missing operations because someone is sick pales in comparison with the number of people who are missing their operations because there is no bed on a ward, there is no intensive care unit bed, the equipment is not available, staff are on leave or there has been an administrative error in booking that person in for an operation. First Minister, I would like to know what you intend to do to minimise these numbers, the inconvenience to the patient and the cost to the NHS. You could cut down on these numbers by increasing staff, and I welcome your announcement yesterday of the next stage of your doctor recruitment campaign. Previously, you were unable to tell us how many doctors you expected to recruit as a result of these efforts. Are you in a position to tell us today how many doctors you expect to recruit to the Welsh NHS as a result of your Government's intervention?

The First Minister: Again, the leader of the Liberal Democrats finds herself in the position of dealing with an issue as if it was a grave crisis. It accept that it is inconvenient

fod gormod ar y rhestr, am fod offer yn methu ac oherwydd camgymeriadau gweinyddol yn y GIG. Er y gall yr achosion fod yn wahanol, mae'r canlyniad yr un fath: mae'n drallodus ac yn anghyfleus i gleifion ac mae'n costio arian i'r GIG. A oes gan y Prif Weinidog ffigur ar gyfer faint o arian a wastraffwyd oherwydd y llawdriniaethau a ganslwyd, am ba reswm bynnag, y llynedd?

Y Prif Weinidog: O gofio'r ffaith bod 99.4% o lawdriniaethau wedi cael eu cynnal fel y bwriadwyd, rwy'n meddwl bod hynny'n record arbennig o dda. Rwy'n deall ei bod yn anghyfleus i bobl, ond bydd nifer o resymau pam y mae llawdriniaethau'n cael eu canslo. Gall fod oherwydd salwch llawfeddyg, gall fod oherwydd bod pobl yn colli eu hapwyntiadau a gall fod oherwydd nad oes gwelyau ar gael. Fodd bynnag, wrth edrych ar y record yn gyffredinol, mae'n glir bod gan y GIG record eithriadol o ran cynnal llawdriniaethau ar amser.

Kirsty Williams: Nid oes dim 'gall fod' yn ei gyloch. Pe hoffai'r Prif Weinidog edrych ar fanylion y sefyllfa, sy'n ddifrifol i'r unigolion dan sylw, gwêl nad yw nifer y bobl sy'n colli llawdriniaethau oherwydd salwch rhywun yn ddim o'i gymharu â nifer y bobl sy'n colli eu llawdriniaethau oherwydd nad oes gwelyau ar ward, nad oes gwely mewn uned gofal dwys, nad yw'r offer ar gael, bod y staff ar wyliau neu fod camgymeriad gweinyddol wedi bod wrth drefnu llawdriniaeth ar gyfer y person hwnnw. Brif Weinidog, hoffwn gael gwybod beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i leihau'r niferoedd hyn, yr anghyfleustra i'r claf a'r gost i'r GIG. Gallech leihau'r niferoedd hyn drwy gael rhagor o staff, ac rwy'n croesawu'r cyhoeddiad gennych ddoe ynghylch eich cam nesaf yn eich ymgyrch recriwtio meddygon. Cyn hyn, ni allech ddweud wrthym faint o feddygon yr oeddech yn disgwyl eu recriwtio o ganlyniad i'r ymdrechion hyn. A ydych mewn sefyllfa i ddweud wrthym heddiw faint o feddygon yr ydych yn disgwyl eu recriwtio i GIG Cymru o ganlyniad i ymyrraeth eich Llywodraeth?

Y Prif Weinidog: Unwaith eto, mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei chael ei hun mewn sefyllfa lle y mae'n ymdrin â mater fel pe bai'n argyfwng difrifol.

for individuals. However, in reality, as I said, 265,000 operations were carried out in Wales last year. The cancellations equate to 0.6% of the total. It is right to say that we would expect the local health boards to do all they can to push down and reduce the number of operations cancelled. However, it remains the case that the NHS is delivering a high quality of service to patients and that the vast majority of operations take place on time. I am surprised that the Lib Dems did not do the maths before asking this question.

The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood): First Minister, unemployment in Wales has gone up again and among those who were put out of work more recently were yet more Peacocks workers. Peacocks, as you know, is a Welsh company that was undermined by the decision of the publicly owned Royal Bank of Scotland. Do you agree that the head of this publicly funded organisation should not be raking in a massive taxpayer-funded salary and that he has treated those taxpayers as well as those Welsh workers with utter contempt?

The First Minister: It is exceptionally difficult to justify the heads of large banks, particularly those that are effectively owned by the state, receiving large salaries and large bonuses when we see other workers elsewhere in the economy suffering so much.

Leanne Wood: Given what you have just said, namely that large salaries from the public purse are difficult to justify, I hope that you will join me in condemning the Labour leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council, who has five jobs, all paid for by the public purse, while his Labour administration in RCT threatened to lock out public workers unless they accepted reduced pay and conditions. First Minister, can you understand why people are angry with the likes of the Labour leader in Rhondda Cynon Taf council?

Rwy'n derbyn ei fod yn anghyfleus i unigolion. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, fel y dywedais, cynhaliwyd 265,000 o lawdriniaethau yng Nghymru y llynedd. Mae'r rhai a gafodd eu canslo yn cyfateb i 0.6% o'r cyfanswm. Mae'n iawn dweud y byddem yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol wneud popeth o fewn eu gallu i weithio'n galed a lleihau nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir fod y GIG yn darparu safon uchel o wasanaeth i gleifion a bod y mwyafrif helaeth o'r llawdriniaethau yn digwydd ar amser. Rwy'n synnu nad oedd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud y fathemateg cyn gofyn y cwestiwn hwn.

Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood): Brif Weinidog, mae diweithdra yng Nghymru wedi codi unwaith eto ac ymhlith y rhai a gollodd eu gwaith yn ddiweddar roedd rhagor eto byth o weithwyr Peacocks. Mae Peacocks, fel y gwyddoch, yn gwmni o Gymru a gafodd ei danseilio gan benderfyniad Banc Brenhinol yr Alban, sy'n eiddo cyhoeddus. A ydych yn cytuno na ddylai pennaeth y sefydliad hwn a ariennir yn gyhoeddus gael manteisio ar gyflog enfawr a ariennir gan drethdalwyr a'i fod wedi trin y trethdalwyr hynny, yn ogystal â'r gweithwyr hynny o Gymru, gyda dirmyg llwyr?

Y Prif Weinidog: Mae'n eithriadol o anodd cyfiawnhau'r ffaith bod penaethiaid banciau mawr, yn enwedig y rhai sy'n eiddo, i bob pwrpas, i'r wladwriaeth, yn cael cyflogau mawr a bonysau mawr pan welwn weithwyr mewn mannau eraill yn yr economi yn dioddef cymaint.

Leanne Wood: O ystyried yr hyn yr ydych newydd ei ddweud, sef bod cyflogau mawr o bwrs y wlad yn anodd eu cyfiawnhau, gobeithio y byddwch yn ymuno â mi i gondemnio arweinydd Llafur Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sydd â phum swydd, y telir am bob un ohonynt o bwrs y wlad, tra bod ei weinyddiaeth Llafur yn Rhondda Cynon Taf wedi bygwth cloi gweithwyr cyhoeddus allan oni bai eu bod yn derbyn amodau a chyflogau is. Brif Weinidog, a allwch ddeall pam mae pobl yn ddig wrth bobl fel arweinydd y Blaid Llafur ar gyngor Rhondda Cynon Taf?

The First Minister: The leader of Rhondda Cynon Taf council performs those jobs; he is not being paid for nothing. However, I ask the leader of Plaid Cymru to condemn the Plaid Cymru group in Cardiff Council, which said in a recent election leaflet that I, as First Minister, have announced plans to build on Cardiff's greenfield sites. The fact is that that is wholly and completely untrue—we all know that there is a bit of give and take at the time of an election, but usually there is at least a fragment of truth in what political parties say. Will she condemn the words of the Cardiff Plaid Cymru group? I also ask her whether she has full confidence in Neil McEvoy.

Leanne Wood: First Minister, I am not sure what on earth that has to do with the question of public pay—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order.

1.45 p.m.

Leanne Wood: First Minister, why will you not stand up for the workers in Rhondda Cynon Taf and in the other Labour council areas where employees have been treated appallingly? The Labour council leader in Rhondda Cynon Taf holds five publicly funded positions and rakes in over £100,000 per year. You say that your party wants to send a message to David Cameron in this election, but you do not seem to have got the message yourself. Why do you not condemn the behaviour of someone who is raking in massive amounts of public money and treats public sector workers with utter contempt?

The First Minister: You talk about treating public sector workers with contempt, but on these benches we are fighting hard to oppose regional pay across the UK. Plaid Cymru has thrown the towel in when it comes to regional pay. We know that regional pay is an issue that affects not just workers in Wales, but those in the north-east of England and other parts of the UK, who would suffer greatly if it was introduced. Plaid Cymru is not interested in that. I ask the leader of Plaid

Y Prif Weinidog: Mae arweinydd cyngor Rhondda Cynon Taf yn gwneud y swyddi hynny; nid yw'n cael ei dalu am ddim byd. Fodd bynnag, gofynnaf i arweinydd Plaid Cymru gondemnio grŵp Plaid Cymru ar Gyngor Caerdydd, a ddywedodd mewn taflen etholiad yn ddiweddar fy mod i, fel Prif Weinidog, wedi cyhoeddi cynlluniau i adeiladu ar safleoedd maes glas Caerdydd. Y gwir amdani yw bod hynny'n gyfan gwbl ac yn hollol anghywir—rydym i gyd yn gwybod bod ychydig o roi a derbyn ar adeg etholiad, ond fel arfer mae o leiaf ychydig o wirionedd yn yr hyn a ddywed y pleidiau gwleidyddol. A wnaiff hi gondemnio geiriau grŵp Plaid Cymru Caerdydd? Rwyf hefyd yn gofyn iddi a oes ganddi hyder llwyr yn Neil McEvoy.

Leanne Wood: Brif Weinidog, nid wyf yn siŵr beth ar y ddaear sydd a wnelo hynny â'r cwestiwn ynghylch tâl cyhoeddus—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn

Leanne Wood: Brif Weinidog, pam na wnewch chi sefyll i fyny dros weithwyr yn Rhondda Cynon Taf a'r ardaloedd eraill sydd â chynghorau Llafur lle mae gweithwyr wedi cael eu trin yn warthus? Mae gan arweinydd cyngor Llafur Rhondda Cynon Taf bum swydd a ariennir yn gyhoeddus ac mae'n ennill dros £100,000 y flwyddyn. Rydych yn dweud bod eich plaid yn dymuno anfon neges i David Cameron yn yr etholiad hwn, ond nid yw'n ymddangos eich bod wedi deall y neges eich hun. Pam nad ydych yn condemnio ymddygiad rhywun sy'n derbyn symiau enfawr o arian cyhoeddus ac yn trin gweithwyr y sector cyhoeddus gyda dirmyg llwyr?

Y Prif Weinidog: Rydych yn sôn am drin gweithwyr y sector cyhoeddus gyda dirmyg, ond ar y meinciau hyn rydym yn ymdrechu'n galed i wrthwynebu cyflogau rhanbarthol ar draws y DU. Mae Plaid Cymru wedi rhoi'r ffidil yn y to o ran cyflogau rhanbarthol. Gwyddom fod cyflogau rhanbarthol yn fater sy'n effeithio nid yn unig ar weithwyr yng Nghymru, ond y rheini yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a rhannau eraill o'r DU, a fyddai'n dioddef yn fawr pe bai'n cael ei

Cymru once again—[*Interruption.*] I know that it is difficult for them to hear this, but this is a democratic Chamber. Does she condemn the Plaid Cymru group on Cardiff Council that has put out a leaflet containing a blatant lie? I do not use that word very often, or at all, in the Chamber, but it is a blatant lie. Does she have full confidence in Neil McEvoy—somebody she has condemned in the past?

The Presiding Officer: Order. The First Minister has asked a direct question of Leanne Wood. Would you like to reply?

Leanne Wood: I am not responding to that. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. Have you chosen not to reply?

Leanne Wood: As I said, this is questions to the First Minister. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Absolutely, but—[*Interruption.*] Excuse me, but if the First Minister asks a direct question of an opposition leader, I intend to let that opposition leader answer the question. If you have chosen not to do so, that is fine; you have had the opportunity.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): First Minister, you returned from your travels to India with some good news—the £800 million investment that Tata Steel proposes to make in its facilities in Wales. However, Tata has said that

‘a strong vision was outlined’

to you in a detailed briefing, so I believe that it is incumbent upon you to outline what that vision is and—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. Can we listen to the leader of the opposition, please? Would the leaders of the other parties mind listening to the leader of the opposition?

gyflwyno. Nid oes gan Blaid Cymru ddi-ddordeb mewn hynny. Gofynnaf i arweinydd Plaid Cymru unwaith eto—[*Torri ar draws.*] Gwn ei fod yn anodd iddynt glywed hyn, ond mae hon yn Siambr ddemocrataidd. A yw’n condemnio grŵp Plaid Cymru ar Gyngor Caerdydd sydd wedi cyhoeddi taflen sy’n cynnwys celwydd noeth? Nid wyf yn defnyddio’r gair yn aml iawn, neu ddim o gwbl, yn y Siambr, ond mae’n gelwydd noeth. A oes ganddi hyder llwyr yn Neil McEvoy—rhywun y mae hi wedi ei gondemnio yn y gorffennol?

Y Llywydd: Trefn. Mae’r Prif Weinidog wedi gofyn cwestiwn uniongyrchol i Leanne Wood. A hoffech chi ateb?

Leanne Wood: Nid wyf am ymateb i hynny. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. A ydych wedi dewis peidio ag ateb?

Leanne Wood: Fel y dywedais, cwestiynau i’r Prif Weinidog yw hyn. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Wrth gwrs, ond—[*Torri ar draws.*] Esgusodwch fi, ond os bydd y Prif Weinidog yn gofyn cwestiwn uniongyrchol i arweinydd un o’r gwrthbleidiau, rwy’n bwriadu gadael i’r arweinydd hwnnw ateb y cwestiwn. Os ydych wedi dewis peidio â gwneud hynny, mae hynny’n iawn; rydych wedi cael y cyfle.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Brif Weinidog, bu i chi ddychweled o’ch taith i India gyda rhywfaint o newyddion da—y buddsoddiad o £800 miliwn y mae Tata Steel yn bwriadu ei wneud yn ei gyfleusterau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Tata wedi dweud yr

amlinellwyd gweledigaeth gref

i chi mewn sesiwn friffio manwl, felly rwy’n credu ei bod yn ddyletswydd arnoch i amlinellu’r weledigaeth honno ac—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. A allwn ni wrando ar arweinydd yr wrthblaid, os gwelwch yn dda? A yw arweinwyr y pleidiau eraill yn fodlon gwrandao ar arweinydd yr wrthblaid?

The First Minister: The £800 million was designed to secure the future of Port Talbot, in particular, over the next five years. It has been approved by the board of Tata and the wording that I used was agreed with Tata. I very much welcome the investment, which will mean further relining of one of the other blast furnaces as well as developing a new product range for Port Talbot. It does not include the money that may be invested in the mine, and we hope to get a decision on that by the autumn.

Andrew R.T. Davies: It is notable that your answer did not touch on the specifics. You touched on the relining, which we all knew about, and which amounts to £180 million, I believe. That leaves £620 million unaccounted for, yet you were given a detailed briefing. Tata has also said that

‘the key message is that the Welsh Government has got to assist us to make it come about.’

What liability do you believe will be placed on the Welsh Government via match funding and other assets that you might have to direct to allow this money to flow into Wales to create these opportunities, given the detailed briefing that you had and your understanding of what was said to you?

The First Minister: Again, I am surprised that the leader of the opposition cannot welcome the news that this is £800 million that has been committed by the Tata board. It is as simple as that. There is no financial commitment as far as the Welsh Government is concerned. Tata is extremely happy with the relationship that it has with us, and with the fact that I went to Mumbai to discuss the future of Tata Steel in Wales. I know that the Secretary of State was not very happy with the announcement, but the reality is that the people of Wales are happy. It shows that, when you go to countries and talk to people, you come back with substantial investment. I believe that that has been welcomed by the people of Wales, even if his party cannot do so.

Y Prif Weinidog: Y bwriad oedd y byddai'r £800 miliwn yn sicrhau dyfodol Port Talbot, yn benodol, dros y pum mlynedd nesaf. Mae wedi cael ei gymeradwyo gan fwrdd Tata a chytunwyd ar y geiriad a ddefnyddiais gyda Tata. Rwyf yn croesawu'n fawr y buddsoddiad hwn, a fydd yn golygu ail-leinio pellach un o'r ffwrneisi chwyth eraill yn ogystal â datblygu cynnyrch newydd ar gyfer Port Talbot. Nid yw'n cynnwys yr arian a allai gael ei fuddsoddi yn y pwll glo, ac rydym yn gobeithio cael penderfyniad ar hynny erbyn yr hydref.

Andrew R.T. Davies: Mae'n werth nodi nad yw eich ateb yn cyffwrdd ar y manylion. Soniasoch am ail-leinio, ond roeddem i gyd yn gwybod am hynny, ac a fydd yn costio £180 miliwn, rwy'n credu. Mae hynny'n gadael £620 miliwn, ond bu ichi dderbyn sesiwn friffio fanwl. Mae Tata hefyd wedi dweud mai'r

neges allweddol yw bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ein cynorthwyo i wneud i hyn ddigwydd.

Pa gyfrifoldeb ydych chi'n credu y bydd yn cael ei roi ar Lywodraeth Cymru drwy arian cyfatebol ac asedau eraill y bydd yn rhaid ichi, efallai, eu cyfeirio er mwyn caniatáu i'r arian hwn ddod i Gymru a chreu'r cyfleoedd hyn, o ystyried y sesiwn friffio fanwl a gawsoch a'ch dealltwriaeth o'r hyn a ddywedwyd wrthydych chi?

Y Prif Weinidog: Unwaith eto, rwy'n synnu na all arweinydd yr wrthblaid groesawu'r newyddion bod £800 miliwn wedi'i addo gan fwrdd Tata. Mae hi mor syml â hynny. Nid oes ymrwymiad ariannol cyn belled ag y mae Llywodraeth Cymru yn y cwestiwn. Mae Tata yn hapus iawn gyda'i berthynas â ni, a gyda'r ffaith fy mod i wedi mynd i Mumbai i drafod dyfodol Tata Steel yng Nghymru. Gwn nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hapus iawn gyda'r cyhoeddiad, ond y gwir amdani yw bod pobl Cymru yn hapus. Mae'n dangos, pan fyddwch yn mynd i wledydd a siarad â phobl, rydych yn dychwelyd â buddsoddiad sylweddol. Credaf fod hynny wedi ei groesawu gan bobl Cymru, hyd yn oed os na all ei blaid wneud hynny.

Andrew R.T. Davies: Presiding Officer, the Record will show that I welcomed the investment that Tata proposes in my opening words. However, given that Tata has outlined that your Government is expected either to match fund or to provide some sort of support—that is in its statement—it is not unreasonable for us as an opposition to try to extract those answers from you. It also outlined that it gave you a strong vision of what the £800 million could achieve. We welcome all of that, but surely it is legitimate for a Member in this Chamber to seek an answer from the First Minister of Wales on such an important issue? It is noticeable that you have failed to answer on both occasions. Can you give a simple answer to the next question: do you believe that Tata steel workers and their jobs are protected here in Wales by this investment?

The First Minister: Yes, absolutely. That is exactly what I was told by Tata: the investment secures the future of Port Talbot. Tata sees Port Talbot as a good place to make steel in the future and the £800 million will ensure that Port Talbot has a strong steel-making future and will protect and enhance steel-making jobs there. Given that he has come to the Chamber to express scepticism as to Tata's word in relation to its investment, the last person that you would want to go to India to sell Wales is the leader of the opposition.

Cyflenwadau Dŵr

3. William Graham: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu cyflenwadau dŵr i Gymru. OAQ(4)0469(FM)*

The First Minister: There are no concerns at present in relation to the public water supply situation in Wales.

William Graham: I thank the First Minister for his reply. Despite an image of a water-rich Wales, there are times when we experience low water levels in our rivers and reservoirs. Currently in south-east Wales, the Wye, Usk and Ebbw are at or near record low levels. You will be aware that United Utilities

Andrew R.T. Davies: Lywydd, bydd y Cofnod yn dangos fy mod wedi croesawu'r buddsoddiad y mae Tata yn ei gynnig yn fy ngeiriau agoriadol. Fodd bynnag, o gofio bod Tata wedi amlinellu bod disgwyl i'ch Llywodraeth naill ai roi arian cyfatebol neu ddarparu rhyw fath o gefnogaeth—mae hynny yn ei ddatganiad—nid yw'n afresymol i ni fel gwrthblaid geisio rhai atebion gennych. Bu iddo hefyd ddweud ei fod wedi amlinellu gweledigaeth gref ichi o'r hyn y gallai'r £800 miliwn ei gyflawni. Rydym yn croesawu hynny i gyd, ond mae'n rhaid ei bod yn ddilys i Aelod yn y Siambr hon geisio ateb gan Brif Weinidog Cymru ar fater mor bwysig? Mae'n amlwg eich bod wedi methu ag ateb ar ddau achlysur. A allwch roi ateb syml i'r cwestiwn nesaf: a ydych yn credu bod gweithwyr Tata steel a'u swyddi yn cael eu hamddiffyn yng Nghymru gan y buddsoddiad hwn?

Y Prif Weinidog: Ydw, yn llwyr. Dyna'n union y dywedwyd wrthyf gan Tata: mae'r buddsoddiad yn sicrhau dyfodol Port Talbot. Mae Tata yn gweld Port Talbot fel lle da i wneud dur yn y dyfodol a bydd yr £800 miliwn yn sicrhau bod gan Port Talbot ddyfodol cryf o ran cynhyrchu dur ac y bydd yn diogelu a gwella swyddi ym maes cynhyrchu dur yno. Gan ei fod wedi dod i'r Siambr i fynegi amheuaeth ynghylch yr hyn a ddywedwyd gan Tata mewn perthynas â'r buddsoddiad, y person olaf y byddech yn dymuno ei weld yn mynd i India i werthu Cymru yw arweinydd yr wrthblaid.

Water Supplies

3. William Graham: *Will the First Minister make a statement concerning the provision of water supplies to Wales. OAQ(4)0469(FM)*

Y Prif Weinidog: Nid oes pryderon ar hyn o bryd mewn perthynas â'r sefyllfa cyflenwad dŵr cyhoeddus yng Nghymru.

William Graham: Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ateb. Er gwaethaf y ddelwedd o Gymru fel rhywle sy'n llawn dŵr, mae yna adegau pan fyddwn yn profi lefelau dŵr isel yn ein hafonydd a'n cronfeydd. Ar hyn o bryd yn ne-ddwyrain Cymru, mae afon Gwy, afon Wysg ac afon

has built a 55 km water main between Manchester and Liverpool, allowing water to be fed from north Wales to those cities. Will the First Minister outline any measures that he deems necessary to ensure the adequate supply of water in Wales?

The First Minister: There is no suggestion that there is a problem with the adequacy of water supplies. Reservoir levels are currently normal for this time of year and there are no concerns about the provision of public water supplies in Wales.

Llyr Huws Gruffydd: Brif Weinidog, rydych wedi gofyn yn y gorffennol am ddatganoli'r *aggregates levy*, sy'n dreth ar adnoddau naturiol fel tywod, graean a cherrig. A fydddech yn barod i estyn hynny i gefnogi'r pwysau i greu a chodi trethi ar holl adnoddau naturiol Cymru pan fyddant yn cael eu hecsbloetio, gan gynnwys dŵr?

Y Prif Weinidog: Mae'n dibynnu ym mha ffordd y byddai'r dreth yn cael ei rhoi ar ddŵr. Rwyf wastad yn agored i edrych ar ffyrdd i sicrhau'r lles mwyaf i bobl Cymru. Byddai'n rhaid ystyried pob treth er mwyn gweld, yn gyntaf, a fyddai'r dreth yn effeithiol ac, yn ail, a fyddai er lles pobl.

Safle Profion Milwrol ym Mhentywyn

4. Rhodri Glyn Thomas: *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y safle profion milwrol ym Mhentywyn. OAQ(4)0471(FM)*

Y Prif Weinidog: Nid yw amddiffyn yn fater sydd wedi ei ddatganoli, ac nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Rhodri Glyn Thomas: Rhag ofn nad yw'r Prif Weinidog yn gwybod, mae Pentywyn yng Nghymru ac mae'r safle profion milwrol hwn ym Mhentywyn. Mae'r safle yn effeithio ar bobl yn fy etholaeth i, yn ogystal ag ar bobl yn sir Benfro, er bod ganddynt *buffer zones* sy'n lleihau effaith y sŵn. Bydd y Prif

Ebwy ar eu lefelau isaf erioed, neu yn agos at y lefelau isaf. Byddwch yn ymwybodol bod United Utilities wedi adeiladu prif bibell ddŵr sy'n 55 cilomedr o hyd rhwng Manceinion a Lerpwl, gan alluogi dŵr i gael ei drosglwyddo o ogledd Cymru i'r dinasoedd hynny. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu unrhyw gamau y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol i sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Nid oes unrhyw awgrym bod problem o ran cyflenwadau dŵr digonol. Mae lefelau'r cronfeydd dŵr ar hyn o bryd yr un peth ag arfer yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch darparu cyflenwadau dŵr cyhoeddus yng Nghymru.

Llyr Huws Gruffydd: First Minister, you have, in the past, called for the devolution of the aggregates levy, which is a tax on natural resources such as sand, gravel and stones. Would you be willing to extend that to support the demand to tax all of Wales's natural resources when they are exploited, including water?

The First Minister: It depends on how the tax would be charged on water. I am always open to look at ways of securing the greatest benefit for the people of Wales. Every tax would have to be considered to see, first, whether it would be effective and, secondly, whether it would benefit people.

Military Testing Site in Pendine

4. Rhodri Glyn Thomas: *What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the military testing site in Pendine. OAQ(4)0471(FM)*

The First Minister: Defence is a non-devolved matter, and I have not had any discussions with the UK Government.

Rhodri Glyn Thomas: In case the First Minister does not know, Pendine is in Wales and the military testing site is in Pendine. The site affects people in my constituency, as well as people in Pembrokeshire, even though they have buffer zones that reduce the noise impact. The First Minister will be aware that

Weinidog yn ymwybodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi caniatâd i'r safle ychwanegu at sŵn y profion a gynhelir yno. A yw'n cytuno â'r penderfyniad hwnnw, ynteu a yw'n barod i ofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig leihau'r sŵn hwnnw oherwydd yr effaith ar fy etholwyr i ac ar etholwyr Aelodau eraill yn y Siambr hon?

Y Prif Weinidog: Os yw'r Aelod yn ysgrifennu ataf ynglŷn â'r problemau, byddaf yn ystyried y problemau a godir. Rwy'n gwybod yn union lle mae Pentywyn: mae ar y ffordd i'r gorllewin, i arfordir sir Benfro.

Angela Burns: First Minister, I urge you not to write, given that it is an additional two nights per week. It affects the whole of my patch—because the site is in my patch—and no-one has complained to me about it. It is of huge importance that we are allowed to use these sites, particularly given that Pendine is currently under some threat, with the collective training group looking to rationalise. I would not like to lose Pendine nor Castlemartin, and nor would I like to lose any more soldiers, who come to us to get trained for Afghanistan. Please do not write to Westminster.

The First Minister: I am reluctant to adjudicate in a dispute between the two parties across this Chamber, but if any Member wishes to write to me on this issue, I will of course investigate.

Twristiaeth yng Ngorllewin Cymru

5. Paul Davies: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi twristiaeth yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0459(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi neilltuo £632,000 i Bartneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, i hyrwyddo a datblygu ein blaenoriaethau twristiaeth rhanbarthol.

Paul Davies: Un o'r digwyddiadau sy'n denu twristiaid i fy etholaeth yw'r *Really Wild Food and Countryside Festival* yn Nhŷ Ddewi, a gynhelir dros ddau ddiwrnod yn yr haf. Mae'r digwyddiad hwn yn denu miloedd

the United Kingdom Government has given permission for the site to add to the noise of the testing undertaken there. Does he agree with that decision, or is he willing to ask the United Kingdom Government to reduce that noise because of the impact that it has on my constituents and on the constituents of other Members?

The First Minister: If the Member writes to me about the problems, I will consider them. I know exactly where Pendine is: it is on the road to west Wales, to the Pembrokeshire coast.

Angela Burns: Brif Weinidog, rwy'n eich annog i beidio ag ysgrifennu, gan ystyried ei fod yn ddwy noson ychwanegol yr wythnos. Mae'n effeithio ar fy ardal gyfan i—oherwydd yn fy ardal i mae'r safle—ac nid oes neb wedi cwyno wrthyf fi am y peth. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn cael defnyddio'r safleoedd hyn, yn enwedig o ystyried bod Pentywyn dan gryn fygythiad ar hyn o bryd, gyda'r grŵp hyfforddi ar y cyd yn edrych i ad-drefnu. Nid wyf am golli Pentywyn na Chastellmartin, ac nid wyf am golli rhagor o filwyr, sy'n dod atom i gael eu hyfforddi cyn mynd i Afghanistan. Peidiwch ag ysgrifennu at San Steffan, os gwelwch yn dda.

The First Minister: Yes. They can be found in the programme for government.

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Gellir eu gweld yn y rhaglen lywodraethu.

Russell George: As you will be aware, we are about to enter Multiple Sclerosis Awareness Week and the Multiple Sclerosis Society Cymru Wales has recently raised concerns about the shortage of specialist nurses for people affected by multiple sclerosis in Wales. There are 13 specialist nurses across Wales, but only one in north Wales, and none in Powys. Will the First Minister commit his Government to doing everything that it can to impress upon all health boards, but particularly Powys Teaching Local Health Board, the need to recognise the valuable work that these nurses do and to invest in these posts for the benefit of MS patients?

Russell George: Fel y gwyddoch, mae Wythnos Ymwybyddiaeth Sglerosis Ymledol ar fin dechrau ac mae Cymdeithas MS Cymru wedi mynegi pryderon yn ddiweddar ynghylch y prinder nyrsys arbenigol ar gyfer pobl sydd â sglerosis ymledol yng Nghymru. Mae 13 o nyrsys arbenigol ar draws Cymru, ond dim ond un yn y gogledd, a dim un ym Mhowys. A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo y bydd ei Lywodraeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i bwysleisio wrth yr holl fyrddau iechyd, ond yn arbennig Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys, fod angen cydnabod y gwaith gwerthfawr y mae'r nyrsys hyn yn ei wneud a buddsoddi yn y swyddi hyn er budd cleifion MS?

The First Minister: Yes, it is important that, where we are able to do so, we have specialist nurses, particularly with regard to MS, in all parts of Wales. I will write to the Member with further information as to the spread, if I can put it in that way, of MS nursing services across Wales and investigate what could be done to improve the numbers over the course of the next few years.

Y Prif Weinidog: Gwnaf, mae'n bwysig, lle yr ydym yn gallu gwneud hynny, fod gennym nyrsys arbenigol, yn enwedig o ran MS, ym mhob rhan o Gymru. Ysgrifennaf at yr Aelod i roi gwybodaeth bellach ynghylch y lledaenu, os gallaf ei gyfleu felly, o ran gwasanaethau nyrsio MS ar draws Cymru ac ymchwilio i'r hyn y gellid ei wneud i wella'r niferoedd yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Simon Thomas: Brif Weinidog, efallai y byddwch yn cofio, fel fi, yn ystod y 1980au, pan welwyd sawl dirwasgiad a newid sylfaenol yn neddfwriaeth tai yn Lloegr, fod nifer fawr o bobl wedi cael eu symud o Loegr i rannau o ganolbarth Cymru a threfi glanmôr canolbarth Cymru yn benodol, oherwydd ei fod yn rhatach i'w cadw yn y lleoedd hynny ac oherwydd ei fod yn bolisi i symud pobl o gwmpas fel bod pethau yn rhatach. Rydym yn dechrau gweld hyn yn digwydd unwaith eto dan y Llywodraeth bresennol gydag awdurdodau yn Llundain yn chwilio am gyfleoedd i symud cannoedd o bobl o'u

Simon Thomas: First Minister, perhaps you will recall, as I do, during the 1980s, when there were a number of recessions and a fundamental change in housing legislation in England, that many people were moved from England to parts of mid Wales, particularly seaside towns in mid Wales, because it was cheaper to house them at those locations and because there was a policy to move people around so that things were cheaper. Under the current Government, we are starting to see this happening once again, with authorities in London seeking opportunities to move hundreds of people away from their own

cynefin, eu cefnogaeth deuluol a'r lleoedd maent yn gyfarwydd â hwy lle y gallant geisio am swyddi i leoedd anghyfarwydd i geisio byw eu bywydau drachefn. Nid yw hynny'n llesol iddynt hwy nac i'r cymunedau y maent yn symud iddynt. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau nad yw Cymru yn cael ei defnyddio fel arbrawf yn y ffordd anffodus hon o lanhau cymunedau yn Llundain?

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi gweld y stori heddiw am yr hyn sy'n digwydd yn Stoke a'r ffaith bod Cyngor Newham yn Llundain yn edrych ar symud pobl allan o Newham. Mae hyn wedi digwydd o achos y newidiadau sydd wedi cymryd lle yn y system lles. Dyma'r dechrau, mae'n rhaid imi ddweud, achos rwy'n gwybod, o ran Llundain, mai gobaith Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd y byddai pobl yn cael eu symud allan o ardaloedd drud Llundain i ardaloedd fel Newham, ond mae'n amlwg nad oes lle ar gael ar hyn o bryd i bobl sydd yn byw yn Newham yn barod. Rwy'n condemnio'r hyn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ei wneud a'r ffaith y gallai cannoedd o filoedd o bobl gael eu symud ar hyd a lled Prydain Fawr achos nad oes cymorth iddynt wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig i fyw yn eu cymunedau eu hunain.

William Powell: To turn to the key priority of energy generation in mid Wales, we have recently seen the formation of a group called the National Opposition to Windfarms, or NOW. A concern that is constantly raised by its supporters and, indeed, other residents across that part of Wales is the potential overdevelopment of windfarms within the strategic search areas. Some of Montgomeryshire, in particular, has already passed its original development capacity limit, as set out in the original document some years ago. Do you consider that overdevelopment within the established SSAs is a problem? If so, will you reconsider your previous statements and deliver on the commitment of a previous Welsh Government to review the technical advice note that was their origin?

The First Minister: The answer to your

areas, their family support and the places that they are familiar with where they can apply for jobs to unfamiliar areas to try to start their lives over. It is not beneficial to them and it is not beneficial to the communities that they move to. What steps will you as a Government take to ensure that Wales is not used as an experiment in this unfortunate method of cleansing communities in London?

The First Minister: I have seen the story today about what is happening in Stoke and the fact that Newham Council in London is looking at moving people out of Newham. This has occurred as a result of the changes to the welfare system. This is the beginning, I have to say, because I know that, as regards London, the UK Government's hope was that people would be moved out of expensive areas in London and into areas such as Newham, but it is obvious that there is not room at present for people already living in Newham. I condemn what the UK Government has done and the fact that hundreds of thousands of people could be moved throughout the whole of Great Britain because they do not have any support from the UK Government to live within their own communities.

William Powell: A throi at y flaenoriaeth allweddol o gynhyrchu ynni yn y canolbarth, rydym wedi gweld ffurfio grŵp yn ddiweddar, o'r enw National Opposition to Windfarms, neu NOW. Un o'r pryderon a gaiff ei fynegi'n gyson gan ei gefnogwyr ac, yn wir, gan breswylwyr eraill ar draws y rhan honno o Gymru yw'r posibilrwydd o orddatblygu ffermydd gwynt o fewn yr ardaloedd chwilio strategol. Mae rhannau o sir Drefaldwyn, yn arbennig, eisoes wedi mynd heibio eu terfyn datblygu gwreiddiol, fel y nodir yn y ddogfen wreiddiol rai blynyddoedd yn ôl. A ydych yn credu bod gorddatblygiad o fewn yr ardaloedd chwilio strategol sydd wedi'u sefydlu yn broblem? Os felly, a wnewch ailystyried eich datganiadau blaenorol a chyflawni ymrwymiad Llywodraeth flaenorol Cymru i adolygu'r nodyn cyngor technegol a oedd yn darddiad iddynt?

Y Prif Weinidog: Yr ateb i'ch cwestiwn yw

question is that yes, there is potential for overdevelopment; that is why we put in place the suggested limits in each SSA. The difficulty is that those limits can be ignored by the Infrastructure Planning Commission. The IPC can happily ignore TAN 8 and it could happily put wind turbines in every part of Powys, not just in the SSAs, including in the national park. In the absence of a commitment by the UK Government that it will restrict most wind turbine development to the SSAs, which it refuses to give, it is a matter, ultimately, for the UK Government to explain. We put limits in place, but they are not being kept to by the UK Government.

bod potensial ar gyfer gorddatblygiad; dyna pam yr ydym wedi awgrymu'r terfynau ym mhob ardal chwilio strategol. Yr anhawster yw y gall y terfynau hynny gael eu hanwybyddu gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Gall y comisiwn anwybyddu TAN 8 a gallai roi tyrbinau gwynt ym mhob rhan o Bowys, nid yn unig yn yr ardaloedd chwilio strategol, gan gynnwys yn y parc cenedlaethol. Heb ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd yn cyfyngu ar y gwaith mwyaf o ddatblygu tyrbinau gwynt i'r ardaloedd chwilio strategol, ac mae'n gwrthod gwneud hynny, mater i Lywodraeth y DU ei egluro yw hynny yn y pen draw. Rydym yn pennu cyfyngiadau, ond nid yw Llywodraeth y DU yn cadw atynt.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I have one change to report to this week's planned business, which is to reduce the time allocated for questions to the Counsel General. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Mae gennyf un newid i'w hysbysu ym musnes arfaethedig yr wythnos hon, sef lleihau'r amser a ddyrennir ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

William Graham: I thank the Leader of the House for her statement. I ask her to ask the Minister for Local Government and Communities to make a statement supporting the South East Wales Transport Alliance's proposals for increased cross-border rail services to be an integral part of the franchise to be introduced next year—particularly the linking of the enterprise zones to be established in Ebbw Vale and Bristol, and an increase in rolling stock capacity, because passenger demand on a large number of services between south Wales and England has exceeded all rail industry forecasts.

William Graham: Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad. Gofynnaf iddi ofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wneud datganiad i gefnogi cynigion Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ar gyfer mwy o wasanaethau rheilffyrdd trawsffiniol i fod yn rhan annatod o'r fasnachfaint a gyflwynir y flwyddyn nesaf—yn enwedig cysylltu'r ardaloedd menter a gaiff eu sefydlu yng Nglynebwy a Bryste, a chynnydd yng nghapasiti'r cerbydau, oherwydd bod y galw gan deithwyr ar nifer fawr o wasanaethau rhwng de Cymru a Lloegr wedi codi y tu hwnt i holl ragolygon y diwydiant rheilffyrdd.

Jane Hutt: I thank William Graham for that question. Clearly, the Minister for local government is working closely with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science on these infrastructure issues.

Jane Hutt: Diolch i William Graham am y cwestiwn hwnnw. Mae'n amlwg bod y Gweinidog Llywodraeth leol yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar y materion seilwaith hyn.

Rebecca Evans: Minister, last week a cross-party parliamentary report was published showing how many children and young people are accessing online pornography and websites showing extreme violence. The report found that it is having a serious impact on the children and young people's development, from diminishing their sympathy for victims of sexual assault to reducing their inhibitions and making them more vulnerable to abuse or exploitation. I therefore ask for a statement on how the Welsh Government is responding to this issue, and in particular what services and support are available for the growing number of children and young people who are addicted to internet pornography. How is the Welsh Government ensuring that parents have the knowledge and skills that they need to take responsibility for ensuring that their children are only ever exposed to age-appropriate content online? This is one of the most serious and pressing public health issues affecting children and young people, and it is therefore vital that the Welsh Government makes a positive and robust response.

Jane Hutt: I thank Rebecca Evans for that important question, drawing on the cross-party parliamentary report published recently. It is important to recognise that the Welsh Government is part of the Wales Internet Safety Partnership, which aims to promote digital literacy for children and young people in Wales, promoting an understanding of the use of the internet among young people, as well as among parents and carers. It is also important to recognise that our officials have written to all local safeguarding children boards to make them aware of recent advice on child internet safety compiled by members of the UK Council for Internet Safety.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, gofynnais i chi cyn y toriad pryd y byddech mewn sefyllfa i roi datganiad llawn inni ynglŷn â'r ymchwiliadau i mewn i Gymdeithas Cymru Gyfan ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig, AWEMA. A ydych bellach mewn sefyllfa i ddweud wrthym pryd y gallwch wneud y datganiad hwnnw yn y Cynulliad? Mae

Rebecca Evans: Weinidog, yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd adroddiad seneddol trawsbleidiol yn dangos faint o blant a phobl ifanc sy'n cael mynediad at bornograffi ar-lein a gwefannau sy'n dangos trais eithafol. Canfu'r adroddiad fod hyn yn cael effaith ddifrifol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc, o ran lleihau eu cydymdeimlad â dioddefwyr ymosodiadau rhywiol a lleihau eu swildod a'u gwneud yn fwy agored i gael eu camdrin. Felly, gofynnaf am ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r mater hwn ac, yn arbennig, pa wasanaethau a chymorth sydd ar gael ar gyfer y nifer gynyddol o blant a phobl ifanc sy'n gaeth i bornograffi ar y rhynggrwyd. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rhieni yn cael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond cynnwys sy'n briodol i'w hoedran y gall eu plant edrych arno? Mae hwn yn un o'r materion iechyd cyhoeddus mwyaf difrifol a dwys sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, felly mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gadarn.

Jane Hutt: Diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn pwysig hwnnw, gan gyfeirio at yr adroddiad seneddol trawsbleidiol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'n bwysig cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn rhan o Bartneriaeth Diogelwch Rhynggrwyd Cymru, sy'n anelu at hyrwyddo llythrennedd digidol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan hyrwyddo dealltwriaeth o ddefnyddio'r rhynggrwyd ymhlith pobl ifanc, yn ogystal ag ymysg rhieni a gofalwyr. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod ein swyddogion wedi ysgrifennu at bob bwrdd lleol diogelu plant i'w gwneud yn ymwybodol o gyngor diweddar ynghylch diogelwch plant ar y rhynggrwyd, a gafodd ei lunio gan aelodau o Gyngor y DU ar gyfer Diogelwch ar y Rhynggrwyd.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, I asked you before recess when you would be in a position to give us a full statement regarding the investigations into the All Wales Ethnic Minority Association, AWEMA. Are you now in a position to tell us when you will be able to make that statement in the Assembly? Many months have gone by and we still do

misoedd lawer wedi mynd heibio ac nid ydym yn gwybod o hyd pryd bydd yr ymchwiliad yn dod i ben a pryd bydd cyhoeddiad terfynol ar y mater hwn.

Jane Hutt: This is an important point in terms of the outcome of the Wales Audit Office review, which has commenced. A report will be delivered by the WAO to the Public Accounts Committee, and I understand that it is now making contact with key individuals to whom it wants to speak in terms of taking that forward to that conclusion. I can also inform Members that the Welsh European Funding Office is continuing to work with joint sponsors to put alternative arrangements in place to secure the ongoing delivery of current and future project activity.

Kirsty Williams: Minister, although the Welsh Assembly Government has no formal duties with regard to overseas development, there has been cross-party consensus about the success of the Wales for Africa programme that is supported by the Welsh Government. That programme has supported constituents of mine in Hay-on-Wye in their efforts to develop health and education projects in the city of Timbuktu in Mali. The Minister will be aware that northern Mali in particular is subject to insurrection, and the civilian population of Timbuktu is caught in the crossfire between the Tuareg insurrection, Government forces and the Ansar Dine movement that has connections to al-Qaeda. Earlier this month it is believed that Ansar Dine invaded Timbuktu, and has imposed sharia law, with women being told that they must veil themselves and adulterers being stoned in the street, and with the punitive mutilation of thieves.

2.30 p.m.

This has sent the majority population of Christians fleeing into the desert. Will the Welsh Government issue a written statement on its continued support for overseas projects supported by the Wales for Africa programme, confirming that we will not turn our backs on the people of northern Mali and the historic city of Timbuktu, and stating that we applaud the efforts of people in Wales to support this community during these most

not know when the investigation will be completed and when there will be a final announcement on this issue.

Jane Hutt: Mae hwn yn bwynt pwysig o ran canlyniad yr adolygiad sydd wedi dechrau gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac rwy'n deall ei fod yn awr yn cysylltu ag unigolion allweddol y mae am siarad â hwy o ran bwrw ymlaen a dod â hynny i ben. Gallaf hefyd hysbysu'r Aelodau fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn parhau i weithio gyda chyd-noddwyr i wneud trefniadau amgen i sicrhau y caiff gweithgarwch y prosiect ei gyflawni yn awr ac yn y dyfodol.

Kirsty Williams: Weinidog, er nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddyletswyddau ffurfiol o ran datblygu dramor, cafwyd consensws trawsbleidiol ynghylch llwyddiant y rhaglen Cymru o Blaid Affrica, a gaiff ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen honno wedi cefnogi etholwyr i mi yn y Gelli Gandryll yn eu hymdrechion i ddatblygu prosiectau iechyd ac addysg yn ninas Timbuktu yn Mali. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod gwrthryfel yng ngogledd Mali yn arbennig, a bod poblogaeth sifil Timbuktu wedi'i dal yn y terfysg rhwng gwrthryfel Tuareg, lluoedd y Llywodraeth a'r mudiad Ansar Dine sydd â chysylltiadau ag al-Qaeda. Yn gynharach y mis hwn credir i Ansar Dine ymosod ar Timbuktu, ac wedi cyflwyno cyfraith sharia, gyda menywod yn cael eu gorfodi i wisgo fêl, godinebwyr yn cael eu llabyddio yn y stryd, a lladron yn cael eu cosbi drwy gael eu hanffurfio.

Yn sgil y sefyllfa hon, mae'r Cristnogion, sef mwyafrif y boblogaeth, wedi ffoi i'r anialwch. A fydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i chefnogaeth barhaus i brosiectau tramor a gefnogir gan y rhaglen Cymru o Blaid Affrica—datganiad a fydd yn cadarnhau na fyddwn yn troi ein cefnau ar bobl gogledd Mali a dinas hanesyddol Timbuktu, ac ein bod yn cymeradwyo ymdrechion pobl yng

difficult of times?

Jane Hutt: It is very important that the leader of the Welsh Liberal Democrats and the Member for Brecon and Radnorshire should draw this to our attention here in the Assembly, recognising the close and supportive links between the people of Hay-on-Wye and the people and communities in Timbuktu, bringing us information about the impact that we do not always see reflected in news headlines. I assure Kirsty Williams that commitments to the Wales for Africa programme are sound and strong, as led by the First Minister.

Darren Millar: Can we have a joint statement from the Minister for Local Government and Communities and the Minister for Environment and Sustainable Development on the recent shipping incident involving the MV Carrier in my constituency off the coast of Llanddulas? There was significant disruption to the transport network, and I was grateful to the Minister for calling me the day after the event to give an update on the situation. However, there are concerns about the environmental impact, the continued impact on the transport network and the coastal path, and the impact on tourism in north Wales. Therefore, can we have a joint statement in the near future on that incident?

I also ask for a statement from the Minister for Health and Social Services on spiritual care in the NHS. There were reports on the BBC over the Easter period of the National Secular Society in Wales calling for the withdrawal of NHS funding for hospital chaplaincy services. I was pleased to see in those reports that the Minister affirmed her commitment to NHS-funded chaplaincy. Can she make a statement on that to reassure Members of the Assembly and members of the public that spiritual care is important to the Welsh Government?

Nghymru i gefnogi'r gymuned hon yn ystod y cyfnod anodd hwn?

Jane Hutt: Mae'n bwysig iawn bod arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed wedi tynnu sylw'r Cynulliad at y mater hwn, gan gydnabod y cysylltiadau agos a chefnogol sy'n bodoli rhwng pobl y Gelli Gandryll a phobl a chymunedau Timbuktu, gan ddod â gwybodaeth inni am yr effeithiau hynny nad ydynt bob amser yn cael eu hadlewyrchu ym mhenawdau'r newyddion. Gallaf sicrhau Kirsty Williams bod yr ymrwymadau a wnaed i'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn gadarn a chryf, fel y gwelir o dan arweiniad y Prif Weinidog.

Darren Millar: A oes modd inni gael datganiad ar y cyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y digwyddiad diweddar a oedd yn ymwneud â llong yr MV Carrier yn fy etholaeth i oddi ar arfordir Llanddulas? Cafodd y rhwydwaith trafndiaeth ei amharu'n sylweddol, ac roeddwn yn ddiolchgar i'r Gweinidog am roi galwad imi drannoeth y digwyddiad i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa. Fodd bynnag, mae pryderon am effaith y digwyddiad ar yr amgylchedd, yr effaith barhaus ar y rhwydwaith trafndiaeth ac ar lwybr yr arfordir, a'r effaith ar dwristiaeth yng ngogledd Cymru. Felly, a oes modd cael datganiad ar y cyd yn y dyfodol agos ar y digwyddiad hwnnw?

Gofynnaf hefyd am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ofal ysbrydol yn y GIG. Cafwyd adroddiadau ar y BBC dros gyfnod y Pasg ynghylch y ffaith bod Cymdeithas Seciwlar Cenedlaethol Cymru yn galw ar y GIG i roi'r gorau i ariannu gwasanaethau caplaniaeth mewn ysbytai. Roeddwn yn falch o weld y Gweinidog yn cadarnhau yn yr adroddiadau hynny ei hymrwymiad i wasanaethau caplaniaeth a ariennir gan y GIG. A fyddai modd iddi wneud datganiad ar y mater hwn er mwyn tawelu meddyliau Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd ynghylch y ffaith bod gofal ysbrydol yn bwysig i Lywodraeth Cymru?

Thirdly, I call for a statement from the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science on the recent UK Government announcement that it intends to change the VAT arrangements for static holiday caravans. That is of great concern to many in my constituency, given the number of caravans on the north Wales coast, and I have received many representations from businesses and employees involved in that industry. I would be interested to know exactly what representations have been made by the Welsh Government so far to the UK Government on that issue.

Jane Hutt: You asked for three statements, Darren Millar, and the first one is cross-governmental. I know you welcome the fact that the Minister for transport intervened and contacted you on the occasion of that extremely worrying incident. It is also a matter for the Minister for environment, and I will ensure that they follow that up in respect of any joint action or report on developments.

Your second point was on chaplaincy services in the NHS, and that issue came up at a meeting of the inter-faith forum council, which the First Minister chairs. There was a clear recognition of the important role of hospital chaplaincy services, recognising the service as a good investment within a hospital context, as Lesley Griffiths has already stated.

We are all glad to hear of your concerns, as we are angry, as has already been raised today, about the imposition of VAT on static holiday caravans. The issue has been raised by Members across the Chamber, and the First Minister has said that he will write to the Chancellor about it. I hope that the Welsh Conservatives will show clearly their concerns and rejection of one of the many unpopular and unnecessary taxes that came through in the budget.

Julie Morgan: Following on from what you

Yn drydydd, galwaf am ddatganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyhoeddiad a wnaed yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU, sef ei bod yn bwriadu newid trefniadau treth ar werth ar gyfer carafanau gwyliau sefydlog. Mae'r mater hwn yn peri pryder mawr i lawer o bobl yn fy etholaeth i, o ystyried nifer y carafanau sydd wedi'u lleoli ar arfordir gogledd Cymru. Rwyf wedi cael nifer o sylwadau gan fusnesau a gweithwyr sy'n gysylltiedig â'r diwydiant hwnnw. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed yn union pa sylwadau a wnaed hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU ar y mater hwn.

Jane Hutt: Gofynasoch am dri datganiad, Darren Millar, ac mae'r un cyntaf yn ymwneud â phwnc traws-lywodraethol. Rwy'n gwybod eich bod yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog trafndiaeth wedi ymyrryd ac wedi cysylltu â chi yn sgil y digwyddiad hwn, a oedd yn destun pryder mawr. Mae hefyd yn fater i Weindog yr amgylchedd, a byddaf yn sicrhau bod y Gweinidogion hyn yn cymryd camau dilynol o ran unrhyw weithredu ar y cyd neu adrodd ar ddatblygiadau.

Roedd eich ail bwynt yn ymwneud â gwasanaethau caplaniaeth yn y GIG. Cododd y mater hwn mewn cyfarfod o'r fforwm aml-ffydd, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog. Roedd cydnabyddiaeth glir o'r rôl bwysig y mae gwasanaethau caplaniaeth yn eu cyflawni mewn ysbytai, a chydabyddiaeth bod y gwasanaeth yn fuddsoddiad da yng nghyd-destun ysbytai, fel y mae Lesley Griffiths wedi datgan eisoes.

Mae pawb yn falch o glywed am eich pryderon ynghylch gosod treth ar werth ar garafanau gwyliau sefydlog, gan ein bod ninnau'n ddig hefyd, fel y gwelwyd eisoes heddiw. Codwyd y mater hwn gan Aelodau ar draws y Siambr, ac mae'r Prif Weinidog wedi dweud y bydd yn ysgrifennu at y Canghellor yn ei gylch. Gobeithiaf y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn dangos eu pryderon yn glir ac yn gwrthod un o'r nifer o drethi amhoblogaidd a diangen a gyflwynwyd yn y gyllideb.

Julie Morgan: Yn dilyn ymlaen o'r hyn

have just said, Minister, it becomes clearer day by day that the disastrous UK budget will have far-reaching implications for Wales. Can we have a debate on the cumulative effect of all these taxes? They have been mentioned already in questions to the First Minister: the charity tax, the pasty tax, the granny tax and now the proposed caravan tax, which has been raised by Members across the parties? Could we have a debate on the cumulative effect of all these changes?

Jane Hutt: I thank Julie Morgan for her contribution, which reiterates concerns that have been raised this afternoon. The Chancellor in his budget dealt a blow to pensioners, bakers, snack shops, charities and the caravan holiday business, which is of cross-party concern in the Chamber. If you want to see how this unpopular budget is bearing fruit, you will see it in the polls today. The Chancellor also announced a cut in the top rate of income tax for people earning more than £150,000 a year. There is no justification for prioritising the interests of the very rich over those who are affected by these taxes. I am sure that there will be many opportunities to reflect our concerns in both Government and non-Government debates and business in the Chamber.

Simon Thomas: Arweinydd y Tŷ, a oes bwriad gan y Llywodraeth i ddod â deddfwriaeth newydd gerbron parthed cŵn peryglus? Dyma'r adeg yn y calendr etholiadol pan fydd gan bawb ohonom reswm i gofio ambell gi ac ambell esiampl o ymddygiad cŵn. Yn bwysicach, mae'r Llywodraeth yn Lloegr yn bwrw ymlaen â'r cynnig i osod microsglodion ar bob ci ac i newid y rheolau o ran y mathau o gŵn sydd wedi'u gwahardd o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yn ymgynghori ynghylch y cynnig i osod microsglodion, ond nid oes datganiad wedi bod gan y Llywodraeth ynghylch ei bwriad i ddeddfu'n ehangach yn y maes. Dyma gyfle i wneud rhywbeth sy'n addas i sefyllfa Cymru ac i sicrhau mai ymddygiad cŵn peryglus sy'n cael ei reoli yn hytrach na'r math o gi. Oes modd i'r

rydych newydd ei ddweud, Weinidog, mae'n dod yn fwy amlwg o ddydd i ddydd y bydd gan gyllideb drychinebus y DU oblygiadau pellgyrhaeddol i Gymru. A fyddai modd inni gael dadl ar effaith gronnus yr holl drethi hyn? Cawsant eu crybwyll eisoes, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog: y dreth elusen, y dreth ar basteiod, y dreth ar neiniau ac yn awr y dreth arfaethedig ar garafanau, sy'n fater y mae Aelodau ar draws y pleidiau wedi'i godi? A fyddai modd inni gael dadl ar effaith gronnus yr holl newidiadau hyn?

Jane Hutt: Diolch i Julie Morgan am ei chyfraniad, sy'n ailadroddod pryderon a godwyd eisoes y prynhawn yma. Yn ei gyllideb, rhoddodd y Canghellor ergyd i bensynwyr, pobyddion, siopau byrbryd, elusennau a'r busnes gwyliau carafán, ac mae hwn yn fater o bryder trawsbleidiol yn y Siambr. Os ydych am weld sut mae'r gyllideb amhoblogaidd hon yn dwyn ffrwyth, gallwch weld hynny yn y polau heddiw. Yn ogystal, cyhoeddodd y Canghellor doriad yn y gyfradd uchaf o dreth incwm i bobl sy'n ennill mwy na £150,000 y flwyddyn. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros flaenoriaethu buddiannau'r cyfoethog iawn uwchlaw lles y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y trethi hyn. Rwyf yn sicr y bydd llawer o gyfleoedd i fynegi ein pryderon mewn dadleuon a gynhelir yn y Siambr fel rhan o fusnes y Llywodraeth ac fel rhan o fusnes nad yw'n fusnes y Llywodraeth.

Simon Thomas: Leader of the House, does the Government have any intention of introducing new legislation relating to dangerous dogs? This is a time in the electoral calendar when we all have reason to call to mind certain dogs or individual examples of the behaviour of certain dogs. More importantly, the Government in England is going ahead with a proposal to fit every dog with a microchip and to change the rules about the types of dog that are banned under the Dangerous Dogs Act 1991. The Minister has said that he will consult on the proposal to fit microchips, but there has been no statement from the Government on any intention to legislate more widely in respect of the matter. There is an opportunity here to do something that befits the situation in Wales and to ensure that it is the behaviour of dangerous dogs that is controlled rather than

Llywodraeth hon, neu a yw'n fwriad ganddi fwrw ymlaen â'r math honno o ddeddfwriaeth?

Jane Hutt: I am grateful to Simon Thomas for that question. Julie Morgan raised this issue in her short debate in the last session before recess, and I believe that she is having a meeting later this week in relation to that key issue. I assure the Member that we are currently developing legislation for dog microchipping and we will be issuing the consultation next month.

Andrew R.T. Davies: Leader of the House, is it possible to have a statement from the First Minister on the report that he commissioned from the Food Standards Agency into food hygiene, outlining any deficits that the Food Standards Agency found or improvements that it believes need to be undertaken here in Wales? I understand from Consumer Focus, which published a report some four weeks ago, that the Food Standards Agency report has been with the First Minister since 14 December. I suggest that the Government has now had reasonable time to consider that report, and so can we have confirmation that it will be bringing forward a statement so that Members can scrutinise the findings of that report?

Jane Hutt: I can assure the leader of the opposition that the Food Standards Agency has, as he said, completed its review of food hygiene enforcement, and it has also undertaken further work commissioned by the First Minister. Our Food Hygiene Rating (Wales) Bill aims to build on the significant improvements made so far and will make it mandatory for all food outlets to display their rating for food hygiene standards. Clearly, we will publish that work in due course.

Nick Ramsay: Before the Easter recess, I asked whether we could have a statement by the Minister for Health and Social Services or a debate on the ambulance service in Wales, following particular problems with response times in my constituency and in south-east

the type or breed of dog. Is there any way for this Government, or does it intend, to progress that kind of legislation?

Jane Hutt: Rwyf yn ddiolchgar i Simon Thomas am y cwestiwn hwnnw. Cododd Julie Morgan y mater hwn yn ei dadl fer, a gynhaliwyd yn ystod y sesiwn olaf cyn y toriad, a chredaf ei bod yn cael cyfarfod yn ddiweddarach yr wythnos hon mewn perthynas â'r mater allweddol hwnnw. Sicrhaf yr Aelod ein bod wrthi'n datblygu deddfwriaeth ar gyfer cyflwyno system o ficrosglodion i gŵn, a byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad fis nesaf.

Andrew R.T. Davies: Arweinydd y Tŷ, a fyddai modd cael datganiad gan y Prif Weinidog ar yr adroddiad a gomisiynwyd ganddo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar hylendid bwyd, sef adroddiad sy'n amlinellu unrhyw ddiffygion y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'u canfod neu welliannau sydd angen eu gwneud yng Nghymru? Cyhoeddodd Llais Defnyddwyr adroddiad rhyw bedair wythnos yn ôl, a deallaf fod y Prif Weinidog wedi cael adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ers 14 Rhagfyr. Awgrymaf fod y Llywodraeth wedi cael cyfnod rhesymol o amser i ystyried yr adroddiad hwnnw. Felly, a fyddai modd inni gael cadarnhad y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno datganiad, fel y gall Aelodau gael cyfle i graffu ar ganfyddiadau'r adroddiad?

Jane Hutt: Gallaf sicrhau arweinydd yr wrthblaid bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd, fel y dywedodd, wedi cwblhau ei adolygiad o waith gorfodi hylendid bwyd, ac mae'r asiantaeth hefyd wedi cynnal rhagor o waith a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog. Bydd ein Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn ceisio adeiladu ar y gwelliannau sylweddol a wnaed hyd yn hyn, a bydd yn ceisio ei gwneud yn orfodol i bob allfa fwyd arddangos ei sgôr ar gyfer safonau hylendid bwyd. Yn amlwg, byddwn yn cyhoeddi'r gwaith hwnnw maes o law.

Nick Ramsay: Cyn toriad y Pasg, gofynnais a fyddai modd inni gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol neu ddadl ar y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru, yn dilyn problemau penodol gydag amseroedd ymateb

Wales in general. Could we have an update on any progress made on bringing that discussion to the floor of the Chamber, as I am sure that it affects many Assembly Members? I recently visited the ambulance headquarters in my area, and I was impressed by a lot of the technological improvements that are being made there, but that case is not always being made. It would, therefore, be helpful to my constituents if Members could air their concerns about the service. The ambulance service itself would also be better able to get its message across, and we could also hear from the Minister what support is being given to get those improvements to ambulance services that people in Wales really want.

Jane Hutt: We note today that, on a number of occasions, Nick Ramsay has demonstrated how positive he is about Welsh Government policies and the provision of important services such as the ambulance service. Clearly, his visit enabled him to see the pressures facing the ambulance service as well as the progress made by that service. Any issues relating to his constituency will have to be addressed on an operational level, but reports come through with the monthly statistics, and the Minister's attention to that is very clear.

yn fy etholaeth i ac yn ne-ddwyrain Cymru yn gyffredinol. A fyddai modd inni gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd a wnaed ynghylch dod â'r drafodaeth honno i lawr y Siambr, gan fy mod yn sicr ei fod yn effeithio ar lawer o Aelodau'r Cynulliad? Yn ddiweddar, ymwelais â'r pencadlys ambiwlans yn fy ardal, a wnaeth argraff dda arnaf oherwydd nifer o'r gwelliannau technolegol sy'n cael eu gweithredu yno. Serch hynny, nid yw'r achos hwnnw bob amser yn cael ei wneud. Byddai o gymorth i fy etholwyr, felly, pe gallai Aelodau leisio eu pryderon am y gwasanaeth. Yn ogystal, byddai'r gwasanaeth ambiwlans mewn sefyllfa well i ledaenu ei neges, a gallem glywed hefyd gan y Gweinidog am ba gefnogaeth sy'n cael ei darparu i sicrhau bod y gwelliannau y mae pobl Cymru am eu gweld mewn perthynas â gwasanaethau ambiwlans yn cael eu gweithredu.

Jane Hutt: Nodwn heddiw fod Nick Ramsay, ar nifer o achlysuron, wedi dweud pethau cadarnhaol am bolisiau Llywodraeth Cymru ac am ddarpariaeth gwasanaethau pwysig fel y gwasanaeth ambiwlans. Yn amlwg, rhoddodd ei ymweliad gyfle iddo weld y pwysau sy'n wynebu'r gwasanaeth ambiwlans, yn ogystal â'r cynnydd a wnaed gan y gwasanaeth hwnnw. Bydd yn rhaid mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'i etholaeth ar lefel weithredol, ond mae adroddiadau sy'n cynnwys ystadegau misol yn cael eu cyhoeddi, ac mae'r sylw y mae'r Gweinidog yn ei roi i'r adroddiadau hynny yn glir iawn.

Datganiad: Ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at Ymgysylltiad Cyflogwyr â Sgiliau

Statement: The Welsh Government's Approach to Employer Engagement on Skills

The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert): Today, I wish to set out my priorities and approach to working with employers on skills in Wales. I do so in the context of divergence between how we in Wales see the role of Government working with employers on skills, and approaches in England. The UK Commission for Employment and Skills, operating on behalf of the English Department for Business, Innovation and Skills, has recently issued a

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert): Heddiw, hoffwn nodi fy mlaenoriaethau a fy null gweithredu o ran gweithio gyda chyflogwyr ar sgiliau yng Nghymru. Gwnaf hynny yng nghyd-destun gwahaniaethu rhwng sut yr ydym ni yng Nghymru yn gweld rôl y Llywodraeth o ran gweithio gyda chyflogwyr ar sgiliau, a'r dulliau sy'n bodoli yn Lloegr. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, sy'n gweithredu ar ran

prospectus inviting greater employer ownership of the skills agenda in England. I am confident that, through our range of flexible and responsive programmes to support skills, the Welsh Government is demonstrating how success on skills comes when Government, rather than stepping back, steps up with employers and other social partners to tackle shared goals for skills, growth and jobs.

My confidence in the Welsh approach arises from the genuine partnership established with employers and social partners in Wales. This approach is delivering, and is building a track record of successes on skills that will continue to be instrumental in setting a strong foundation for sustainable growth and jobs. I see a common purpose in working with employers and workplace representatives to raise skills levels and support growth. This is not a new idea in Wales. Our flexible offer to employers has been developed over nine years with employers under the banner of the workforce development programme. Furthermore, because we have listened and continue to engage and respond, I am confident that the Welsh offer to employers continues to lead the way.

I have four key priorities for Welsh Government investment in skills, and it is in the context of those four priorities that I want to position our approach to employer engagement on skills. First, but in no particular order, is the priority of enabling young people to achieve their full potential through the development of skills, qualities and qualifications. Evidence of real progress here comes from, for example, the dramatic improvements in apprenticeship completion rates—up from 54% in 2006-07 to 80% in 2009-10. My second priority is encouraging investment in skills as a driver of productivity and growth. Work here includes using Skills Growth Wales funding to work alongside 200 companies with credible growth plans. Anchor and regionally important companies, together with businesses in priority sectors, will be targeted to generate economic growth. My third

yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn Lloegr, brosbectws yn gwahodd lefelau uwch o berchnogaeth ar yr agenda sgiliau yn Lloegr ymhlith cyflogwyr. Rwyf yn hyderus y bydd Llywodraeth Cymru, drwy ein hamrywiaeth o raglenni hyblyg ac ymatebol ar gefnogi sgiliau, yn dangos sut y mae llwyddiant mewn perthynas â sgiliau'n cael ei wireddu pan fydd Llywodraeth, yn hytrach na chamu yn ôl, yn camu ymlaen gyda chyflogwyr a phartneriaid cymdeithasol eraill er mwyn mynd i'r afael ag amcanion cyffredin ar gyfer sgiliau, twf a swyddi.

Mae fy hyder yn y dull Cymreig yn deillio o'r gwir bartneriaeth a sefydlwyd gyda chyflogwyr a phartneriaid cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn llwyddo, ac yn adeiladu ar hanes o lwyddiant ar sgiliau a fydd yn parhau i fod yn allweddol wrth osod sylfaen gref ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy. Gwelaf bwrpas cyffredin o weithio gyda chyflogwyr a chynrychiolwyr y gweithle i godi lefelau sgiliau a chefnogi twf. Nid yw'r syniad hwn yn un newydd yng Nghymru. Cafodd ein cynnig hyblyg i gyflogwyr ei ddatblygu dros naw mlynedd gyda chyflogwyr, a hynny o dan faner rhaglen datblygu'r gweithlu. Ar ben hynny, gan ein bod wedi gwrandao, ac yn parhau i ymgysylltu ac ymateb, rwyf yn hyderus bod cynnig Cymru i gyflogwyr yn parhau i arwain y ffordd.

Mae gen i bedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer buddsoddi gan Lywodraeth Cymru mewn sgiliau, ac rwyf am osod ein dull o ymgysylltu â chyflogwyr ar sgiliau yng nghyd-destun y pedair blaenoriaeth honno. Y flaenoriaeth gyntaf—er nad ydynt mewn unrhyw drefn benodol—yw galluogi pobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial drwy ddatblygu sgiliau, safonau a chymwysterau. Gwelir tystiolaeth o gynnydd gwirioneddol yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, yn y gwelliant dramatig a welwyd yng nghyfradd y bobl sy'n cwblhau eu prentisiaeth—o 54% yn 2006-07 i 80% yn 2009-10. Fy ail flaenoriaeth yw annog buddsoddi mewn sgiliau fel modd o sbarduno cynhyrchiant a thwf. Mae'r gwaith a welir yn y cyd-destun hwn yn cynnwys defnyddio cyllid Sgiliau Twf Cymru i weithio ochr yn ochr â 200 o gwmnïau sydd â chynlluniau twf credadwy. Bydd cwmnïau angor a chwmnïau

priority is supporting routes to sustainable jobs for the disadvantaged and unemployed. Effective partnership with employers is again critical as we press forward with the national roll-out of Jobs Growth Wales. My fourth priority is ensuring that the learning infrastructure has the capacity to deliver skills and training for a modern bilingual nation. For example, the ongoing review of qualifications 14-19 will help us to ensure that we are focusing on the delivery of qualifications and learning pathways at age 14 to 19 that are valued and have credibility with employers. I have shared an overview of these priorities and the main areas of work related to each with Members, and I trust that that helps to place my words today into context. Employer engagement is one common thread working across these priorities and has a key role to play in each.

rhanbarthol pwysig yn cael eu targedu ar gyfer creu twf economaidd, ynghyd â busnesau mewn sectorau blaenoriaeth. Fy nhyrdedd flaenoriaeth yw cefnogi llwybrau i swyddi cynaliadwy ar gyfer rhai sydd o dan anfantais ac sy'n ddi-waith. Mae cynnal partneriaeth effeithiol gyda chyflogwyr yn hanfodol unwaith eto wrth inni fwrw ymlaen â'r broses o gyflwyno Twf Swyddi Cymru ar lefel genedlaethol. Fy mhedwaredd flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y seilwaith dysgu y capasiti i ddarparu sgiliau a hyfforddiant ar gyfer cenedl ddwyieithog fodern. Er enghraifft, bydd yr adolygiad parhaus o gymwysterau 14-19 yn ein helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar gyflwyno cymwysterau a llwybrau dysgu yn y cyfnod oedran 14 i 19 sy'n cael eu gwerthfawrogi, a bod ganddynt hygrdedd ymhlith cyflogwyr. Rwyf wedi rhannu trosolwg o'r blaenoriaethau hyn a'r prif feysydd gwaith sy'n gysylltiedig â phob un ohonynt gydag Aelodau, a hyderaf fod hyn o gymorth o ran rhoi fy ngeiriau heddiw mewn cyd-destun. Mae ymgysylltiad cyflogwyr yn elfen gyffredin o'r blaenoriaethau hyn, ac mae ganddo rôl allweddol i'w chwarae ym mhob un ohonynt.

I will now say a few words on the benefits that we see arising from this engagement, starting with the value that it brings to our sector-based approaches. Listening to, and working with, employers on a sector basis, we have established the Pathways to Apprenticeship programme to help to prepare young people for work as an apprentice.

Yn awr, byddaf yn dweud ychydig eiriau ar y manteision a welwn yn deillio o'r ymgysylltu hwn, gan ddechrau gyda'r gwerth y mae'n ei roi i'n dulliau sy'n seiliedig ar sectorau. Wrth wrando ar gyflogwyr ar sail sector, ac wrth weithio gyda hwy, rydym wedi sefydlu'r rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer gwaith fel prentis.

2.45 p.m.

We are also using our sector priorities fund pilot programme to support innovative projects with employers and providers, designed to address sector needs, such as those identified through the nine priority sector panels and by sector skills councils in Wales.

Rydym hefyd yn defnyddio ein rhaglen beilot cronfa blaenoriaethau'r sector i gefnogi prosiectau arloesol gyda chyflogwyr a darparwyr, a'r nod yw mynd i'r afael ag anghenion y sector, fel y rhai a nodwyd drwy'r naw panel sector â blaenoriaeth a chan gynghorau sgiliau sector yng Nghymru.

I am looking to sector skills councils to be actively engaged with employers in Wales to make sure that the national occupational standards remain relevant, and in order to ensure that the content of apprenticeship frameworks reflects evolving employer needs. Sector approaches are important, but

Yr wyf yn disgwyl i'r cynghorau sgiliau sector fynd ati i ymgysylltu â chyflogwyr yng Nghymru i sicrhau bod y safonau galwedigaethol cenedlaethol yn dal yn berthnasol, ac er mwyn sicrhau bod cynnwys fframweithiau prentisiaeth yn adlewyrchu anghenion cyflogwyr wrth iddynt ddatblygu.

central to our approach in Wales is engaging with employers on a one-to-one basis, working to understand their needs and providing a credible response.

A second benefit involves pursuing the shared goal of jobs and growth. New jobs rely on growth, and that is why I am using the £45 million Skills Growth Wales programme to intensively work with anchor and regionally important companies and employers in priority sectors to help them overcome skills barriers and release new growth potential.

I am committed to targeting our investment and working with employers who are willing to help us achieve our broader goals, particularly opening up opportunities for those trying to enter the job market through apprenticeships or as a result of the experience and training offered through Jobs Growth Wales, traineeships and the Steps to Employment programme.

Employer engagement has been instrumental in recent years in challenging and helping shape our offer. I want employers to feel confident that their views are taken seriously and feature fully in debates on future policy. Receiving this input and challenge is the third benefit we seek through employer engagement. In this context I am delighted that Mr Scott Waddington, chief executive of Brains here in Cardiff, has now been appointed as the new Wales commissioner at the UK Commission for Employment and Skills, taking over from Sir Adrian Webb, who I thank for his contribution in that role during the past three years. Mr Waddington is also now a member of the newly reformed Wales Employment and Skills Board. The revised membership now centres on employers and employer and workplace representative organisations in Wales. I now chair the board, reflecting my commitment to ensuring regular and frank dialogue with employers.

Skills and the need to support employment and growth in the economy are a central

Mae ymagwedd y sectorau'n bwysig, ond elfen ganolog ein hymagwedd yng Nghymru yw ymgysylltu â chyflogwyr yn unigol, gan weithio i ddeall eu hanghenion a darparu ymateb credadwy.

Mae'r ail fantais yn golygu mynd ar drywydd y nod cyffredin, sef swyddi a thwf. Mae swyddi newydd yn dibynnu ar dwf, a dyna pam yr wyf yn defnyddio'r rhaglen Sgiliau Twf Cymru i weithio'n ddwys â chwmnïau angori a chwmnïau o bwys rhanbarthol a chyflogwyr mewn sectorau â blaenoriaeth er mwyn eu helpu i oresgyn rhwystrau i sgiliau a rhyddhau potensial twf newydd.

Rwyf wedi ymrwymo i dargedu ein buddsoddiad a gweithio gyda chyflogwyr sy'n barod i'n helpu i gyflawni ein nodau ehangach, yn enwedig agor cyfleoedd i'r rhai sy'n ceisio cael mynediad i'r farchnad swyddi drwy brentisiaethau neu o ganlyniad i'r profiad a'r hyfforddiant a gynigir drwy Twf Swyddi Cymru, hyfforddiaethau a'r rhaglen Camau at Waith.

galwedigaethol a hyfforddiant llawer i'w gynnig lle maent yn iawn i'r person ifanc hwnnw, ac mae angen i ni wneud mwy ar y cyd gyda chyflogwyr a'r cyfryngau, sy'n hollbwysig, i godi proffil gwerth cyrsiau galwedigaethol.

In terms of employer engagement, I would say that, yes, it is always under review. Nothing is going to be set in tablets of stone. Even the qualifications review, as part of its work, will have to build in a future-proofing system so that the types of qualifications that we offer can be kept under review as technologies and working practices change. That is a given.

O ran ymgysylltu â chyflogwyr, byddwn yn dweud bod hynny yn cael ei adolygu yn gyson. Ni fydd dim yn cael ei osod ar lech carreg. Bydd yn rhaid i'r adolygiad o'r cymwysterau, hyd yn oed, fel rhan o'i waith, gynnwys prawfesur ar gyfer y dyfodol fel y gall y mathau o gymwysterau a gynigiwn gael eu hadolygu wrth i dechnolegau ac arferion gweithio newid. Does dim amheuaeth am hynny.

On the Federation of Small Businesses, yes, I do meet with it and it is a member of the Wales Employment and Skills Board. It could not attend the first meeting, unfortunately, but I look forward to its attendance at future meetings and to it informing us of what its members need.

O ran Ffederasiwn y Busnesau Bach, ydw, rwy'n cwrdd ag ef ac mae'n aelod o Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru. Nid oedd wedi gallu dod i'r cyfarfod cyntaf, yn anffodus, ond rwy'n edrych ymlaen at weld y ffederasiwn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ac at y ffaith y bydd yn rhoi gwybod inni beth yw anghenion ei aelodau.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.15 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.15 p.m.*

Datganiad: Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Strategaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru

Statement: The Welsh Government Equality Objectives and Strategic Equality Plan

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): On 2 April, I provided a written statement to launch the Welsh Government strategic equality plan and equality objectives. The Equality Act 2010 and the Government of Wales Act 2006 help us to deliver a fairer and more equitable Wales. The Equality Act represents the culmination of years of debate about how to improve British equality law and is of the utmost importance to the work that we are trying to do in advancing equality of opportunity for all. The Government of Wales Act 2006 places at its heart the principle that there should be equality of opportunity for all people in Wales.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Ar 2 Ebrill, rhoddais ddatganiad ysgrifenedig i lansio cynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ein helpu i sicrhau Cymru decach a mwy cyfiawn. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynrychioli ffrwyth blynyddoedd o drafodaeth am sut i wella cyfraith cydraddoldeb Prydain ac mae o'r pwys mwyaf i'r gwaith rydym yn ceisio ei wneud wrth hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys egwyddor ganolog y dylai holl bobl Cymru gael cyfle cyfartal.

We were the first Government in Britain to

Ni oedd y Llywodraeth gyntaf ym Mhrydain i

bring in specific equality duties to help public authorities better perform their general equality duty. The focus of these duties is the obligation to set outcome-focused equality objectives, informed by extensive engagement with individuals and organisations, and underpinned by robust evidence. Our Wales-specific equality duties are different to those in other parts of Britain as they have a requirement to engage, involve and consult when designing and considering our equality objectives. We are also the only GB Government that has a statutory obligation to carry out equality impact assessments of all our policies, processes and practices. Compared with England, where the equality duties only require the publication of sufficient information to demonstrate compliance with the general equality duty, the Wales-specific duties are robust and assist public authorities in addressing unfairness. In Scotland, the draft regulations were laid only recently before the Scottish Parliament and are expected to come into force on 27 May.

I am very much aware that we are at the beginning of a journey and that the content and operation of our strategic equality plan and equality objectives, and our delivery of these objectives, is of great interest to other Welsh public bodies and other UK nations. The introduction of a strategic equality plan offers a unique opportunity to embed and mainstream equalities and inclusion into public authorities' everyday thinking, planning and action. Equality and inclusion have been woven throughout the programme for government, which has its own chapter on standing up for equality. The programme for government will be updated to reflect the publication of the strategic equality plan and equality objectives. The Welsh Government has made a commitment to tackling poverty by prioritising the needs of the poorest and protecting the most vulnerable. The equality objectives, together with the tackling poverty action plan, will dovetail and provide the framework for these efforts.

gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol i helpu awdurdodau cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd gydraddoldeb gyffredinol yn well. Ffocws y dyletswyddau hyn yw rhwymedigaeth i bennu amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, wedi'u llywio drwy ymgysylltu'n helaeth ag unigolion a sefydliadau, a'u hategu gan dystiolaeth gadarn. Mae ein dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru yn wahanol i'r rhai mewn rhannau eraill o Brydain gan fod ganddynt ofyniad i ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori wrth ddylunio ac ystyried ein hamcanion cydraddoldeb. Ni hefyd yw'r unig Lywodraeth ym Mhrydain sydd â rhwymedigaeth statudol i gynnal asesiadau o effaith ein holl bolisiau prosesau ac arferion ar gydraddoldeb. O gymharu â Lloegr, lle mae'r dyletswyddau cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth ddigonol i ddangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yn unig, mae'r dyletswyddau penodol i Gymru yn gadarn ac yn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus wrth fynd i'r afael annhegwch. Yn yr Alban, dim ond yn ddiweddar y gosodwyd y rheoliadau drafft gerbron Senedd yr Alban a disgwylir iddynt ddod i rym ar 27 Mai.

Rwyf yn ymwybodol iawn ein bod ar ddechrau taith a bod cynnwys a gweithrediad ein cynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb, a chyflawni'r amcanion hyn, o ddiddordeb mawr i gyrff cyhoeddus eraill Cymru a gwledydd eraill y DU. Mae cyflwyno'r cynllun cydraddoldeb strategol yn cynnig cyfle unigryw i ymgorffori a phrif ffrydio cydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan o ystyriaethau, cynlluniau a gweithgareddau bob dydd awdurdodau cyhoeddus. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant wedi eu gweu drwy'r rhaglen lywodraethu gyfan, sy'n cynnwys pennod ar sefyll dros gydraddoldeb. Bydd y rhaglen lywodraethu yn cael ei diweddarau i adlewyrchu cyhoeddi'r cynllun cydraddoldeb strategol a'r amcanion cydraddoldeb. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi drwy flaenoriaethu anghenion y tlotaf ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed. Bydd yr amcanion cydraddoldeb, ynghyd â'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi, yn cydweddu ac yn darparu fframwaith ar gyfer

yr ymdrechion hyn.

Our far-reaching engagement has helped shape the objectives and confirmed our prioritisation of the areas of inequality on which we should focus. My officials held 12 meetings with seldom-heard groups across Wales, engaging with a total of 180 people. Round-table events were held with key delivery partners in Cardiff, Port Talbot and Llandudno Junction. An online and hard-copy questionnaire was developed and there were over 400 returns. Officials provided further engagement at Equality and Human Rights Commission Equality Exchange regional events in Swansea and Wrexham, and held discussions with partners at fora and other official meetings. A newsletter was developed to encourage engagement and was circulated to over 600 organisations and individuals across Wales.

Mae ein hymgysylltu pellgyrhaeddol wedi helpu i lunio'r amcanion ac wedi cadarnhau pa brif feysydd anghydraddoldeb y dylem ganolbwyntio arnynt. Cynhaliodd fy swyddogion 12 o gyfarfodydd gyda grwpiau nas clywir eu lleisiau yn aml ar draws Cymru, gan ymgysylltu â chyfanswm o 180 o bobl. Cynhaliwyd trafodaethau â phartneriaid allweddol yng Nghaerdydd, Port Talbot a Chyffordd Llandudno. Cafodd holiadur ar-lein ac ar ffurf copi caled ei ddatblygu a chafwyd dros 400 o ymatebion. Ymgysylltodd y swyddogion ymhellach mewn digwyddiadau rhanbarthol Cyfnewid Cydraddoldeb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn Abertawe a Wrecsam, a chynhaliwyd trafodaethau â phartneriaid mewn fforymau a chyfarfodydd swyddogol eraill. Cafodd cylchlythyr ei ddatblygu er mwyn annog ymgysylltu a chafodd ei ddosbarthu i dros 600 o sefydliadau ac unigolion ar draws Cymru.

The Welsh Government objectives have been based on meaningful, credible and robust evidence. It is recognised that there are evidence gaps around particular characteristics; therefore, this Government has made a commitment in its strategic equality plan that, as a priority, it will work with other public sector organisations in Wales and the third sector to fill those gaps.

Mae amcanion Llywodraeth Cymru wedi bod yn seiliedig ar dystiolaeth ystyrion, gredadwy a chadarn. Cydnabyddir bod bylchau dystiolaeth mewn rhai nodweddion arbennig; felly, mae'r Llywodraeth hon wedi gwneud ymrwymiad yn ei chynllun cydraddoldeb strategol y bydd, fel mater o flaenoriaeth, yn gweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru a'r trydydd sector i lenwi'r bylchau hynny.

Our initial evidence base was developed by Welsh Government social researchers to help inform the development of equality objectives and identify areas where we can have the most impact. The evidence base was broken down by each protected characteristic and a summary was produced of the main inequalities between people sharing a protected characteristic and others, and the main potential causes identified. That information was then used to analyse where our interventions needed to be focused, and has helped to shape our seven equality objectives and our engagement, consultation and involvement with Welsh stakeholders.

Cafodd ein sail dystiolaeth gychwynnol ei datblygu gan ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu amcanion cydraddoldeb a chanfod meysydd lle y gallwn gael yr effaith fwyaf. Cafodd y sail dystiolaeth ei manylu yn ôl pob nodwedd a ddiogelir a chynhyrchwyd crynodeb o'r prif anghydraddoldebau rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir ac eraill, a nodwyd y prif achosion posibl. Cafodd y wybodaeth honno ei defnyddio wedyn i ddadansoddi ble mae angen canolbwyntio ein hymyriadau, ac mae wedi helpu i lunio ein saith amcan cydraddoldeb a'n hymgysylltiad, ymgynghoriad a chyfranogiad â rhanddeiliaid o Gymru.

The first equality objective seeks to strengthen advice, information and advocacy

Diben yr amcan cydraddoldeb cyntaf yw cryfhau gwasanaethau cyngor, gwybodaeth

services to help people to understand and exercise their rights and make informed choices. Providing good quality advice will be a priority over the coming months and years, not only because people with protected characteristics need to be better informed, but because the scale of welfare reform changes being introduced by the UK Government will have a profound impact on Welsh citizens.

The second equality objective requires us to work with partners to identify and address the causes of pay and employment differences based on gender, ethnicity and disability. We will look at addressing this objective during lifetimes, but we also need to address an individual's life chances even before birth. The objective to reduce the number of young people not in education, employment or training is a key priority in the programme for government. Through this equality objective in the plan, we will demonstrate how our existing strategies and frameworks dovetail to achieve better outcomes.

The fourth equality objective focuses on how we can foster good relations between people and reduce the incidences of violence against women, domestic abuse, hate crime, bullying, honour-based violence and elder abuse. The Welsh Government is establishing a cross-Government task and finish group and five stakeholder groups across the protected characteristics spectrum to develop a Welsh hate crime framework for action.

Our fifth objective is to tackle barriers and support disabled people so that they can live independently and exercise choice and control in their daily lives. As I announced last year, a framework for action on independent living will be published this summer. In developing the framework, and in accordance with the Wales specific equality duties, we are undertaking a comprehensive engagement exercise to gather the views of disabled people across Wales and their representative organisations, along with other stakeholder organisations and policy officials across Welsh Government departments. Over

ac eiriolaeth i helpu pobl i ddeall ac arfer eu hawliau ac i wneud dewisiadau gwybodus. Bydd darparu cyngor o ansawdd da yn flaenoriaeth dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, nid yn unig gan fod angen rhagor o wybodaeth ar bobl sydd â nodweddion a ddiogelir, ond oherwydd y bydd y newidiadau diwygio lles a gaiff eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU yn cael effaith fawr ar ddinasyddion Cymru.

Mae'r ail amcan cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol inni weithio gyda phartneriaid i ganfod achosion o wahaniaethau cyflog a chyflogaeth yn seiliedig ar ryw, ethnigrwydd ac anabled, a mynd i'r afael â hynny. Byddwn yn edrych ar fynd i'r afael â'r amcan hon yn ystod oes pobl, ond hefyd mae angen mynd i'r afael â chyfleoedd bywyd unigolyn hyd yn oed cyn geni. Mae'r amcan i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn flaenoriaeth allweddol yn y rhaglen lywodraethu. Drwy'r amcan cydraddoldeb hwn yn y cynllun, byddwn yn dangos sut mae ein strategaethau a'n fframweithiau presennol yn cydweddu er mwyn sicrhau gwell canlyniadau.

Mae'r pedwerydd amcan cydraddoldeb yn canolbwyntio ar sut y gallwn feithrin perthynas dda rhwng pobl a lleihau'r achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, troseddau casineb, bwlio, trais yn seiliedig ar anrhydedd a cham-drin yr henoed. Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar draws y Llywodraeth a phump grŵp rhanddeiliaid ar draws y sbectrum nodweddion a ddiogelir i ddatblygu fframwaith gweithredu i Gymru ar droseddau casineb.

Ein pumed amcan yw mynd i'r afael â rhwystrau a chefnogi pobl anabl fel y gallant fyw'n annibynnol gan sicrhau bod modd iddynt wneud dewisiadau a rheoli eu bywydau bob dydd. Fel y cyhoeddais y llynedd, bydd fframwaith gweithredu ar fyw'n annibynnol yn cael ei gyhoeddi yn yr haf. Wrth ddatblygu'r fframwaith, ac yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru, rydym yn cynnal rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr i gasglu barn pobl anabl ledled Cymru a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, ynghyd â sefydliadau rhanddeiliaid eraill a swyddogion polisi ar draws adrannau

200 people have been directly involved in this process and many more are being kept informed of developments via information bulletins and are invited to submit their comments directly to the project.

We want to put the needs of all service users at the heart of delivery in key public services, particularly health, housing and social care services. This equality objective is part and parcel of developing a citizen-centred approach to public services. Many people face barriers to these services and this Government is committed to removing them.

Finally, we propose to improve the engagement and participation of under-represented groups in public appointments. This objective is clearly linked to our commitment in the programme for government on seeking to introduce Norwegian-style gender quotas for appointments to public bodies in Wales, to ensure that at least 40% of those appointed are women.

The seven equality objectives will be monitored and reviewed across the Welsh Government to chart progress. Our annual equality reports will show what has been achieved and what more needs to be done. This will ensure that our work on equalities and inclusion is transparent and remains a top priority. The Welsh Government will continue to work with the Equality and Human Rights Commission in Wales, which is the regulator for the duties, and the public sector across Wales, to ensure that Welsh public sector objectives reflect local priorities, as well as ensuring a joined-up approach in response to the national equalities agenda.

Finally, I thank all those organisations and individuals that engaged with and became involved in the development of the Welsh Government strategic equality plan and equality objectives. It is their evidence and quality input that has ensured that we have a

Llywodraeth Cymru. Mae dros 200 o bobl wedi bod yn rhan uniongyrchol o'r broses hon ac mae llawer mwy yn cael eu hysbysu o'r datblygiadau drwy fwletinau gwybodaeth a chânt eu gwahodd i gyflwyno eu sylwadau yn uniongyrchol i'r prosiect.

Rydym am roi anghenion yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig iechyd, tai a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r amcan cydraddoldeb yn rhan annatod o ddatblygu dull o ganolbwyntio ar y dinesydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o bobl yn wynebu rhwystrau i'r gwasanaethau hyn ac mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i gael gwared arnynt.

Yn olaf, rydym yn bwriadu gwella ymgysylltiad a chyfranogiad grwpiau nad sydd â chynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus. Mae'r amcan hwn yn cael ei gysylltu'n glir â'n hymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu i geisio cyflwyno cwtâu fel sydd gan Norwy ar gyfer penodiadau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod o leiaf 40% o'r rhai a benodir yn fenywod.

Bydd y saith amcan cydraddoldeb yn cael eu monitro a'u hadolygu ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn cadw llygad ar gynnydd. Bydd ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn dangos yr hyn a gyflawnwyd a'r hyn sydd angen ei wneud eto. Bydd hyn yn sicrhau bod ein gwaith ar gydraddoldeb a chynhwysiant yn dryloyw ac yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, sef rheoleiddiwr y dyletswyddau, a'r sector cyhoeddus ar draws Cymru, i sicrhau bod amcanion sector cyhoeddus Cymru yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol, yn ogystal â sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu mewn ymateb i'r agenda cydraddoldeb genedlaethol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl sefydliadau ac unigolion a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddatblygu cynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Eu tystiolaeth a'u cyfraniad gwych hwy sydd wedi sicrhau bod gennym lwyfan gadarn i

firm platform on which to achieve and measure equality outcomes for Wales.

Mohammad Asghar: I am grateful to the Minister for her statement this afternoon. On behalf of the Welsh Conservatives, I welcome the strategic equality plan and objectives document as an important milestone in advancing equality and eliminating discrimination, harassment and victimisation in Wales. I also welcome the Welsh Government's recognition that people living in rural areas face particular problems, and that rural proofing is required to ensure that the impact of policies and decisions on our rural communities is given due consideration.

The strategy sets out seven equality objectives, all of which will be welcomed by all sides in the Chamber. Specific objectives have been set for young people not in education or training, women and the disabled, but not, for example, for older people's needs. Therefore, may I ask the Minister how these objectives were decided upon and what criteria were used?

The plan argues that the Welsh Government should use its wide range of expertise to develop effective legislation and evidence-based policy. Yet, it admits that the current evidence base must be strengthened and that progress will have to be made despite the lack of evidence on some protected characteristics. How does the Minister intend to address this problem of lack of evidence?

One area that I am particularly interested in is how to improve the engagement and participation of under-represented groups in public appointments. I have spoken in the past of the need for such groups to have greater representation in public life. Minister, how will this be taken forward and will it include, and be promoted among, all the equality groups in Wales?

The Equality Act 2010 introduced a UK-wide general equality duty. The National

gyflawni a mesur canlyniadau cydraddoldeb i Gymru.

Mohammad Asghar: Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, rwy'n croesawu'r cynllun cydraddoldeb strategol a'r ddogfen amcanion fel carreg filltir bwysig o ran hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yng Nghymru. Rwyf hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn wynebu problemau penodol, a bod angen prawfesur gwledig er mwyn sicrhau bod effaith polisiau a phenderfyniadau ar ein cymunedau gwledig yn cael ystyriaeth briodol.

Mae'r strategaeth yn nodi saith amcan cydraddoldeb, a bydd pob un ohonynt yn cael ei groesawu gan bob rhan o'r Siambr. Mae amcanion penodol wedi eu pennu ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant, menywod a phobl anabl, ond nid, er enghraifft, ar gyfer anghenion pobl hŷn. Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog sut y penderfynwyd ar yr amcanion hyn a pha feini prawf a ddefnyddiwyd?

Mae'r cynllun yn dadlau y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei ystod eang o arbenigedd i ddatblygu deddfwriaeth a pholisiau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Eto i gyd, mae'n cyfaddef bod yn rhaid cryfhau'r sail dystiolaeth bresennol ac y bydd yn rhaid gwneud cynnydd er gwaethaf y diffyg tystiolaeth ar rai nodweddion a ddiogelir. Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â'r broblem hon o ddiffyg tystiolaeth?

Un maes y mae gennyf ddiddordeb arbennig ynddo yw sut i wella ymgysylltiad a chyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus. Rwyf wedi siarad yn y gorffennol am yr angen i grwpiau o'r fath gael rhagor o gynrychiolaeth mewn bywyd cyhoeddus. Weinidog, sut y bydd hyn yn cael ei ddatblygu ac a fydd yn cynnwys, yr holl grwpiau cydraddoldeb yng Nghymru a'i hyrwyddo yn eu mysg?

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol ledled

Assembly unanimously passed the Wales-specific equality duties—providing Welsh solutions for Welsh challenges. Scrutiny of the Welsh Government by the National Assembly to monitor progress is vital if we are to meet these objectives.

Ministers and other public authorities must be held to account to ensure that they are fulfilling their obligations under the duties. Public bodies in Wales must engage with local residents and community groups by publishing information, inviting them to get involved and setting objectives. How does the Minister intend to hold such bodies to account and will she commit to making progress reports to the Assembly on an annual basis?

The Welsh Government has committed itself to equality by setting very ambitious targets: targets that are wide-ranging and that present the prospect of delivering major equality improvements across a whole range of devolved policy areas, such as health, education, employment and housing, to name just a few. Partnership working and adequate resourcing will be vital if they are to be met, but most importantly, meeting these targets will require the Welsh Government to show strong leadership and a determination to succeed.

Minister, you have our support for the strategy. You and your colleagues in Government must now deliver.

Jane Hutt: I thank the spokesperson for the Welsh Conservatives for his contribution and for welcoming the strategic equality plan. As I said in my statement, this is the start of a journey. You made important points and raised questions about gaining more evidence, building on the evidence that we gained from the full range of engagement activities that I described in my statement.

I will give you a further flavour of the review that we undertook. It included a literature search of evidence on the causes of

y DU. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol wedi pasio'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru—gan gynnig atebion Cymreig i heriau Cymru. Mae'n hanfodol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar Lywodraeth Cymru er mwyn monitro cynnydd os ydym i gyflawni'r amcanion hyn.

Rhaid i Weinidogion ac awdurdodau cyhoeddus eraill gael eu dwyn i gyfrif i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y dyletswyddau. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ymgysylltu â thrigolion lleol a grwpiau cymunedol trwy gyhoeddi gwybodaeth, eu gwahodd i gymryd rhan a phennu amcanion. Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu dwyn cyrff o'r fath i gyfrif ac a wnaiff hi ymrwymo i lunio adroddiadau cynnydd blynyddol i'r Cynulliad?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb drwy bennu targedau uchelgeisiol iawn: targedau eang sy'n cyflwyno'r posibilrwydd o ddarparu gwelliannau cydraddoldeb mawr ar draws ystod eang o feysydd polisi datganoledig, megis iechyd, addysg, cyflogaeth a thai, i enwi ond rhai. Bydd gweithio mewn partneriaeth a darparu adnoddau digonol yn hanfodol os yw'r targedau'n mynd i gael eu cyflawni, ond yn bwysicaf oll, er mwyn cyrraedd y targedau hyn, bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad cryf a phenderfyniad i lwyddo.

Weinidog, rydym yn cefnogi eich strategaeth. Rhaid i chi yn awr a'ch cyd-Aelodau yn y Llywodraeth gyflawni.

Jane Hutt: Diolch i lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig am ei gyfraniad ac am groesawu'r cynllun cydraddoldeb strategol. Fel y dywedais yn fy natganiad, dechrau'r daith yw hyn. Gwnaethoch bwyntiau pwysig a chodwyd cwestiynau gennyh ynghylch cael mwy o dystiolaeth, gan adeiladu ar y dystiolaeth a gawsom drwy ystod lawn o weithgareddau ymgysylltu a ddisgrifiais yn fy natganiad.

Rhoddaf fwy o flas i chi o'r adolygiad a gynhaliwyd gennym. Roedd yn cynnwys chwilio drwy gyhoeddiadau i ddod o hyd i

inequality. We structured that around the themes used by the Equality and Human Rights Commission in its triennial review, 'How fair is Britain?' and 'How fair is Wales?'. Those reviews provide a comprehensive picture of the range and type of inequalities that are experienced by people with protected characteristics. Using those reviews as the basis for evidence enables ongoing comparisons of progress on equality issues between Wales and the rest of the UK. However, we will continue to work with the partner organisations—the Equality and Human Rights Commission and the universities—to secure the evidence that we need to back our equality objectives.

Monitoring is key to this. The equality, diversity and inclusion division will be responsible for corporate oversight and the co-ordination of progress against the strategic equality objectives, which will include monitoring actions on a quarterly basis, working within departments where responsibility is identified across policy areas and the Welsh Government will provide a transparent and robust update of progress on an annual basis against the objectives identified. That will be submitted to me as Minister for Finance and Leader of the House.

3.30 p.m.

We will put that report on the Welsh Government's website and it will include an assessment of the effectiveness of the steps that we are taking to meet the equality objectives. A two-yearly report from Welsh Ministers will be published setting out progress and it will also be sent to devolved public authorities regarding our responsibilities and progress in meeting the general equality duty.

Lindsay Whittle: I certainly welcome this plan and its objectives, Minister. I was

dystiolaeth o achosion anghydraddoldeb. Cafodd hynny ei lunio o amgylch y themâu a ddefnyddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei adolygiad bob tair blynedd, 'Pa mor deg yw Prydain?' a 'Pa mor deg yw Cymru?' Mae'r adolygiadau hynny yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r ystod a'r math o anghydraddoldeb y mae pobl sydd â nodweddion a ddiogelir yn eu hwynebu. Mae defnyddio'r adolygiadau hynny fel sail tystiolaeth yn galluogi cymariaethau parhaus o gynnydd ar faterion cydraddoldeb rhwng Cymru a gweddill y DU. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau partner—y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r prifysgolion—i gadarnhau'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i gefnogi ein hamcanion cydraddoldeb.

Mae monitro yn allweddol i hyn. Bydd yr adran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gyfrifol am oruchwylio corfforaethol a chydgyssylltu cynnydd yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb strategol, a fydd yn cynnwys gweithgareddau monitro bob chwarter, gan weithio o fewn adrannau lle y canfyddir cyfrifoldeb lle y caiff cyfrifoldeb ei nodi ar draws meysydd polisi, a bydd Llywodraeth Cymru'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, mewn modd tryloyw a chadarn, am y cynnydd a wnaed yn flynyddol yn erbyn yr amcanion a nodwyd.

Bydd y wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno i mi fel y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw ar wefan Llywodraeth Cymru, a bydd yr adroddiad yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y camau yr ydym yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi gan Weiniogion Cymru bob dwy flynedd a fydd yn nodi'r cynnydd a wnaed, a bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei anfon i awdurdodau cyhoeddus datganoledig, mewn perthynas â'n cyfrifoldebau a'r cynnydd a wneir gennym o ran bodloni'r ddyletswydd cydraddoldeb yn gyffredinol.

Lindsay Whittle: Rwyf yn bendant yn croesawu'r cynllun a'i amcanion, Weiniog.

privileged to attend the launch and there was a great buzz there among all of the groups, many representing minorities here in Wales. They all came together to support the plan and speak with one voice and it was really good to be there. The Welsh record is something to be proud of, as history shows. We will always recall Paul Robeson singing to the Welsh miners down the telephone at their Eisteddfod in Porthcawl, and that will always remind us of the men from the north, south, east and west of Wales who went to Spain to fight against fascism. That is something of which we can be very proud; three men from the village where I live went, including one from my very street in fact—Jack Russia; John Roberts is his proper name. As we drive into Wales, we see the ‘Welcome to Wales’ sign on the M4, and that gives a clear message that we are a people who will always be welcoming of others, and we look forward to the day when all prejudice is relegated to the gutter, where it belongs. We recognise that we have some way to go, but your plan, Minister, will build upon all the good work that has been done and we will learn from any past mistakes.

I have three questions. With reference to the equality duty on local authorities in Wales, will you, in liaison with your colleague, the Minister for Education and Skills, make it clear to schools that virtually debar disabled pupils from attending because they have inadequate physical access, that they will, in fact, be expected to take action to remedy that situation, which discriminates against physically disabled pupils? We have seen this in the past and it is not acceptable. What action can you take in order to tackle the apparent discrimination against women who are now suffering from high rates of unemployment? I am aware from recent correspondence and written responses from you some time ago, that the Welsh Government, to be fair, has an enlightened policy on whistleblowers. However, will you re-emphasise—I am sure you will—to all public sector organisations that discrimination against genuine whistleblowers should not be tolerated? For

Cefais y fraind o fynd i'r lansiad ac roedd cyffro mawr yno ymhlith pob un o'r grwpiau, gyda llawer ohonynt yn cynrychioli lleiafrifoedd yma yng Nghymru. Daeth y grwpiau hyn ynghyd i gefnogi'r cynllun ac i siarad ag un llais, ac roedd yn braf bod yno. Mae record Cymru yn rhywbeth i fod yn falch ohoni, fel y dengys hanes. Byddwn bob amser yn cofio Paul Robeson yn canu dros y ffôn i lowyr Cymru yn ystod eu Heisteddfod ym Mhorthcawl, a bydd y digwyddiad hwnnw bob amser yn ein hatgoffa o'r dynion o ogledd, de, dwyrain a gorllewin Cymru a aeth i Sbaen i ymladd yn erbyn ffasgaeth. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn fod yn falch iawn ohono; aeth tri dyn o'r pentref lle yr wyf yn byw, gan gynnwys un dyn sy'n byw ar yr un stryd â mi, a dweud y gwir—Jack Russia; John Roberts yw ei enw iawn. Wrth inni yrru i mewn i Gymru, rydym yn gweld yr arwydd ‘Croeso i Gymru’ ar yr M4, ac mae hynny'n anfon neges glir ein bod yn bobl a fydd bob amser yn croesawu pobl eraill, ac rydym yn edrych ymlaen at y dydd pan fydd rhagfarn yn cael ei thafu i'r gwter, sef ei phriod le. Rydym yn cydnabod bod gennym gryn ffordd i fynd eto, ond bydd eich cynllun, Weinidog, yn adeiladu ar yr holl waith da sydd wedi'i wneud, a byddwn yn dysgu yn sgîl unrhyw gamgymeriadau a wnaed yn y gorffennol.

Mae gennyf dri chwestiwn. Gan gyfeirio at ddyletswydd cydraddoldeb awdurdodau lleol yng Nghymru, a wnewch chi, ar y cyd â'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, egluro i ysgolion sydd, i bob pwrpas, yn atal disgyblion anabl rhag mynychu yn sgîl y ffaith bod ganddynt fynediad corfforol annigonol, y bydd disgwyl iddynt gymryd camau i unioni'r sefyllfa honno, sy'n gwahaniaethu yn erbyn disgyblion ag anabledd corfforol? Rydym wedi gweld hyn yn y gorffennol, ac nid yw'n dderbyniol. Pa gamau y gallwch eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn menywod, sydd yn awr yn dioddef o gyfraddau uchel o ddiweithdra? Rwyf yn ymwybodol, yn sgîl gohebiaeth yn ddiweddar ac ymatebion ysgrifenedig a gafwyd gennych beth amser yn ôl, fod gan Lywodraeth Cymru, a bod yn deg, bolisi goleuedig ar ddatgelu camarfer. Fodd bynnag, a wnewch ailbwysleisio—ac rwyf yn siŵr y byddwch yn gwneud hyn—wrth bob sefydliad sector cyhoeddus nad yw

my part, I welcome this plan and give it my full support.

Jane Hutt: I thank Lindsay Whittle for his contribution and for acknowledging the Welsh record. In terms of our ambitions and clear equality objectives, we have to deliver against mounting pressures, particularly, as you mentioned, the impact of rising unemployment. That has been recognised in the Chamber today, particularly in terms of the impact on women. It is important that we recognise our objective to tackle pay differentials, which do not just relate to women, but also to black and minority ethnic communities and disabled people. We not only need to look at the rising levels of unemployment for women, but to recognise that women hold over three quarters of all part-time jobs in Wales, which are characterised by low pay. The changes to the working families tax credit will again have an adverse impact. It was welcome that this Chamber, across the parties, came together before the recess to reject proposals for regional pay, and in particular the impact that it would have on women and low-paid workers.

You quite rightly refer to the duties and responsibilities of local authorities and they have now produced their equality plans. The Equality and Human Rights Commission has written to all public authorities in Wales, including local authorities. It is the regulator. Issues relating to access for disabled children is key to that, as is recognising the importance of whistleblowing in terms of the opportunities for transparency and engagement in tackling those issues.

Peter Black: I also welcome this strategy. The objectives set out by the Minister are worthy and will command the support of the entire Chamber. However, it is still fairly sketchy as to how the objectives will be

gwahaniaethu yn erbyn chwythwyr chwiban dilys yn rhywbeth y dylid ei oddef? O'm rhan i, rwyf yn croesawu'r cynllun hwn ac yn rhoi fy nghefnogaeth lawn iddo.

Jane Hutt: Diolch i Lindsay Whittle am ei gyfraniad ac am gydnabod record Cymru. O ran ein huchelgeisiau a'n hamcanion clir ynghylch cydraddoldeb, mae'n rhaid inni gyflawni'r rhain yng nghyd-destun pwysau cynyddol—yn enwedig, fel y soniasoch, yng nghyd-destun effaith y cynnydd mewn diweithdra. Mae'r sefyllfa honno wedi cael ei chydabod yn y Siambr heddiw, yn enwedig o ran yr effaith ar fenywod. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ein nod o fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog. Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn ymwneud â menywod yn unig; maent hefyd yn ymwneud â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a phobl anabl. Mae angen inni edrych nid yn unig ar lefelau cynyddol o ddiweithdra ymhlith menywod, ond hefyd cydnabod mai gan fenywod y mae dros dri chwarter yr holl swyddi rhan-amser yng Nghymru—swyddi sy'n cael eu nodweddu gan gyflog isel. Bydd y newidiadau a wneir yn y credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio hefyd yn cael effaith andwyol. Croesawir y ffaith bod y pleidiau ar draws y Siambr hon wedi dod ynghyd cyn y toriad i wrthod cynigion ar gyfer tâl rhanbarthol, ac yn benodol yr effaith y byddai'r system hon yn ei chael ar fenywod a gweithwyr sydd ar gyflog isel.

Yn gwbl briodol, cyfeiriasoch at ddyletswyddau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, ac mae'r awdurdodau hyn bellach wedi llunio eu cynlluniau cydraddoldeb. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi ysgrifennu at bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol. Y comisiwn hwnnw yw'r rheoleiddiwr. Mae materion sy'n ymwneud â mynediad i blant anabl yn allweddol, yn ogystal â chydabod pwysigrwydd chwythu'r chwiban o ran y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer sicrhau tryloywder ac ymgysylltu wrth fynd i'r afael â'r materion hynny.

Peter Black: Rwyf finnau'n croesawu'r strategaeth hon. Mae'r amcanion a nodwyd gan y Gweinidog yn rhai teilwng a byddant yn ennyn cefnogaeth y Siambr gyfan. Fodd bynnag, mae'r manylion ynghylch sut y bydd

achieved and how we will measure them. Therefore, perhaps the Minister could assist by answering some questions on how transparent and accountable this strategy is.

With regard to the first equality objective about strengthening advice, information and advocacy services, what additional funding is the Welsh Government making available to achieve this and over what time period are you seeking to strengthen those services? To what extent will we be able to measure the improvement in services and their consistency across the whole of Wales?

With regards to the second equality objective of working with partners to identify and address the causes of gender, ethnicity and disability pay and employment differences, I assume that that is a research project. When will that research be published, and what influence will the Welsh Government be able to exercise in trying to put its conclusions into effect?

With regards to the third objective on young people not in education, employment or training, I urge the Minister to look at the successful partnership undertaken in Swansea involving agencies of the local council, the UK Government and the Welsh Government as well, I suspect, which has markedly reduced the number of young people not in education, employment or training. That initiative has been highlighted as being more advanced than anything else in the UK, and the Minister may well be able to pick up on some of the lessons from that and apply them to other parts of Wales.

With regard to the fourth initiative of the Welsh hate crime framework for action, could the Minister give us an indication of when that will be published, and what targets it will set out that we will be able to measure and monitor?

Finally, in the same vein, I note that the

yr amcanion yn cael eu cyflawni a sut y byddwn yn eu mesur yn dal braidd yn dameidiog. Felly, efallai y gallai'r Gweinidog roi cymorth inni drwy ateb rhai cwestiynau ynghylch pa mor dryloyw ac atebol yw'r strategaeth hon.

O ran yr amcan cydraddoldeb cyntaf, sef cryfhau gwasanaethau cynghori, gwybodaeth ac eiriolaeth, faint o arian ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ryddhau er mwyn cyflawni'r amcan hwn, a thros ba gyfnod o amser y byddwch yn ceisio cryfhau'r gwasanaethau hynny? I ba raddau y byddwn yn gallu mesur y gwelliannau yn y gwasanaethau hyn, a'u cysondeb ar draws Cymru gyfan?

O ran yr ail amcan cydraddoldeb, sef gweithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael ag achosion gwahaniaethau cyflog a chyflogaeth mewn perthynas â rhyw, ethnigrwydd ac anabledd, rwyf yn tybio bod hwn yn brosiect ymchwil. Pa bryd y bydd y gwaith ymchwil hwnnw'n cael ei gyhoeddi, a sut y bydd Llywodraeth Cymru'n gallu dylanwadu ar y broses hon wrth geisio rhoi ei chasgliadau ar waith?

O ran y trydydd amcan, sy'n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, rwyf yn annog y Gweinidog i edrych ar y bartneriaeth lwyddiannus a gafwyd yn Abertawe, sef partneriaeth a oedd yn cynnwys asiantaethau'r cyngor lleol, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru hefyd, rwyf yn tybio. Mae'r bartneriaeth hon wedi lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn sylweddol. Cafodd y fenter honno ei hamlygu fel un a oedd yn fwy datblygedig nag unrhyw beth arall yn y DU, ac mae'n bosibl y gallai'r Gweinidog ganolbwyntio ar rai o'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r fenter honno a'u rhoi ar waith mewn rhannau eraill o Gymru.

O ran y bedwaredd fenter, sef y fframwaith gweithredu yn erbyn troseddau casineb yng Nghymru, a fyddai modd i'r Gweinidog roi syniad inni pa bryd y bydd y fframwaith hwn yn cael ei gyhoeddi, a pha dargedau y gallwn eu mesur a monitro a gaiff eu nodi ynddo?

Yn olaf, yn yr un modd, sylwaf y bydd y

framework for action on independent planning will be published in the summer. Will the Minister indicate whether that will also contain measurable targets so that we can continually scrutinise the success of this strategy?

Jane Hutt: Thank you, Peter. You draw attention to the challenging and far-reaching equality objectives that we have set, based on evidence and engagement. In terms of advice, information and advocacy services, the Minister for Local Government and Communities and I have asked officials to instigate a review of advisory services. Unprecedented challenges are being faced by not-for-profit providers as a result of the welfare reform changes and the proposed changes to legal aid in the Bill going through Parliament at present, and also because of the impact of the reduction in funding for advice through the financial inclusion fund and the Equality and Human Rights Commission helpline. However, I chose to use the consequential that came from the Ministry of Justice specifically for engaging in terms of this review of advice and information to take this forward, and we will use this to help us to deliver this equality objective in terms of opportunities to mitigate the impact of those welfare reform policies and cutbacks in legal aid.

In terms of equal pay, this is key in identifying and addressing the causes of pay and employment differences. We are including a duty in the Wales-specific regulations. For example, under regulation 9, authorities will be required to collect information on the number of men and women employed, broken down by job grade, pay, contract type and working pattern, and also, in a separate regulation, gender pay differences will be included. That will enable us not only to identify that, but also to address the cause or causes of pay difference. This has to be included in an action plan that relates to the need to address those pay differences. Of course, it is something that we will work to monitor in terms of making those changes to policy that may be required to address those disparities. I recognise the

fframwaith ar gyfer gweithredu ar gynllunio annibynnol yn cael ei gyhoeddi yn yr haf. A wnaiff y Gweinidog nodi a fydd y fframwaith hwnnw hefyd yn cynnwys targedau mesuradwy, er mwyn inni allu parhau i gael cyfle i graffu ar lwyddiant y strategaeth hon?

Jane Hutt: Diolch yn fawr, Peter. Rydych yn tynnu sylw at yr amcanion cydraddoldeb heriol a phellgyrhaeddol yr ydym wedi'u gosod, yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymgysylltu. O ran gwasanaethau cynghori, gwybodaeth ac eiriolaeth, mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a minnau wedi gofyn i swyddogion gychwyn adolygiad o wasanaethau cynghori. Mae heriau cwbl newydd yn cael eu hwynebu gan ddarparwyr di-elw o ganlyniad i'r newidiadau diwygio lles a'r newidiadau arfaethedig mewn cymorth cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, ac oherwydd effaith y gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer cael cyngor drwy'r gronfa cynhwysiant ariannol a llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Fodd bynnag, penderfynais ddefnyddio'r arian canlyniadol a ddaeth o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn benodol ar gyfer ymgysylltu mewn pethynas â'r adolygiad hwn o gyngor a gwybodaeth i fwrw ymlaen â'r mater hwn, a byddwn yn ei ddefnyddio i'n helpu i gyflawni'r amcan cydraddoldeb hwn, o ran sicrhau cyfleoedd i liniaru effaith y polisiau hynny ar ddiwygio lles a thoriadau mewn cymorth cyfreithiol.

O ran cyflog cyfartal, mae'r mater hwn yn allweddol o ran nodi a mynd i'r afael ag achosion gwahaniaethau cyflog a chyflogaeth. Rydym yn cynnwys dyletswydd yn y rheoliadau sy'n benodol i Gymru. Er enghraifft, o dan reoliad 9, bydd yn ofynnol i awdurdodau gasglu gwybodaeth am nifer y dynion a menywod a gyflogir, gyda'r ffigurau wedi'u dadansoddi yn ôl gradd y swydd, y cyflog, pa fath o gontract ydyw a'r patrwm gwaith. Yn ogystal, bydd gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu cynnwys mewn rheoliad ar wahân. Bydd hyn yn ein galluogi nid yn unig i nodi'r achosion hynny, ond hefyd yn ein galluogi i fynd i'r afael âg achos neu achosion y gwahaniaethau o ran cyflog. Mae'n rhaid cynnwys y broses hon mewn cynllun gweithredu sy'n ymwneud â'r angen i roi

work that was undertaken in Swansea. Indeed, work has been done across Wales as a result of the youth engagement and employment action plan, which was published in January 2011, outlining our approach to preventing children and young people disengaging from learning and supporting them to enter the labour market. In fact, I think that it was the Kafka Brigade project that identified the multiplicity of agencies engaged in addressing this. We must learn from that in tackling those barriers and the difficulties young people face in accessing employment and education. However, I am sure you agree that the launch of the Jobs Growth Wales opportunities for young people by the Deputy Minister for Skills and the First Minister in the past few days and weeks will provide 4,000 job opportunities each year over the next three years for unemployed young people in Wales aged 16 to 24. It is clear that we must see this as an equality objective and support the work being done to address this worrying rise in youth unemployment.

As you say, you recognise the importance of the work we are doing to address hate crime and that the fact that we responded to this in terms of it being an equality objective shows our determination to deliver on this. The manifesto for independent living, which we are now responding to in terms of the framework for independent living, is enabling us to deliver on the equality objective by putting the needs of disabled people at the forefront of service delivery. These are all key equality objectives, which will be monitored and delivered through our partnership with other public authorities and with regard to the delivery of the evidence base and action plans emanating from that.

sylw i'r gwahaniaethau cyflog hynny. Wrth gwrs, mae'n rhywbeth y byddwn yn gweithio i'w fonitro o ran gwneud y newidiadau polisi a allai fod yn ofynnol i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny. Rwyf yn cydnabod y gwaith a wnaed yn Abertawe. Yn wir, mae gwaith wedi'i wneud ledled Cymru o ganlyniad i'r cynllun gweithredu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, sy'n amlinellu ein dull o atal plant a phobl ifanc rhag ymddieithrio o ddysgu a'u cefnogi i ymuno â'r farchnad lafur. Yn wir, rwyf yn meddwl mai prosiect Brigâd Kafka a nododd yr asiantaethau niferus sy'n ymwneud â mynd i'r afael â hyn. Rhaid inni ddysgu yn sgîl hynny wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r anawsterau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at waith ac addysg. Fodd bynnag, rwyf yn sicr eich bod yn cytuno y bydd cyfleoedd y rhaglen Twf Swyddi Cymru ar gyfer pobl ifanc, a gafodd ei lansio gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a'r Prif Weinidog yn y dyddiau a'r wythnosau diwethaf, yn darparu 4,000 o gyfleoedd gwaith bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf ar gyfer pobl ifanc ddi-waith yng Nghymru, sef pobl sydd rhwng 16 a 24. Mae'n amlwg bod yn rhaid inni ystyried y mater hwn yn un o'r amcanion o ran cydraddoldeb, a bod yn rhaid inni gefnogi'r gwaith a wneir i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc, cynnydd sy'n peri pryder.

Fel y dywedasoch, rydych yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith yr ydym yn ei wneud i fynd i'r afael â throeddau casineb, ac mae'r ffaith ein bod wedi ymateb i'r mater hwn drwy ei drin fel un o'r amcanion o ran cydraddoldeb yn dangos ein bod yn benderfynol o gyflawni yn y maes hwn. Mae'r maniffesto ar gyfer byw'n annibynnol, sef y maniffesto yr ydym yn ymateb iddo o ran y fframwaith ar gyfer byw'n annibynnol, yn ein galluogi i gyflawni'r amcan cydraddoldeb drwy roi blaenoriaeth i anghenion pobl anabl o ran darparu gwasanaethau. Mae'r rhain i gyd yn amcanion allweddol o safbwynt cydraddoldeb, a byddant yn cael eu monitro a'u darparu drwy ein partneriaethau ag awdurdodau cyhoeddus eraill, a thrwy roi ystyriaeth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth a'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio o hynny.

Christine Chapman: First, I welcome your statement, Minister. I want to focus my question on the final objective, which seeks to address the unacceptably low percentage of women serving on public bodies. I welcome the inclusion of this objective. We know that public bodies and the decisions they make on behalf of us all will be all the poorer without a good diversity of representation. I am pleased that you are seeking to introduce a Norwegian-style gender quota for appointments to public bodies in Wales to ensure that at least 40% of those appointed are women. We know from history that quotas and targets are always controversial. I am a firm supporter of them. Minister, have you given any early consideration to the sort of arguments that will be used against this approach? I know that people will say that everything must be done on merit. I do not think that that is an argument at all, because I know that women are as able as men. However, these arguments will be used, so have you considered these and how to address them? I also want to mention the fact that the Women Making a Difference project has been an excellent example of support.

Have you discussed with the Minister for education the possibility of working with schools and colleges to encourage and support young women to contribute to civil society? We know that encouraging engagement at this early stage is very important in developing the talent, skills and understanding needed for full participation in civil society later on in life.

Jane Hutt: I thank Christine Chapman for that question relating to improving the engagement and participation of under-represented groups in public appointments, particularly in relation to women. I am sure that the Minister for Education and Skills will also be interested in the opportunity to embed this in education.

3.45 p.m.

Christine Chapman: Yn gyntaf, croesawaf eich datganiad, Weinidog. Mae fy nghwestiwn yn canolbwyntio ar y nod terfynol, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r ganran o ferched sy'n gwasanaethu ar gyrff cyhoeddus, sy'n annerbyniol o isel. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod yr amcan hwn wedi'i gynnwys. Gwyddom y bydd cyrff cyhoeddus a'r penderfyniadau a wnânt ar ran pob un ohonom yn salach heb amrywiaeth dda o gynrychiolaeth. Rwyf yn falch eich bod yn ceisio cyflwyno cwotâu rhyw yn y dull Norwyaidd ar gyfer penodiadau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn sicrhau bod o leiaf 40% o'r rhai a benodir yn fenywod. Yn seiliedig ar hanes, gwyddom fod cwotâu a thargedau bob amser yn ddadleuol. Rwyf yn eu cefnogi'n gryf. Weinidog, a ydych wedi rhoi ystyriaeth gynnar i'r math o ddadleuon a gaiff eu defnyddio i wrthwynebu'r dull hwn o weithredu? Gwn y bydd pobl yn dweud bod yn rhaid gwneud popeth ar sail teilyngdod. Ni chredaf fod hynny'n ddadl o gwbl, gan fy mod yn gwybod bod menywod mor alluog â dynion. Fodd bynnag, bydd y dadleuon hyn gael eu defnyddio. Felly, a ydych wedi ystyried y dadleuon hyn, a sut i fynd i'r afael â hwy? Rwyf hefyd am sôn am y ffaith bod y prosiect Merched yn Gwneud Gwahaniaeth wedi bod yn enghraifft ragorol o gefnogaeth.

A ydych wedi trafod â'r Gweinidog addysg y posibilrwydd o weithio gydag ysgolion a cholegau i annog a chefnogi menywod ifanc i gyfrannu at gymdeithas sifil? Gwyddom fod annog ymgysylltu yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn bwysig iawn o ran datblygu'r dalent, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar gyfer cymryd rhan lawn mewn cymdeithas sifil yn ddiweddarach mewn bywyd.

Jane Hutt: Diolch i Christine Chapman am y cwestiwn a oedd yn ymwneud â gwella ymgysylltiad a chyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o ran penodiadau cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â menywod. Rwyf yn sicr y bydd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddiddordeb hefyd yn y cyfle i ymgorffori hyn mewn addysg.

I would think that the schools councils provide an opportunity for young women, particularly as many of them are active in schools councils and youth fora, as many of us know. When I meet them or when they come to the Chamber from my constituency, I always say that I can see a budding politician to take my place, and it is often the young women who are the most articulate.

It is vital that we move forward and learn the lessons from the Women Making a Difference project. Its aim was to get more women involved in public life, and there were many successes, but it also recognised that it is the barriers, such as caring responsibilities, that prevent women from fully participating, not only in respect of public appointments, but in the Welsh economy. That takes us forward to look at the work that we are doing supporting women into careers in the STEM subjects—science, technology, engineering and mathematics—and our support for Chwarae Teg and the National Science Academy. The EHRC report, ‘Who Runs Wales? 2011’, which was updated this year, makes depressing reading: there are only two female chief executives in the top 50 companies in Wales and, although the number of women working in our schools far surpasses men, there are far more male than female headteachers in secondary schools. I was fortunate to attend the talk given in the Pierhead by Helen Clark a few weeks ago, hosted by the Presiding Officer, when she talked about the work that was done in New Zealand to set quotas for awarding public appointments to women. I am certainly going to follow that through as well.

Joyce Watson: I thank the Minister for her statement. I am proud to be a member of an institution wherein equality is enshrined, and of the Labour Party, which puts the commitment to equality at its core. As the Minister noted in her written statement on 30 March, the Welsh Government was the first administration in Britain to bring in equality duties to help public bodies to meet their

Byddwn yn meddwl bod cynghorau'r ysgolion yn rhoi cyfle i fenywod ifanc, yn enwedig gan fod nifer ohonynt yn weithredol mewn cynghorau ysgolion a fforymau pobl ifanc, fel y mae llawer ohonom yn gwybod. Pan fyddaf yn cwrdd â hwy neu pan fyddant yn dod i'r Siambr o fy etholaeth, byddaf bob amser yn dweud y gallaf weld egin wleidydd i gymryd fy lle, ac yn aml, y merched ifanc yw'r rhai mwyaf huawdl.

Mae'n hanfodol inni symud ymlaen a dysgu'r gwersi yn sgîl y prosiect Merched yn Gwneud Gwahaniaeth. Ei nod oedd cael mwy o fenywod i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, ac roedd nifer o lwyddiannau, ond bu iddo hefyd gydnabod bod rhwystrau, megis cyfrifoldebau gofalu, sy'n atal menywod rhag cymryd rhan lawn, nid yn unig o ran penodiadau cyhoeddus, ond yn economi Cymru. Mae hynny'n ein symud ymlaen i edrych ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i gefnogi menywod i ddilyn gyrfa yn y pynciau STEM—gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg—a'r gefnogaeth yr ydym yn ei rhoi i Chwarae Teg a'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ‘Pwy sy'n Rhedeg Cymru? 2011’, a gafodd ei ddiweddarau eleni, yn peri ichi ddigaloni wrth ichi ei ddarllen: dim ond dau o brif weithredwyr benywaidd sydd yn y 50 cwmni mwyaf llwyddiannus yng Nghymru ac, er bod nifer y menywod sy'n gweithio yn ein hysgolion yn uwch o lawer na nifer y dynion, mae llawer mwy o ddynion yn benaethiaid mewn ysgolion uwchradd. Roeddwn yn ffodus i fod yn bresennol i wrando ar araith Helen Clark yn y Pierhead ychydig wythnosau'n ôl, a gynhaliwyd gan y Llywydd, pan soniodd am y gwaith a wnaethpwyd yn Seland Newydd i osod cwtâu ar gyfer dyfarnu penodiadau cyhoeddus i fenywod. Rwy'n sicr yn mynd i ddilyn y ffordd honno hefyd.

Joyce Watson: Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Rwy'n falch o fod yn aelod o sefydliad lle y mae cydraddoldeb wedi'i ymgorffori, ac o'r Blaid Lafur, lle y mae'r ymrwymiad i gydraddoldeb yn ganolog i'w waith. Fel y nodwyd gan y Gweinidog yn ei datganiad ysgrifenedig ar 30 Mawrth, Llywodraeth Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf ym Mhrydain i gyflwyno

equality obligations. However, one public body that is manifestly falling short of meeting its equality duties is the UK Government. This is definitely a tale of two Governments: one protecting vulnerable people and one jeopardising them; one investing in a domestic abuse strategy and the other with its economic policies disproportionately hitting women, as evidenced by the latest economic data, and its proposals to reform legal aid risk jeopardising the safety of women suffering domestic violence. The fear expressed by an alliance of women's groups in a letter to the Secretary of State for Justice this week is that the reforms set out in the Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Bill will deny legal aid to tens of thousands of women in Wales and England who are trying to leave abusive partners.

In employment—or rather not in employment—the latest figures show that women are bearing the brunt of the job cuts. Alongside job losses, women in Wales are facing cuts to childcare support and rising living costs, all of which combine to make it more difficult for them to go out to work and support their families. As the only Government in Britain that has a statutory obligation to carry out equality impact assessments of all its policies, including the budget, does the Minister agree that the UK Government is failing in its duty to promote and further equality here in Wales? What more do you think this Government could do to support women who are being knocked by the policies coming from Westminster? The Public Administration Committee has today published a scathing report, describing the UK Government's—

The Deputy Presiding Officer: Order. I have allowed you a three-minute preamble. You need to focus on the questions relating to this statement, Joyce. The convention is that backbenchers focus specifically on their questions, although I do allow Members from

dyletswyddau cydraddoldeb i helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu dyletswyddau cydraddoldeb. Fodd bynnag, mae un corff cyhoeddus yn amlwg yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb, sef Llywodraeth y DU. Mae hyn yn bendant yn stori o ddwy Lywodraeth: y naill yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a'r llall yn eu peryglu; y naill yn buddsoddi mewn strategaeth trais yn y cartref a'r llall yn cyflwyno polisiau economaidd sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod, fel y mae'r data economaidd diweddaraf yn dangos, ac mae'n bosibl y bydd ei chynigion i ddiwygio cymorth cyfreithiol yn peryglu diogelwch menywod sy'n dioddef trais yn y cartref. Mewn llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yr wythnos hon, mynegodd cynghrair o grwpiau menywod eu hofn y bydd y diwygiadau a nodir yn y Bil Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r yn peri na fydd cymorth cyfreithiol ar gael i ddegau o filoedd o fenywod yng Nghymru a Lloegr sy'n ceisio gadael partneriaid sy'n eu cam-drin.

O ran cyflogaeth—neu yn hytrach diffyg cyflogaeth—mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai menywod sy'n dioddef fwyaf o ganlyniad i dorri swyddi. Yn ogystal â cholli swyddi, mae menywod yng Nghymru yn wynebu toriadau mewn cymorth gofal plant a chynnydd yng nghostau byw, sydd yn ei gwneud yn fwy anodd iddynt fynd allan i weithio a chefnogi eu teuluoedd. Fel yr unig Lywodraeth ym Mhrydain sydd â rhwymedigaeth statudol i gynnal asesiad o effaith ei holl bolisiau ar gydraddoldeb, gan gynnwys y gyllideb, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod Llywodraeth y DU yn methu â chyflawni ei dyletswydd i hyrwyddo ac ymestyn cydraddoldeb yng Nghymru? Beth yn rhagor y gallai'r Llywodraeth hon ei wneud i gefnogi menywod y mae'r polisiau sy'n dod o San Steffan yn rhoi ergyd iddynt? Heddiw, mae'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi cyhoeddi adroddiad deifiol, sy'n disgrifio Llywodraeth y DU—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Rwyf wedi caniatáu ichi wneud rhagarweiniad o dair munud. Mae angen ichi ganolbwyntio ar y cwestiynau sy'n ymwneud â'r datganiad hwn, Joyce. Y confensiwn yw bod Aelodau ar y meinciau cefn yn canolbwyntio'n benodol ar

the opposition parties a bit more time.

Joyce Watson: Thank you. I have asked two questions. My final question will be this: is it not time that the Tory-led UK Government adopted the Wales approach and stopped the equality rot?

Jane Hutt: I thank Joyce Watson for her questions. On the difference in Wales, with our taking the provisions of the Equality Act 2010 seriously, it is worth repeating that we were the first part of Great Britain to pass regulations to create specific duties under the Act, and public sector bodies in Wales, including the Welsh Government, have a statutory duty to publish their equality objectives by 2 April and to develop a strategic equality plan, which forms the basis of this statement today. We are the only Government in Great Britain that has that statutory duty to carry out equality impact assessments. I said in my statement that I felt it only right and proper that we have the opportunity at long last to deliver on the Equality Act's provisions, which bring together the body of equality law. That then gives us a more comprehensive opportunity to deliver but it also gives us a duty to monitor the delivery of equality objectives.

The challenges that people face in respect of the protected characteristics have been exacerbated by the policies of the UK Government. That relates to the comments that you made about the impact of the legal aid Bill now going through Westminster. I am also glad that the National Federation of Women's Institutes joined with Mumsnet to point out their concern about its impact on domestic violence and on women facing violence. We also recognise the major impact of welfare reforms, and the Minister for education, in his statement earlier this year, identified the adverse impacts not only of the spending review, but of welfare reform on the poorest households with children. That is why we are linking this to the anti-poverty action strategy of the Welsh Government. It will be a major tool for us to mitigate the

eu cwestiynau, er fy mod yn caniatáu i Aelodau o'r gwrthbleidiau ychydig mwy o amser.

Joyce Watson: Diolch. Rwyf wedi gofyn dau gwestiwn. Fy nghwestiwn olaf yw: onid yw'n bryd i Lywodraeth y DU a arweinir gan y Torïaid fabwysiadu dull Cymru ac atal y pydredd o ran cydraddoldeb?

Jane Hutt: Diolch i Joyce Watson am ei chwestiynau. O ran y gwahaniaeth yng Nghymru, a'r ffaith ein bod yn cymryd darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 o ddifrif, mae'n werth ailadrodd mai ni oedd y rhan gyntaf o Brydain Fawr i basio rheoliadau i greu dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf, ac mae gan gyrrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddyletswydd statudol i gyhoeddi eu hamcanion cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill ac i ddatblygu cynllun cydraddoldeb strategol, sy'n sail i'r datganiad hwn heddiw. Ni yw'r unig Lywodraeth ym Mhrydain Fawr sydd â'r ddyletswydd statudol honno i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Dywedais yn fy natganiad fy mod yn teimlo ei bod yn hollol briodol inni gael y cyfle o'r diwedd i gyflawni darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n dwyn cyfraith cydraddoldeb ynghyd. Mae hynny wedyn yn rhoi cyfle mwy cynhwysfawr inni gyflawni, ond mae hefyd yn rhoi dyletswydd arnom i fonitro a yw'r amcanion cydraddoldeb yn cael eu gweithredu.

Mae'r heriau sy'n wynebu pobl o ran y nodweddion gwarchoddedig wedi gwaethygu o ganlyniad i bolisiau Llywodraeth y DU. Mae hynny'n ymwneud â'r sylwadau a wnaethoch ynghylch effeithiau'r Bil cymorth cyfreithiol sydd yn mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd. Rwyf hefyd yn falch bod Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched wedi ymuno â Mumsnet i dynnu sylw at eu pryder ynghylch ei effaith ar drais yn y cartref ac ar fenywod sy'n wynebu trais. Rydym hefyd yn cydnabod effaith fawr diwygiadau lles, ac yn ei ddatganiad yn gynharach eleni, bu i'r Gweinidog addysg nodi effeithiau andwyol nid yn unig yr adolygiad o wariant, ond diwygio lles ar yr aelwydydd tlotaf sydd â phlant. Dyna pam yr ydym yn cysylltu hyn â strategaeth weithredu gwrth-dlodi Llywodraeth Cymru. Bydd yn

impacts of the policies of the UK Government.

offeryn pwysig i ni i liniaru effeithiau polisiau Llywodraeth y DU.

Datganiad: Cyflwyno Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)
Statement: Introduction of the School Standards and Organisation (Wales) Bill

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): Yesterday, I laid the School Standards and Organisation (Wales) Bill, together with an explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. Today, I am pleased to introduce the Bill for Assembly Members' consideration.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Ddoe, gosodais Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), ynghyd â memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Heddiw, rwy'n falch o gael cyflwyno'r Bil er mwyn i Aelodau'r Cynulliad ei ystyried.

We have placed great emphasis on education in our manifesto commitments and in our programme for government. Our objective is that all our children and young people have the best chances in life. That is at the heart of this Welsh Government's vision for Wales. The proposals within this Bill will strengthen school standards, enhance local determination and reduce complexity. The Bill will consolidate, rationalise and reform the current law on intervention in schools that are causing concern, providing much-needed clarity to local authorities. Where a school is giving cause for concern, it is the local authority that is best placed to intervene. It is therefore essential that authorities are clear about their powers of intervention and those of the Welsh Ministers, to ensure that they are used decisively and effectively to bring about an early and effective intervention, where it is required. A new power for the Welsh Ministers to issue statutory guidance on schools causing concern will be instrumental in achieving this early and effective intervention.

Rydym wedi gosod pwyslais mawr ar addysg yn ein hymrwymiaidau maniffesto ac yn ein rhaglen lywodraethu. Ein nod yw sicrhau bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd. Mae hynny wrth wraidd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Bydd y cynigion yn y Bil hwn yn cryfhau safonau ysgolion, yn gwella penderfyniadau lleol ac yn lleihau cymhlethdod. Bydd y Bil yn cydgrynhoi, yn rhesymoli ac yn diwygio'r gyfraith bresennol ar ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder, gan ddarparu eglurder angenrheidiol i awdurdodau lleol. Pan fydd ysgol yn achosi pryder, yr awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i ymyrryd. Felly, mae'n hanfodol bod awdurdodau yn glir ynghylch eu pwerau o ran ymyrryd a phwerau Gweinidogion Cymru, i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn bendant ac yn effeithiol i sicrhau ymyrraeth gynnar ac effeithiol, lle y bydd ei hangen. Bydd pŵer newydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar ysgolion sy'n peri pryder yn allweddol wrth gyflawni'r ymyrraeth gynnar ac effeithiol hon.

The Bill will also provide the Welsh Ministers with the power to issue statutory school improvement guidance to local authorities, governing bodies and headteachers, with the aim of delivering school improvement across Wales. Good practice is not currently applied consistently across all schools in Wales. The guidance will be drafted in partnership with serving practitioners and will be subject to full consultation. It will set out the best practice currently available, which schools will be

Bydd y Bil hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar wella ysgolion ar gyfer awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid, gyda'r nod o wella ysgolion ar draws Cymru. Nid yw arferion da'n cael eu gweithredu yn gyson ar draws pob ysgol yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd y canllawiau'n cael eu drafftio mewn partneriaeth ag ymarferwyr a bydd yn destun ymgynghoriad llawn. Bydd yn cyflwyno'r arferion gorau ar hyn o bryd, a bydd disgwyl i ysgolion

expected to implement, to ensure that the most effective practice becomes the norm. As a result, all learners will benefit from the most effective teaching methods to help them to achieve their potential.

An effective process for school organisation is vital if we are to achieve our goals of creating a system of twenty-first century schools, maximising learning opportunities for our children, and improving the quality of provision. I said in June 2010 that I believed that these decisions were best taken locally and that fewer should come to Ministers for determination.

The Bill will also significantly streamline arrangements, including those for the closure of schools with few or no pupils, thus reducing the long period of uncertainty that pupils and parents currently experience. It will also enable the creation of a statutory school organisation code, providing a much more robust framework for consultation and inspiring greater trust and confidence among all those who have an interest.

The Bill will build on the current system of non-statutory Welsh in Education Strategic Plans introduced for 2012-13 by placing a duty on local authorities to prepare, consult on and publish a Welsh in Education Strategic Plan that will be submitted for the approval of, and monitoring by, Welsh Ministers. Each plan must contain the local authority's proposals and targets for how it will meet parental demand for Welsh-medium education, and for improving the standards and teaching of Welsh-medium and Welsh-language education in its area. Local authorities will be required to update their plans and report on progress made against agreed targets on an annual basis. In addition, the Bill provides a power for the Welsh Ministers to set out how, and in what circumstances, a local authority may be required to carry out an assessment of the demand among parents in its area for Welsh-medium education.

I am committed to ensuring that governing

weithredu hyn, er mwyn sicrhau bod yr arfer mwyaf effeithiol yn dod yn norm. O ganlyniad, bydd pob dysgwr yn elwa o'r dulliau addysgu mwyaf effeithiol i'w helpu i gyflawni eu potensial.

Mae proses effeithiol ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn hanfodol os ydym i gyflawni ein nodau o greu system o ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gwneud y mwyaf o gyfleoedd dysgu ar gyfer ein plant, a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Dywedais ym mis Mehefin 2010 fy mod yn credu ei bod yn well bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn lleol ac y dylai llai o benderfyniadau cael eu gwneud gan Weinidogion.

Bydd y Bil hefyd yn symleiddio trefniadau yn sylweddol, gan gynnwys y rhai ar gyfer cau ysgolion sydd ag ychydig neu ddim disgyblion, a thrwy hynny yn lleihau'r cyfnod hir o ansicrwydd y mae disgyblion a rhieni'n ei wynebu ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn galluogi creu cod statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion, gan ddarparu fframwaith llawer mwy cadarn ar gyfer ymgynghori ac ennyn mwy o ymddiriedaeth a hyder ymysg pawb sydd â diddordeb.

Bydd y Bil yn adeiladu ar y system bresennol o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg anstatudol a gyflwynwyd ar gyfer 2012-13 drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg—cynllun y bydd ymgynghori arnoa fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo a'i fonitro gan Weinidogion Cymru. Rhaid i bob cynllun gynnwys cynigion yr awdurdod lleol a thargedau ar gyfer sut y bydd yn ateb galw rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg, ac ar gyfer gwella safonau a dysgu o ran addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn ei ardal. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiweddarau eu cynlluniau ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran y targedau y bydd cytuno arnynt. Yn ogystal, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru nodi sut, ac ym mha amgylchiadau, y bydd yn rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ymysg rhieni yn ei ardal.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod cyrff

bodies remain accountable to parents, who are major stakeholders in the school community, through the annual parents meeting. Parents have a clear and strong interest in their child's education, and it is vital that parents have the right to have a say in how a school develops, and to have access to and engage with the governing body. It is just as important that these meetings be timely and sought after by parents. As it stands, it is clear that the current system does not provide an efficient use of parents' or governors' time. The Bill removes a statutory requirement for annual meetings that are often not needed, and replaces it with a new right for parents to engage with school governors at the appropriate time.

I want schools and local authorities to have greater flexibility over charging for school meals. That flexibility for local authorities over the price of school meals could be used to help the children of families on low incomes not eligible for free school meals, or to provide targeted assistance to increase the take-up of school meals. Currently, there is no cap on how much a pupil can be charged. This proposed change will also prevent schools and local authorities from charging more than the cost of providing a meal or drink to pupils. This change in policy complements wider policy developments such as 'Appetite for Life', the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 and the child poverty strategy.

I want to stress that this change will not affect those pupils eligible for free school meals and free milk. The use of flexible charging is entirely optional and will involve a local decision to subsidise meals during the offer period.

In line with my commitment to reduce bureaucracy, the Bill makes provision to support the transfer of two specific grants to the revenue support grant. Those grants relate to the primary schools free breakfast initiative and school-based counselling services, both of which have been operating for several years. The Bill will place duties upon local authorities to provide, or continue

llywodraethu yn dal i fod yn atebol i rieni, sy'n rhanddeiliaid pwysig yng nghymuned yr ysgol, drwy'r cyfarfod rhieni blynyddol. Mae gan rieni ddiddordeb clir a chryf yn addysg eu plant, ac mae'n hanfodol bod gan rieni yr hawl i leisio barn ynglŷn â sut y mae ysgol yn datblygu, ac i gael mynediad at y corff llywodraethu ac ymgysylltu ag ef. Mae yr un mor bwysig bod y cyfarfodydd hyn yn amserol a bod rhieni yn dymuno eu cynnal. Ar hyn o bryd, mae'n amlwg nad yw'r system bresennol yn darparu ffordd effeithlon o ddefnyddio amser rhieni na'r llywodraethwyr. Mae'r Bil yn dileu'r gofyniad statudol i gynnal cyfarfodydd blynyddol sydd yn aml yn ddiangen, ac yn rhoi yn ei le hawl newydd i rieni ymgysylltu â llywodraethwyr ysgolion ar yr adeg briodol.

Rwyf am i ysgolion ac awdurdodau lleol gael mwy o hyblygrwydd ynghylch codi tâl am brydau ysgol. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r hyblygrwydd hwnnw o ran pris cinio ysgol i helpu'r plant o deuluoedd ar incwm isel nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu i dargedu cymorth i gynyddu'r nifer sy'n bwyta prydau ysgol. Ar hyn o bryd, nid yw'r pris y gall disgybl ei dalu wedi'i gapio. Bydd y newid arfaethedig hwn hefyd yn atal ysgolion ac awdurdodau lleol rhag codi tâl sy'n fwy na'r gost o ddarparu pryd o fwyd neu ddiod i ddisgyblion. Mae'r newid hwn mewn polisi yn ategu datblygiadau polisi ehangach fel 'Blas am Oes', y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a'r strategaeth tloidi plant.

Rwyf am bwysleisio na fydd y newid hwn yn effeithio ar y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a llaeth am ddim. Mae'r hyblygrwydd o ran codi tâl yn gwbl ddewisol a bydd yn golygu penderfyniad lleol i roi cymhorthdal ar gyfer prydau bwyd yn ystod cyfnod y cynnig.

Yn unol â'm hymrwymiad i leihau biwrocratiaeth, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i gefnogi trosglwyddo dau grant penodol i'r grant cynnal refeniw. Mae'r grantiau hynny'n ymwneud â menter brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd a gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, sydd wedi bod yn gweithredu ers sawl blwyddyn. Bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ar

to provide, primary school free breakfasts and school-based counselling on transfer of the specific grant funding to the RSG. The transfer will give local authorities the flexibility to establish the level of need, make decisions based on local knowledge and circumstances, and manage funding at local levels.

As I have already said, it is paramount that our education system in Wales be strengthened and bureaucracy reduced. I therefore commend this Bill to the National Assembly for Wales for approval.

Angela Burns: Minister, I welcome the overall aims and principles of this first Bill from the Welsh Government. Well done, you. I say here and now that I will work with you directly and through committees to ensure that it is the best that it can be, because our schools and children deserve no less. There is much to go through in this Bill, as we can all see, and it needs thorough consideration, so all that I will do now is give it a quick, high-level pass. Therefore, I just wish to make a few comments, with the indulgence of the Deputy Presiding Officer.

First, with regard to intervention in schools causing concern, I understand totally your drive on that issue. We cannot carry on with the current situation and, as you say, regarding the purpose and intended effect of the legislation, there is systemic failure in some schools. Both Estyn and the WLGA point out a reluctance by local authorities to use existing powers to intervene in schools. I am sceptical about that, Minister, because these are the same local authorities that will leap to consult a Queen's counsel over many other issues, but apparently not to clarify an intervention process.

4.00 p.m.

Therefore, while I understand entirely your drive here, I want to ask you to ensure that we do not substitute their responsibility for intervening and improving those schools by you sidestepping them and having to do it

awdurdodau lleol i ddarparu, neu barhau i ddarparu, brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a chwmsela mewn ysgolion wedi i'r arian grant penodol gael ei drosglwyddo i'r grant cynnal refeniw. Bydd y trosglwyddiad yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol i asesu lefel yr angen, gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth ac amgylchiadau lleol, a rheoli cyllid ar lefelau lleol.

Fel yr wyf wedi dweud eisoes, mae'n hollbwysig bod ein system addysg yng Nghymru yn cael ei chryfhau a bod llai o fiwrocratiaeth. Felly, cymeradwyaf y Bil hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gymeradwyo.

Angela Burns: Weinidog, rwy'n croesawu nodau ac egwyddorion cyffredinol y Bil cyntaf hwn gan Lywodraeth Cymru. Da iawn chi. Gallaf ddweud wrthyf yn awr y byddaf yn gweithio gyda chi yn uniongyrchol a thrwy bwyllgorau i sicrhau ei fod mor dda ag y gall fod, oherwydd mae ein hysgolion a'n plant yn haeddu hynny. Mae llawer i'w ddarllen yn y Bil hwn, fel y gallwn ni i gyd weld, ac mae angen ystyriaeth drylwyr, felly yr unig beth a wnaif yn awr yw ei basio gyda marc uchel. Felly, hoffwn wneud ychydig o sylwadau, gyda chaniatâd y Dirprwy Lywydd.

Yn gyntaf, o ran ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder, rwy'n deall yn llwyr eich ymateb i'r mater hwnnw. Ni allwn barhau â'r sefyllfa bresennol ac, fel y dywedwch, ynghylch pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth, mae methiant systemig mewn rhai ysgolion. Mae Estyn a CLILC wedi tynnu sylw at amharodrwydd awdurdodau lleol i ddefnyddio'u pwerau presennol i ymyrryd mewn ysgolion. Rwy'n amheus am hynny, Weinidog, oherwydd dyma'r awdurdodau lleol a fydd yn rhuthro i ymgynghori â chwmsler y Frenhines ynglŷn â llawer o faterion eraill, ond nid, mae'n debyg, i egluro'r broses ymyrraeth.

Felly, er fy mod yn deall yn llwyr beth sydd wrth wraidd eich sylwadau, hoffwn ofyn ichi sicrhau nad ydym yn mynd â'u cyfrifoldeb dros ymyrryd a gwella'r ysgolion hynny oddi arnynt, a chithau'n gorfod ei wneud eich hun.

yourself. They are, after all, democratically elected, and if they get it wrong, their local people need to know so that they can do something about it. It is a great shame that you will have to put this into a piece of legislation because they have chosen not to understand previous guidance. If that previous guidance was difficult or tricky, then, as I said earlier, they could have gone to Queen's counsel and they could have done all sorts of things to sort it out. I know that you have put an awful lot of store by what Estyn and the WLGA have said, but I want to ensure that local authorities are not let off the hook on this.

I note your comment in section 3.15 of the explanatory memorandum that you would seek to ensure that they do what they are there for. However, I want to see this intention absolutely translated into the body of the Bill. This is about management and they need to understand that.

On how Welsh Ministers will determine whether a school is performing poorly or not, you will not be surprised to hear me say that I am uncomfortable that the banding system will play such a crucial role in the performance analysis. There are 12 areas of measurement, and we have run many models that show that just 1% or 0.5% over those 12 criteria can make an enormous difference to where a school will be. I am therefore concerned about that and seek your reassurance that you will look at a wide variety of performance measures. The issue with banding is that it sometimes flattens it all out and makes it a one-size-fits-all and it does not look at some of the more unique aspects of schools, such as where performance is stellar in one particular area or where a school is performing against a horrendously difficult backdrop.

In relation to school improvement guidance, section 3.31 of the explanatory memorandum states that Welsh Ministers do not currently have the power

Maent, wedi'r cyfan, wedi'u hethol yn ddemocrataidd, ac os ydynt yn gwneud camgymeriad, rhaid rhoi gwybod i'r bobl leol er mwyn iddynt allu gwneud rhywbeth amdano. Mae'n drueni mawr y bydd yn rhaid i chi roi hyn mewn darn o ddeddfwriaeth oherwydd eu bod wedi dewis peidio â deall canllawiau blaenorol. Os oedd y canllawiau blaenorol yn anodd, yna, fel y dywedais yn gynharach, gallent fod wedi mynd at gwmsler y Frenhines a gallent fod wedi gwneud pob math o bethau i ddatrys y broblem. Gwn eich bod wedi gweld gwerth mawr yn yr hyn y mae Estyn a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i ddweud, ond rwyf am sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu dwyn i gyfrif am hyn.

Nodaf eich sylw yn adran 3.15 o'r memorandwm esboniadol y byddech yn ceisio sicrhau eu bod yn gwneud yr hyn y mae disgwyl iddynt ei wneud. Fodd bynnag, hoffwn weld y bwriad hwn yn cael ei drosglwyddo'n llwyr i gorff y Bil. Mae hyn yn ymwneud â rheoli ac mae angen iddynt ideall hynny.

O ran sut y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw ysgol yn perfformio'n wael ai peidio, ni fydd yn syndod i chi fy nghlywed yn dweud fy mod yn teimlo'n anghyfforddus y bydd y system fandio'n chwarae rhan mor hanfodol yn y dadansoddiad o'r perfformiad. Mae 12 o feysydd a fydd yn cael eu mesur, ac rydym wedi cynnal nifer o fodolau sy'n dangos y gall dim ond 1% neu 0.5% dros y 12 maen prawf hynny wneud gwahaniaeth enfawr i ble y bydd ysgol. Felly, rwy'n pryderu am hynny ac am i chi fy sicrhau y byddwch yn edrych ar amrywiaeth eang o fesurau perfformiad. Y drafferth gyda band yw ei fod weithiau'n gwastadu popeth ac yn ei wneud yn un ateb i bawb ac nid yw'n edrych ar rai o agweddau mwyaf unigryw ysgolion, megis lle y mae'r perfformiad yn rhagorol dros ben mewn un maes penodol neu lle y mae ysgol yn perfformio yn erbyn cefndir ofnadwy o anodd.

Mewn perthynas â chanllawiau gwella ysgolion, yn ôl adran 3.31 o'r memorandwm esboniadol nid oes gan Weinidogion Cymru y pŵer ar hyn o bryd

‘to direct the specific practice or techniques’.

Will you confirm whether or not this is just in poor performing schools, or whether you see that as Wales-wide school improvement guidance? I am concerned that we will end up with an education methodology that ends up being written by civil servants or policy wonks, no matter how brilliant they are. What I would like to see is that there is no taking away from teachers and the profession the ability for them to introduce new methodology—and we have seen it work successfully with elements of the foundation phase, for example—so that academics are not given the elbow room to really develop new thinking about how we can teach our children and it is all run from a central viewpoint.

In relation to school organisation, I totally agree with your commentary that the practice of one objector, particularly one with no direct interest, being able to bounce a proposal to Welsh Ministers must stop. However, I will be seeking to introduce safeguards, such as where proposers have really done their homework, so that certain groups are not being unfairly disadvantaged, and that elements such as rurality or the delivery of the 14-19 learning pathways in regard to sixth forms, for example, have really been considered. I would like to see safeguards being built in there.

In relation to Welsh in education strategic plans, I wonder whether the Minister could clarify the following: if a Welsh Minister rejects the plan, as laid out in 3.76, who is it incumbent upon to prepare a second one? Would it be the Welsh Minister or the local authority? That comes back to my earlier point about getting the local authorities and consortia to do their jobs properly, rather than Welsh Ministers and the Welsh Government having to step around them in order to achieve the objective. These guys must step up to the plate and ensure that that happens.

I have two more points. The first is on flexible charging for school meals. I note—and I mentioned this to you when I met in our

‘i roi cyfarwyddyd ynghylch yr arferion neu’r technegau penodol’.

A wnewch gadarnhau a yw hyn ar gyfer ysgolion sy’n perfformio’n wael yn unig, neu a ydych yn gweld hynny fel canllawiau gwella ysgolion ar gyfer Cymru gyfan? Rwy’n pryderu y bydd gennym fethodoleg addysg yn y pen draw a gaiff ei hysgrifennu gan weision sifil neu arbenigwyr polisi, waeth pa mor wych ydynt. Yr hyn yr hoffwn ei weld yw nad yw’r athrawon a’r proffesiwn yn colli’r gallu i gyflwyno methodoleg newydd—ac rydym wedi ei weld yn gweithio’n llwyddiannus gydag elfennau o’r cyfnod sylfaen, er enghraifft—fel na chaiff academyddion gyfle i ddatblygu’n iawn ffordd newydd o feddwl am sut y gallwn addysgu ein plant a’i fod yn cael ei redeg o un safbwynt canolog.

Mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion, rwy’n cytuno’n llwyr â’ch sylwadau bod yn rhaid i’r arfer y gall un gwrthwynebydd, yn enwedig un heb ddim ddiddordeb uniongyrchol, gynnig awgrym i Weinidogion Cymru ddod i ben. Fodd bynnag, byddaf yn ceisio cyflwyno mesurau diogelu, megis lle y mae cynigwyr wedi gwneud eu gwaith cartref o ddifrif, fel nad yw rhai grwpiau o dan anfantais annheg, a bod elfennau megis natur wledig neu gyflwyno llwybrau dysgu 14-19 mewn perthynas â’r chweched dosbarth, er enghraifft, wedi cael eu hystyried o ddifrif. Hoffwn weld mesurau diogelu’n cael eu cynnwys.

O ran y Gymraeg mewn cynlluniau strategol addysg, tybed a allai’r Gweinidog egluro’r canlynol: os bydd un o Weinidogion Cymru yn gwrthod y cynllun, fel y nodir yn 3.76, dyletswydd pwy yw paratoi ail un? Ai Gweinidog Cymru ynteu’r awdurdod lleol? Daw hynny â ni yn ôl at fy mhwynt cynharach ynghylch cael y consortia a’r awdurdodau lleol i wneud eu gwaith yn iawn, yn hytrach na bod Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru yn gorfod camu heibio iddynt er mwyn cyflawni’r amcan. Mae’n rhaid i’r bobl hyn gymryd y cyfrifoldeb a sicrhau bod hynny’n digwydd.

Mae gen i ddau bwynt arall. Mae’r cyntaf yn ymwneud â chodi tâl hyblyg am brydau ysgol. Sylwaf—a soniais wrthy ch am hyn

briefing session, for which I am most grateful—that in section 7.77 of the regulatory impact assessment you provide more detail on the capping system. However, again, I would like to have that absolutely translated across to the Bill. Although I reviewed everything else, there were some elements of the Bill that I did not get a chance to get through last night, because sleep intervened. [*Laughter.*] It is shocking, I know.

Finally, there are many variables in the cost-benefit analysis. I wonder if you could give an overview of the money that we will need to find to promote this new Bill, all things being equal. There are many great things in the Bill; I thank you very much for it. We want to make it the best that it can be. You have our support, Minister, but that will not stop me from asking you as many awkward questions as I possibly can.

Leighton Andrews: Deputy Presiding Officer, I thank the Conservative spokesperson for welcoming the Bill in general terms and for her acknowledgement of the technical briefing that we were able to facilitate for her earlier on. I agree with her on the issue of local authority intervention; I certainly do not want the default position to be that Welsh Ministers are those who are carrying out the interventions. That is not the objective of these provisions. We are seeking to recognise the current position, whereby local authorities are not making full use of the options open to them for schools that require intervention, as she acknowledged. There has been reluctance, for example, to issue warning notices. We are trying to bring together the different powers that exist under different pieces of legislation so that they are, essentially, codified in a single piece of legislation. We are also trying to give greater clarity through the guidance to local authorities so that they know when they should be intervening. There may be circumstances in which Welsh Ministers should intervene; I would hope that they would be rare, and that would be the objective. However, my view is that early intervention by local authorities, where they identify the possibilities of schools chasing specific problems, is better. Early intervention should, in my view, result in less

pan gyfarfûm yn ein sesiwn friffio, yr wyf yn ddiolchgar amdani—eich bod yn rhoi mwy o fanylion am y system gapio yn adran 7.77 yr asesiad effaith rheoleiddiol. Fodd bynnag, hoffwn, unwaith eto, i hynny gael ei drosglwyddo'n gyfan gwbl i'r Bil. Er fy mod wedi adolygu popeth arall, roedd rhai elfennau o'r Bil na chefais gyfle i edrych drwyddynt neithiwr, oherwydd daeth cwsg i ymyrryd. [*Chwerthin.*] Mae'n frawychus, fe wn.

Yn olaf, mae llawer o newidynnau yn y dadansoddiad cost a budd. Tybed a allech roi trosolwg o'r arian y bydd ei angen arnom i hyrwyddo'r Bil newydd hwn, os yw popeth yr un peth? Mae llawer o bethau gwych yn y Bil; diolch yn fawr ichi amdano. Rydym am ei wneud y gorau y gall fod. Rydym yn rhoi cefnogaeth ichi, Weinidog, ond ni fydd hynny yn fy rhwystro rhag gofyn cynifer ag y gallaf o gwestiynau anodd ichi.

Leighton Andrews: Ddirprwy Lywydd, hoffwn ddiolch i lefarydd y Ceidwadwyr am groesawu'r Bil yn gyffredinol ac am gydnabod y briff technegol y llwyddwyd i'w drefnu iddi yn gynharach. Rwy'n cytuno â hi o ran ymyrraeth awdurdod lleol; rwy'n sicr nad wyf am i'r sefyllfa olygu mai Gweinidogion Cymru fydd yn cynnal yr ymyriadau os aiff rhywbeth o'i le. Nid dyna nod y darpariaethau hyn. Rydym yn ceisio cydnabod y sefyllfa bresennol, lle nad yw awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd llawn o'r opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer ysgolion y mae angen ymyrraeth arnynt, fel y gwnaeth hi gydnabod. Bu amharodrwydd, er enghraifft, i gyhoeddi hysbysiadau rhybudd. Rydym yn ceisio dwyn ynghyd y gwahanol bwerau sy'n bodoli o dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth fel eu bod, yn y bôn, yn cael eu rhoi o dan un gyfundrefn mewn un darn o ddeddfwriaeth. Rydym hefyd yn ceisio rhoi mwy o eglurder drwy'r canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn iddynt wybod pryd y dylent fod yn ymyrryd. Efallai y bydd amgylchiadau lle y dylai Gweinidogion Cymru ymyrryd; ar adegau prin, gobeithio, a dyna fyddai'r nod. Fodd bynnag, yn fy marn i byddai ymyrraeth gynnar gan awdurdodau lleol, lle y maent yn canfod y posibilrwydd bod ysgolion yn mynd ar drywydd problemau penodol, yn well. Dylai ymyrraeth gynnar, yn fy marn i, arwain at ymyrraeth lai llym.

drastic intervention. We are certainly not, therefore, letting local government off the hook.

Turning to the ways that we will judge performance, it is not just a question of looking at the banding. I think that banding is important, and I do not agree with the Member's categorisation of the banding regime. However, we will also be looking at Estyn reports and will be expecting local authorities to look in detail at the performance of their schools with rather more scrutiny than in recent years, perhaps, until we established our school standards unit.

In respect of school improvement guidance, our objective is to ensure an understanding across the whole of Wales of the best practice that exists in parts of Wales. We have held a number of events recently that have looked at good practice and have given examples of a variety of forms of good practice, both in the classroom and in the administration of schools. We want to encourage teachers to develop new methodologies and ways of teaching and ensure that that experience is shared with others. However, where there is good practice that is delivering results, it is important that people pay attention to that.

On school organisation, I am delighted that she shares my view that one objector should not be able to trigger a reference to Welsh Ministers. As she will understand, we are trying to take Welsh Ministers out of the picture in respect of the bulk of school organisation proposals. There will now be local determination of those proposals. However, for post-16 education, because there are issues regarding the relationship between sixth forms and other forms of post-16 education, it is important and right that Welsh Ministers retain the right to intervene. By providing statutory guidance on this in the way that we are proposing, it will be clearer that proposers have to go through, as she says, a proper process of making an assessment of school closure proposals.

In respect of the Welsh education strategic plans, should a plan be rejected, I would expect a local authority to carry out the redrafting of the plan. It is important that they

Mae'n sicr, felly, nad ydym yn rhyddhau llywodraeth leol o'i chyfrifoldebau.

A throi at y ffyrdd y byddwn yn barnu perfformiad, nid dim ond mater o edrych ar y bandio ydyw. Credaf fod y bandio'n bwysig, ac nid wyf yn cytuno â disgrifiad yr Aelod o'r drefn fandio. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn edrych ar adroddiadau Estyn a byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol edrych yn fanwl ar berfformiad eu hysgolion gan graffu ychydig yn fwy nag yn y blynyddoedd diwethaf, efallai, nes y byddwn wedi sefydlu ein huned safonau ysgol.

O ran canllawiau gwella ysgolion, ein nod yw sicrhau dealltwriaeth ar draws Cymru gyfan o'r arferion gorau sy'n bodoli mewn rhannau o Gymru. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau yn ddiweddar sydd wedi ystyried arferion da ac wedi rhoi enghreifftiau o amrywiaeth o fathau o arferion da, yn yr ystafell ddosbarth ac wrth weinyddu ysgolion. Rydym am annog athrawon i ddatblygu methodolegau newydd a ffyrdd newydd o addysgu a sicrhau y caiff y profiad hwnnw ei rannu ag eraill. Fodd bynnag, lle y mae arferion da'n sicrhau canlyniadau, mae'n bwysig bod pobl yn rhoi sylw i hynny.

O ran trefniadaeth ysgolion, rwy'n falch iawn ei bod yn cyd-fynd â mi na ddylai un gwrthwynebydd allu sbarduno cyfeiriad at Weinidogion Cymru. Fel y mae'n gwybod, rydym yn ceisio tynnu Gweinidogion Cymru allan o'r sefyllfa o ran y rhan fwyaf o gynigion trefniadaeth ysgolion. Penderfyniad lleol fydd y cynigion hynny bellach. Fodd bynnag, o ran addysg ôl-16, gan fod materion yn ymwneud â'r berthynas rhwng y chweched dosbarth a mathau eraill o addysg ôl-16, mae'n bwysig ac yn iawn fod Gweinidogion Cymru yn cadw'r hawl i ymyrryd. Drwy ddarparu canllawiau statudol ar hyn yn y ffordd yr ydym yn ei chynnig, bydd yn gliriach bod rhaid i gynigwyr, fel mae'n dweud, fynd drwy'r broses briodol o wneud asesiad o'r cynigion i gau ysgol.

O ran y cynlluniau strategol addysg Gymraeg, pe câi cynllun ei wrthod, byddwn yn disgwyl i awdurdod lleol ailddrafftio'r cynllun. Mae'n bwysig bod ganddynt

have ownership on the ground of what they are doing in respect of Welsh-medium education, and that is certainly what we would expect.

In respect of the issues regarding school meals, the regulatory impact assessment and the cost-benefit analysis, these are matters that I suspect that we will discuss in more detail in committee; perhaps that would be the appropriate place to leave those considerations.

Simon Thomas: Dechreuaf drwy groesawu'r datganiad a'r cyhoeddiad ar y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). Dyma'r Bil swmpus cyntaf gan y Llywodraeth—yr un pwysicaf a'r un y byddwn, fel Senedd newydd, yn torri ein dannedd arno, yn seneddwyr a deddfwyr. Rwy'n edrych ymlaen at roi'r broses honno ar waith gyda phawb sydd yma, ac â'r Gweinidog yn benodol.

Mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli'r cyfrifoldeb sydd gennym, oherwydd ym maes addysg mae bron y cyfan wedi ei ddatganoli, ac rydym felly'n gyfrifol am feysydd polisi a deddfu sy'n effeithio ar gyrhaeddiad ein plant. Felly, mae'n hynod bwysig ein bod yn cael y Biliau a'r Deddfau'n iawn, a bod y Llywodraeth yn cael y polisi'n iawn, gyda chraffu priodol gan y gwrthbleidiau.

Mae'n wir dweud na fydd y Llywodraeth hon yn gallu pasio'r un Bil oni bai bod ganddi gefnogaeth o leiaf un o'r gwrthbleidiau. Rydym ni'n sicr yn barod i gefnogi'r Bil hwn, ar y sail ein bod yn gweld trafodaeth ar rai o'r pwyntiau sydd wedi codi eisoes. Byddaf yn awr yn codi ambell bwynt gyda'r Gweinidog er mwyn craffu ar y Bil a sicrhau ein bod yn deddfu yn y modd gorau posibl.

Mae dwy thema sy'n rhedeg drwy'r Bil y dylem fod yn wylidwrus yn eu cylch. Yn gyntaf, a ydym yn rhoi'r hawl briodol i rieni ymyrryd yn y broses hon? Nid wyf yn dweud bod y Bil yn ddiffygiol yn hyn o beth, ond dyma un o'r pethau y dylem sicrhau ei fod yn y Bil drwyddi draw. Yn ail, dylem bob amser holi, pan fydd unrhyw Weinidog yn cyflwyno Bil, a yw'r Bil yn rhoi gormod o rym i'r Gweinidog, neu a yw'r grym a roddir yn

berchenogaeth ar lawr gwlad o'r hyn y maent yn ei wneud mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg, a dyna'n sicr y byddem yn ei ddisgwyl.

O ran y materion ynghylch prydau ysgol, yr asesiad effaith rheoleiddiol a'r dadansoddiad cost a budd, mae'r rhain yn faterion y credaf y byddwn yn eu trafod yn fanylach mewn pwyllgor; efallai mai dyna'r lle priodol i adael yr ystyriaethau hynny.

Simon Thomas: I start by welcoming the statement and the publication of the School Standards and Organisation (Wales) Bill. This is the first substantial Bill produced by the Government—the most important one and the one that we, as a new Senedd, will cut our teeth on, as parliamentarians and legislators. I look forward to going through that process with everyone here, and with the Minister in particular.

It is important that we realise the responsibility that we have, because almost everything has been devolved in the field of education and therefore we are responsible for the policy and legislative areas that affect the achievement of our children. Therefore, it is very important that we get the Bills and Acts right, and that the Government gets the policy right, with appropriate scrutiny by the opposition parties.

It is true to say that this Government will not be able to pass any Bill without the support of at least one of the opposition parties. We certainly are willing to support this Bill, on the basis that we see discussion of some of the points that have already been raised. I will now raise some points with the Minister in order to scrutinise the Bill and ensure that we legislate in the best possible way.

There are two themes running through the Bill that we should be guarded about. First, are we giving parents the appropriate right to intervene in this process? I am not saying that the Bill is deficient in this regard, but this is one of the things that we should ensure permeates the Bill. Secondly, we should always ask, when any Minister introduces a Bill, whether the Bill gives the Minister too much power, or whether the power it gives is

briodol i ymateb i'r galw ac i ymateb i'r polisi a osodwyd gan y Llywodraeth. Dyna ddylem ei gadw mewn cof wrth ystyried Bil o'r fath. Dyna, yn sicr, y byddwn ni, ym Mhlaid Cymru, yn ei wneud, wrth i'r Bil hwn fynd drwy'r Senedd.

Mae sawl pwynt yn codi'n syth. Byddaf yn cyfeirio atynt yn fras, yn y gobaith o gael ymateb gan y Gweinidog ynghylch y ffordd ymlaen. Rwy'n cefnogi'n llwyr fod angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol o safbwynt ymyrraeth gan y Gweinidog a chan awdurdodau lleol. Rwy'n rhannu'r pryderon na ddylai hynny fod ar sail bandio yn unig. Rwyf am wybod pa rôl fydd gan Estyn yn hyn o beth hefyd.

Mae'n resyn o beth fod y Gweinidog, ar ôl 10 mlynedd o ddatganoli, yn gallu dweud nad yw arfer da yn cael ei rannu yn gyson ar draws ysgolion Cymru. Mae hynny yn wendid amlwg yn y broses yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r ymgais yn y Bil hwn i wella'r sefyllfa.

Yn ogystal, rwyf eisiau gwybod y bydd amddiffyniad yn erbyn camddefnyddio'r grym hwn. Mae gennyf enghraifft, sydd efallai yn gofyn am dafod yn y boch, ond mae'n enghraifft serch hynny: mae David Cameron yn credu y dylai pob disgybl godi ar ei draed wrth i athro gerdded i mewn i ddosbarth. Yn fy marn i, mae hynny yn fater disgyblaeth fesul ysgol. Nid yw'n fater priodol i'w sefydlu'n arfer da cenedlaethol. Mae'n amlwg yn y Bil y byddai modd i hynny gael ei sefydlu yn arfer da cenedlaethol. Felly, rhaid i ni fod yn siŵr bod y cydbwysedd rhwng arfer da cenedlaethol a gallu yn lleol i ymwneud â pheth fel hyn yn iawn.

O ran trefniadaeth ysgolion, rwy'n cefnogi'r hyn sydd gan y Gweinidog yn y Bil. Rwy'n credu bod angen diwygio'r broses o ailstrwythuro ein hysgolion yn ddirfawr. Rwy'n siarad fel un sydd, weithiau, wedi bod yn rhan o'r broses honno, o reidrwydd, fel un sy'n cynrychioli cymunedau lleol. Fodd bynnag, mae angen gwirioneddol i edrych ar hynny eto.

O ran cynlluniau strategol Cymraeg mewn

appropriate to respond to the demands and the policy set by the Government. That is what we should bear in mind in considering such a Bill. That, certainly, is what we in Plaid Cymru will be doing as this Bill progresses through the Senedd.

There are some points that arise immediately. I will refer to some briefly, in the hope of getting a response from the Minister on the way forward. I fully support the need to amend the current legislation in relation to intervention by the Minister and by local authorities. I share the concerns that that should not be on the basis of banding alone. I want to know what role Estyn will also have to play in that regard.

It is regrettable that the Minister, after 10 years of devolution, can say that good practice is not being shared consistently across schools in Wales. That is an obvious weakness in the process over the past 10 years. However, I welcome the attempt in this Bill to improve the situation.

In addition, I want to know that there will be protection against the abuse of this power. I have an example, which is slightly tongue in cheek, but is an example nonetheless: David Cameron thinks that every pupil should stand up when a teacher walks into the classroom. In my view, that is a disciplinary matter for each school. It is not an appropriate matter to be established as national good practice. It is clear in the Bill that that could be established as national good practice. Therefore, we have to be sure that there is a balance between national good practice and the ability to deal with such things properly at a local level.

On school organisation, I support what the Minister has included in the Bill. I think that we truly need to renew the process of school reorganisation. I am speaking as one who has, on occasion, been part of that process, of course, as one who represents local communities. However, we really need to return to that issue and review it.

On Welsh in education strategic plans, I

addysg, rwy'n croesawu'r bwriad yn y Bil i sefydlu'r cynlluniau hynny ar lefel statudol yn fawr. Mae hynny'n hynod bwysig. Mae gen i gwestiynau hefyd ynghylch sut ddylid ymyrryd neu wella'r broses os nad yw'r dyrannu yn ddigonol. Felly, rhaid gofyn beth yw'r berthynas rhwng Rhan 1 a Rhan 4 o'r Bil, yn hynny o beth, ond mater ar gyfer nes ymlaen yw hwnnw.

Un peth sy'n fy nharo, serch hynny, yw bod geiriau bach gwan yn y Bil yng nghyd-destun asesu'r galw am addysg Gymraeg. Yn Gymraeg defnyddir y gair 'caiff'—hynny yw, yn Saesneg, y gair bach 'may'—a hoffwn weld hynny'n cael ei gryfhau. Mae'n hanfodol bod pob awdurdod addysg lleol yng Nghymru yn mesur y galw ar gyfer addysg Gymraeg. Felly ni ddylai fod yn fater o 'gael' gwneud hynny; dylai fod yn hanfodol eu bod yn gwneud hynny.

4.15 p.m.

O ran y cyfarfod rhieni blynyddol, rwy'n croesawu'r ffaith nad oes angen y strwythur hwn gan nad yw bellach yn ymateb i ofynion bywyd modern. Fodd bynnag, byddwn am i lywodraethwyr gael cyfle i adrodd yn gyson i rieni. Yn sicr, dylai rhieni wybod beth yw cyrhaeddiad plant yn yr ysgol, beth yw band yr ysgol ac a fu unrhyw ymyrraeth gan awdurdod lleol neu'r Gweinidog, ac ati. Byddem am wella'r Bil yn y cyd-destun hwnnw, os yn briodol.

Wrth ateb Angela Burns, soniodd y Gweinidog am chweched dosbarth. Nid wyf yn meddwl bod pwerau newydd yn y Bil hwn, ond hoffwn i'r Gweinidog gadarnhau mai'r hyn mae'n ei wneud yw ailddatgan ei bwerau yng nghyd-destun ailstrwythuro chweched dosbarth. Rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion arbennig ar lefel ranbarthol.

Mae mesurau eraill, megis y rhai ar brydau ysgol, ar frecwastau, ac, yn hynod bwysig, ar wasanaethau cynghori ysgolion, yn rhai y gallwn graffu arnynt yn ystod y broses. Fodd bynnag, wrth wneud polisi brecwastau am ddim mewn ysgolion cynradd, mae Plaid Cymru yn ei gefnogi, yn ofyniad statudol, mae'n golygu bod angen arian ar y polisi

welcome the intention in the Bill to place those plans on a statutory level. That is extremely important. I also have questions on how interventions or improvements should be achieved, if the allocations are not appropriate. Therefore, we need to ask what the relationship is between Part 1 and Part 4 of the Bill, but that is a question for a later date.

One thing that strikes me, however, is that there are weak words in the Bill in terms of assessing the demand for Welsh-medium education. In Welsh, the word 'caiff' is used—that little word in English, 'may'—and I would be looking for that to be made more robust. It is crucial that every local education authority in Wales assesses demand for Welsh-medium education. Therefore it should not be a matter of their being 'allowed' to do so; it should be compulsory.

With regard to the annual meeting for parents, I welcome the fact that this structure is unnecessary as it no longer answers the needs of modern life. However, I would want governors to have an opportunity to report regularly to parents. Indeed, parents should know what their children's achievements are at school, what band the school is in and whether there has been any local authority or ministerial intervention and so on. We would wish to improve the Bill in that context, if appropriate.

In answer to Angela Burns, the Minister mentioned sixth forms. I do not think that this Bill contains any new powers, but I would like the Minister to confirm that what he is doing is restating his powers in the context of sixth form restructuring. We also welcome the intention to ensure that special needs are dealt with at a regional level.

The other measures, such those concerning school meals, breakfasts and, most importantly, school counselling services, are ones that we can scrutinise during the passage of the Bill. However, in making the free school breakfast policy, which Plaid Cymru supports, a statutory requirement, it means that the policy will require funding.

hwnnw. Mae'n siŵr y bydd mwy o sôn am hynny wrth inni symud drwy'r broses.

Rwy'n croesawu cyhoeddi'r Bil a'i amcanion. Rwyf hefyd yn croesawu bwriad y Llywodraeth a'r cyfle i wneud yn siŵr, gobeithio, fod y Bil cyntaf y byddwn yn ei basio fel Senedd o unrhyw werth yn un sy'n delio gydag addysg a chyrrhaeddiad ein plant.

Leighton Andrews: Again, I welcome the support from the Plaid Cymru spokesperson for the statement and the Bill, and I look forward to discussing the detail with him as the Bill progresses through its Stages. I repeat that, in respect of the powers of intervention, we will not rely solely on the banding information, although it is important to us. Estyn inspection reports will also have a role, but the work undertaken by local authority school improvement services and the regular stocktakes undertaken by my school standards unit will enable us to make judgments about the way in which local authorities are utilising the powers available to them as a result of the Bill.

In respect of good practice, there is a sharpening of focus on good practice at present. We have deliberately undertaken to publish case studies of good practice with video material online. We have held conferences to demonstrate good practice, and it is important that we seek to roll it out across the whole of Wales.

In respect of school organisation, he asked a specific question in relation to sixth forms. Indeed, I will retain responsibility for determining proposals to remove or add sixth forms, so there is no specific change in that regard.

In relation to Welsh in education strategic plans, we are in accord. We expect local authorities to do more in this regard, not least in the area of assessing parental demand. The Bill will give Ministers the power to ensure that local authorities carry out proper assessments of parental demand where they have not taken it upon themselves to do so. We are, therefore, strengthening that framework and ensuring better planning of future Welsh-medium provision throughout

That will undoubtedly be mentioned again as the Bill proceeds.

I welcome the publication of this Bill and its aims. I also welcome the Government's intentions and the opportunity to ensure, hopefully, that the first Bill of any real value that we pass as a Senedd will deal with education and children's attainment.

Leighton Andrews: Unwaith eto, croesawaf y gefnogaeth a fynegwyd gan lefarydd Plaid Cymru i'r datganiad a'r Bil, ac edrychaf ymlaen at drafod y manylion gydag ef wrth i'r Bil fynd drwy'r Cyfnodau deddfu. Mewn perthynas â phwerau ymyrryd, ailadroddaf y ffaith na fyddwn yn dibynnu ar y wybodaeth ynglŷn â bandio, er ei bod yn bwysig i ni. Bydd gan adroddiadau arolygu Estyn rôl hefyd, ond bydd y gwaith a wneir gan wasanaethau gwella ysgolion awdurdodau lleol a'r archwiliadau rheolaidd a gynhelir gan fy uned safonau ysgolion yn ein galluogi i ffurfio barn am y modd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt o ganlyniad i'r Bil.

O ran arferion da, mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar hynny ar hyn o bryd. Yn fwriadol, rydym wedi cyhoeddi astudiaethau achos o arferion da, gan ddefnyddio deunydd fideo ar-lein. Rydym wedi cynnal cynadleddau i ddangos arferion da, ac mae'n bwysig inni geisio cyflwyno hynny ledled Cymru.

O ran trefniadaeth ysgolion, gofynnodd gwestiwn penodol ynglŷn â'r chweched dosbarth. Yn wir, byddaf yn cadw'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar gynigion i ddileu neu ychwanegu dosbarthiadau chwech. Felly, nid oes dim newid penodol yn y cyswllt hwnnw.

O ran sefyllfa'r Gymraeg o fewn cynlluniau strategol addysg, rydym yn cyd-fynd. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol wneud mwy yn hyn o beth, yn enwedig ym maes asesu'r galw ymhlith rhieni. Bydd y Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiadau priodol o'r galw ymhlith rhieni lle nad ydynt wedi gwneud hynny. Felly, rydym yn cryfhau'r fframwaith hwnnw ac yn sicrhau cynllunio gwell ar gyfer darpariaeth cyfrwng Gymraeg ledled Cymru

Wales.

William Powell: I welcome the opportunity to respond to this important statement, and I join Simon Thomas and Angela Burns in stressing that we are also broadly supportive of the measures proposed. We welcome the opportunity to introduce primary legislation to improve school standards and to provide for the majority of decisions regarding school organisation to be taken at a local level, rather than at ministerial level. We also look forward to the upcoming scrutiny of the Bill, which will be extensive across the Assembly's committees and here in the Chamber. In the meantime, I have a number of questions on which I seek clarification from the Minister.

First, looking at issues to do with intervention in those schools causing concern, in November last year, in a debate on school standards, the Minister said:

'The role of the school standards unit is to facilitate improvements across the school system as a whole and to sharpen the use of data and the accountability for performance at a local level.'

Although means of addressing risk to school performance are extremely positive, what impact does the Minister believe this could have on the teaching profession when his anticipated outcome of an increase in necessary intervention in schools that cause concern becomes apparent? Looking at other aspects of school improvement, recent developments with the child development assessment profile have highlighted the crucial role that teachers and educational professionals have in contributing to this legislation. Looking through the individual school responses to the CDAP, it is easy to see why it must be replaced.

Following the Minister's recent admission that he is not expecting to see a major improvement—'real improvement' were his actual words—in the PISA test results until

yn y dyfodol.

William Powell: Croesawaf y cyfle i ymateb i'r datganiad pwysig hwn, ac ymunaf â Simon Thomas ac Angela Burns wrth bwysleisio ein bod ninnau'n cefnogi'r mesurau a gynigir, at ei gilydd. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wella safonau mewn ysgolion ac i sicrhau bod y rhan fwyaf o benderfyniadau ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cael eu cymryd ar lefel leol, yn hytrach nag ar lefel weinidogol. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at y cyfle yr ydym ar fin ei gael i graffu ar y Bil. Bydd y gwaith craffu hwnnw'n helaeth ac yn cael ei wneud ar draws pwyllgorau'r Cynulliad ac yma yn y Siambr. Yn y cyfamser, mae gennyf nifer o gwestiynau i'r Gweinidog ar faterion yr hoffwn gael eglurhad arnynt.

Yn gyntaf, gan edrych ar faterion sy'n ymwneud ag ymyrryd yn yr ysgolion hynny sy'n peri pryder, mewn dadl ar safonau ysgolion ym mis Tachwedd y llynedd, dywedodd y Gweinidog:

Rôl yr uned safonau ysgolion yw hwyluso gwelliannau ar draws y system ysgolion yn ei chyfanrwydd a chryfhau'r defnydd o ddata ac atebolrwydd am berfformiad ar lefel leol

Er bod y modd o fynd i'r afael â'r perygl i berfformiad ysgolion yn hynod o gadarnhaol, pa effaith ym marn y Gweinidog y gallai hyn ei chael ar y proffesiwn addysgu pan fydd y canlyniad y mae'r Gweinidog yn ei ddisgwyl, sef cynnydd mewn ymyrraeth angenrheidiol mewn ysgolion sy'n peri pryder, yn dod i'r amlwg? Gan edrych ar agweddau eraill ar wella ysgolion, mae datblygiadau diweddar gyda'r proffil asesu datblygiad plentyn wedi tynnu sylw at y rôl hanfodol sydd gan athrawon a gweithwyr proffesiynol addysgol wrth gyfrannu at y ddeddfwriaeth hon. Wrth edrych drwy ymatebion unigol ysgolion i'r proffil asesu datblygiad plentyn, mae'n hawdd gweld pam mae'n rhaid disodli'r system hon.

Yn dilyn cyfaddefiad y Gweinidog yn ddiweddar nad yw'n disgwyl gweld fawr o welliant—'gwelliant go iawn' oedd ei union eiriau—yng nghanlyniadau profion PISA tan

2015, how will the views of the newly formed practitioners' panel inform the content and direction of this Bill other than in the direct context of meetings at ministerial level? Some commentators have also suggested that the presence of powers to enable Welsh Ministers to direct bodies to comply if they do not agree with published reasons removes an important level of local decision making. Can the Minister reassure people across Wales who may fear something of a drift towards a Napoleonic style of over-centralisation in this particular area?

We are very pleased indeed to see that school councils and children and young people will have a more robust opportunity to contribute to the process and that their objections have the potential to be dealt with by local decision-making panels. We also feel that it is sensible to bear in mind that the process is indeed protracted in some instances and that, on some occasions, there is a significant reduction in pupil numbers after initial proposals are made. That means that, often, it would be sensible to be able to face reality and short-circuit the procedures with decisions made at a local level.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.22 p.m.
The Presiding Officer took the Chair at 4.22 p.m.*

As we move to consider the issues around Welsh-medium education provision, what monitoring systems will the Minister seek to put in place to measure regular progress with regard to the development of overall Welsh-medium education provision? The Welsh Liberal Democrats strongly support the drive to reduce bureaucracy in this area. Although the proposed change in the organisation of annual parents' meetings removes something of a ritual and frees up valuable time for governors and teachers, what leads the Minister to believe that this specific change will in fact enable the Welsh Government to improve parental engagement in a meaningful way? We all acknowledge the need for improvement in the education system. Indeed, we see this as a major opportunity in that direction. I trust that the Minister will remain open to contributions throughout the course of the Bill's progress

2015, sut y bydd barn y panel ymarferwyr sydd newydd gael ei ffurfio yn llywio cynnwys a chyfeiriad y Bil hwn, ac eithrio yng nghyd-destun uniongyrchol cyfarfodydd ar lefel weinidogol? Mae rhai sylwebyddion wedi awgrymu hefyd fod cynnwys pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i orchymyn cyrff i gydymffurfio os nad ydynt yn cytuno â'r rhesymau a gyhoeddir yn dileu haen bwysig o wneud penderfyniadau ar lefel leol. A fyddai modd i'r Gweinidog roi sicrwydd i bobl ledled Cymru sydd efallai'n pryderu ein bod yn gwyro tuag at ddull Napoleonaidd o organoli yn y maes penodol hwn?

Rydym yn hynod o falch o weld y bydd cynghorau ysgolion a phlant a phobl ifanc yn cael cyfle mwy cadarn i gyfrannu at y broses hon, a'i bod yn bosibl y bydd paneli lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ymdrin â'u gwrthwynebiadau. Rydym hefyd yn teimlo ei bod yn ddoeth cadw mewn cof fod y broses yn cymryd cyfnod maith mewn rhai achosion a bod gostyngiad sylweddol, ambell waith, yn niferoedd y disgyblion ar ôl i'r cynigion cychwynnol gael eu gwneud. Mae hynny'n golygu y byddai'n aml yn syniad da wynebu realiti ac osgoi'r gweithdrefnau hyn, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel leol.

Wrth inni symud ymlaen i ystyried materion sy'n ymwneud â darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, pa systemau monitro y bydd y Gweinidog yn ceisio eu rhoi ar waith i fesur cynnydd rheolaidd o ran datblygu darpariaeth addysg yn gyffredinol drwy gyfrwng y Gymraeg? Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'n gryf yr ymgyrch i leihau biwrocratiaeth yn y maes hwn. Er bod y newid arfaethedig o ran trefnu cyfarfodydd rhieni blynyddol yn dileu rhyw fath o ddefod ac yn rhyddhau amser gwerthfawr ar gyfer llywodraethwyr ac athrawon, beth sy'n peri i'r Gweinidog gredu y bydd y newid penodol hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i wella ymgysylltiad â rhieni mewn modd ystyrlon? Rydym i gyd yn cydnabod yr angen i wella'r system addysg. Yn wir, rydym yn gweld hyn yn gyfle pwysig i'r perwyl hwnnw. Hyderaf y bydd y Gweinidog yn parhau i fod yn agored i gyfraniadau drwy gydol taith y Bil, ac rwyf

and look forward to his response today. He can be assured of broad Liberal Democrat support for the main thrust of these proposals.

Leighton Andrews: I start by welcoming the support from the Liberal Democrat representative for the broad principles of the Bill. I look forward to engaging with him and his colleagues on the detail of it as the legislation progresses. The drive behind a number of aspects of the Bill is to ensure that power over key decisions rests locally and that responsibility for those decisions rests locally, whether the decisions are with regard to school organisation or intervention where schools are causing concern. With regard to the intervention powers, we are looking to local authorities to make better use of the data; they have a better understanding of that as a result of the banding system. We are giving greater clarity about their powers for intervention by codifying the powers within this Bill and by ensuring that the statutory guidance is in place. As I said in an earlier answer, I believe that, where local authorities intervene earlier, it will be more effective and probably less drastic, but overall more useful.

He referred to the child development assessment profile within the foundation phase. I have made it clear that we need to improve upon that and replace the profile being used. However, there are headteachers in Wales, with whom I have had a number of discussions, who still feel that that tool is valuable. At least one primary school that I know has been using it consistently, because it has felt that that tool is one of the most useful things that it has in assessing child development at the present time. However, it can be made better. That was the point of involving Professor Iram Siraj-Blatchford in the review of the child development assessment profile.

In respect of PISA, we have held a number of workshops with local authorities. I think that there is greater understanding of what is required within the PISA assessments. I met a deputy headteacher in Newport who had been

yn edrych ymlaen at ei ymateb heddiw. Gall fod yn sicr bod gan brif hanfod y cynigion hyn gefnogaeth eang ymhlith y Democratiaid Rhyddfrydol.

Leighton Andrews: Dechreuaf drwy groesawu'r gefnogaeth a fynegwyd gan gynrychiolydd y Democratiaid Rhyddfrydol i egwyddorion cyffredinol y Bil. Edrychaf ymlaen at ymgysylltu ag ef a'i gyd-Aelodau ynghylch y manylion wrth i'r ddeddfwriaeth fynd yn ei blaen. Yr hyn sydd wrth wraidd nifer o agweddau ar y Bil yw sicrhau mai yn nwylo pobl leol y bydd y pŵer dros wneud penderfyniadau allweddol a bod y cyfrifoldeb am wneud y penderfyniadau hynny hefyd yn lleol, pa un a yw'r penderfyniadau'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion neu ymyrryd mewn achosion lle y mae ysgolion yn achosi pryder. O ran y pwerau ymyrryd, rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol wneud defnydd gwell o'r data sydd ar gael; mae ganddynt ddealltwriaeth well o hynny o ganlyniad i'r system fandio. Rydym yn rhoi mwy o eglurder ynghylch eu pwerau ymyrraeth gan godeiddio'r pwerau yn y Bil a thrwy sicrhau bod canllawiau statudol. Fel y dywedais wrth ateb cwestiwn yn gynharach, mewn achosion lle y mae awdurdodau lleol yn ymyrryd yn gynharach, credaf y bydd hyn yn fwy effeithiol, yn llai llym, yn ôl pob tebyg, ac yn fwy defnyddiol ar y cyfan.

Cyfeiriodd at y proffil asesu datblygiad plentyn o fewn y cyfnod sylfaen. Rwyf wedi ei gwneud yn glir bod angen inni wella hynny a disodli'r proffil sy'n cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda phenaethiaid yng Nghymru sy'n parhau i deimlo bod y dull hwnnw'n werthfawr. Gwn am o leiaf un ysgol gynradd sy'n ei ddefnyddio'n gyson, gan ei bod yn teimlo bod y dull hwn yn un o'r ffyrdd mwyaf defnyddiol o asesu datblygiad plant sydd ar gael iddi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gellir ei wella. Dyna oedd pwrpas cynnwys yr Athro Iram Siraj-Blatchford yn yr adolygiad o'r proffil asesu datblygiad plentyn.

Yng nghyswllt PISA, rydym wedi cynnal nifer o weithdai gydag awdurdodau lleol. Credaf fod gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol o fewn yr asesiadau PISA. Cyfarfûm â dirprwy bennaeth yng Nghasnewydd a oedd

at one of our seminars and had taken back to her school the materials that we had produced there and found them invaluable. We have also had other legislatures in touch with us about the materials that we have produced, which are enabling people to better understand the challenges of PISA for the young people who go through the assessment. We will be establishing a practitioners' panel. I would expect that panel to have specific input in respect of the methodologies of teaching and the best practice that we are looking to roll out. I will resist the temptation to take on Napoleonic powers as a result of the Bill, although it is often very tempting. As I have said, the intent behind the Bill is to put in place a framework that means that decisions are taken locally and that there is local accountability and responsibility.

In respect of Welsh in education strategic plans, a key element in their monitoring will be how local authorities assess demand. We know that some local authorities are good at assessing demand for Welsh in education strategic plans, and that they have managed to address the development of Welsh-medium education within their local authority areas. Some have not been successful in that, but there are vocal lobbies out there that point out where those deficiencies exist, so I am not at all worried about the prospect of how we monitor that. It will become apparent to us where local authorities are getting this right or wrong. You can trace trajectories as to the likely demand from Welsh-medium nursery education right the way through.

Finally, in respect of the annual parents' meeting, the proposal to do away with this came from the chair of governors at a primary school in my own constituency. I am pleased that I have been able to take that proposal through. In due course it will, no doubt, become known as the Kevin Morgan amendment.

Suzu Davies: Thank you for your statement, Minister. I have to admit that I have not read the explanatory memorandum, and my questions come from a rather brisk romp of

wedi bod yn un o'n seminarau ac wedi mynd â'r deunyddiau a gynhyrchwyd gennym yno yn ôl i'w hysgol, gan ganfod eu bod yn amhriadiadwy. Mae deddfwrfeydd eraill hefyd wedi cysylltu â ni am y deunyddiau a gynhyrchwyd gennym, sy'n galluogi pobl i ddeall yn well heriau PISA ar gyfer y bobl ifanc sy'n mynd drwy'r asesiad. Byddwn yn sefydlu panel ymarferwyr. Byddwn yn disgwyl i'r panel hwnnw gael mewnbwn penodol mewn perthynas â methodolegau addysgu a'r arferion gorau yr ydym am eu cyflwyno. Byddaf yn gwrthsefyll y demtasiwn i ymgymryd â phwerau Napoleonaidd o ganlyniad i'r Bil, er bod hynny'n aml yn demtasiwn. Fel y dywedais, y bwriad sydd wrth wraidd y Bil yw sefydlu fframwaith a fydd yn golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol a bod atebolrwydd a chyfrifoldeb lleol.

O ran sefyllfa'r Gymraeg o fewn cynlluniau strategol addysg, elfen allweddol o fonitro'r cynlluniau hyn fydd y modd y mae awdurdodau lleol yn asesu'r galw. Gwyddom fod rhai awdurdodau lleol yn asesu'r galw am y Gymraeg o fewn cynlluniau strategol addysg yn dda, a'u bod wedi llwyddo i fynd i'r afael â datblygu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn eu hardaloedd awdurdod lleol. Mae rhai wedi bod yn aflwyddiannus yn hynny o beth, ond mae grwpiau lobio croch sy'n tynnu sylw at ble y mae'r diffygion hynny'n bodoli, felly nid wyf yn pryderu o gwbl ynghylch sut y byddwn yn monitro hynny. Daw'r achosion lle y bydd awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau cywir neu anghywir yn amlwg inni. Gallwch olrhain o ble y mae'r galw tebygol am ddod, o ran addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yr holl ffordd drwy'r system.

Yn olaf, o ran y cyfarfod rhieni blynyddol, daeth y cynnig i ddiddymu'r cyfarfod hwn gan gadeirydd y llywodraethwyr mewn ysgol gynradd yn fy etholaeth i. Rwyf yn falch fy mod i wedi gallu gweithredu ar y cynnig hwnnw. Maes o law, bydd y gwelliant hwn yn cael ei adnabod, yn ddiau, fel gwelliant Kevin Morgan.

Suzu Davies: Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Rhaid imi gyfaddef nad wyf wedi darllen y memorandwm esboniadol, ac mae fy nghwestiynau'n deillio o gipolwg cyflym

the face of the Bill, so I apologise if the answers to any of my questions are in the memorandum.

I welcome the ambition behind the Bill, particularly the statutory requirement for forward planning in Welsh-medium education, and I hope that that will help meet the need to provide education in both languages, and to make it readily available to families. Rather than go through them, I note your replies to Angela Burns on her concerns, and to William Powell. I support the quest for higher standards, less bureaucracy and enhanced local determination.

4.30 p.m.

I have some questions on the issue of local determination, but I will ask you first about one of your grounds for intervention namely that standards are unacceptably low in comparison with a comparable school? You have confirmed that you are not relying solely on banding to identify a comparatively poor performance, but, as you referred to clarity in your statement, can you tell us what you have in mind and, specifically, whether you will compare schools according to PISA criteria and cross-reference with schools outside as well as inside Wales?

To go back to your commitment in today's statement to enhance local determination, may I draw your attention to one of the sections in the Bill that gives powers to Welsh Ministers to close schools that are in special measures? The list of statutory consultees does not include teaching staff, but, more importantly, it does not include parents. What is the reason for that?

In Part 3, Chapter 3, which deals with surplus school places, and Chapter 5, which deals with the retention of the responsibility for restructuring sixth forms, give Welsh Ministers powers to originate proposals to close schools or change sixth-form provision. This is where I share Simon Thomas's concerns, inasmuch as this is distinctly anything but an enhancement of local determination. As a Welsh Conservative, I would argue that we would like the power to

ar wyneb y Bil, felly rwyf yn ymddiheuro os yw'r atebion i unrhyw rai o fy nghwestiynau yn y memorandwm.

Rwyf yn croesawu'r uchelgais sydd wrth wraidd y Bil, yn enwedig y gofyniad statudol ar gyfer blaengynllunio mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg, a gobeithio y bydd hynny'n helpu i fodloni'r angen i ddarparu addysg yn y ddwy iaith, ac i sicrhau bod yr addysg hon ar gael yn rhwydd i deuluoedd. Yn hytrach na mynd drwyddynt, nodaf eich atebion i Angela Burns ynghylch ei phryderon, a'ch atebion i William Powell. Rwyf yn cefnogi'r ymgyrch i gael safonau uwch, llai o fiwrocratiaeth a mwy o benderfynu'n lleol.

Mae gennyf rai cwestiynau ynghylch penderfynu'n lleol, ond gofynnaf ichi yn gyntaf am un o'ch seiliau ar gyfer ymyrraeth, sef bod safonau yn annerbyniol o isel o gymharu ag ysgol debyg? Rydych wedi cadarnhau nad ydych yn dibynnu'n llwyr ar fandio i nodi perfformiad cymharol wael, ond, gan i chi gyfeirio at eglurder yn eich datganiad, a allwch ddweud wrthym beth sydd gennych dan sylw ac, yn benodol, a fyddwch yn cymharu ysgolion yn ôl meini prawf PISA a chroesgyfeirio gydag ysgolion y tu allan i Gymru yn ogystal â'r tu mewn?

I fynd yn ôl at eich ymrwymiad yn natganiad heddiw i wella penderfyniadau lleol, a gaf dynnu eich sylw at un o'r adrannau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gau ysgolion sydd mewn mesurau arbennig? Nid yw'r rhestr o ymgylgoreion statudol yn cynnwys staff addysgu, ond, yn bwysicach fyth, nid yw'n cynnwys rhieni. Beth yw'r rheswm am hynny?

Mae Rhan 3, Pennod 3, sy'n ymdrin â lleoedd gwag mewn ysgolion, a Phennod 5, sy'n ymdrin â chadw'r cyfrifoldeb dros ad-drefnu chweched dosbarth, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddechrau cynigion i gau ysgolion neu newid darpariaeth chweched dosbarth. Dyma lle rwy'n rhannu pryderon Simon Thomas, yn yr ystyr ei bod yn amlwg bod hyn yn gwneud unrhyw beth ond gwella penderfyniadau lleol. Fel Ceidwadwr Cymreig, byddwn yn dadlau yr hoffem gael y

make decisions devolved to teachers and parents, to a degree. However, even with your Government's commitment to local authorities, these two Chapters allow for the perception that power is moving firmly, as William Powell suggested, to the centre of the Welsh Government. There is, of course, the argument that Welsh Ministers may need to take local education authorities to task and even to intervene on certain issues. However, this power to originate proposals, particularly for specific schools, and to interfere proactively rather than intervene is a worrying development. Perhaps you could explain how you see that fitting in with your aim to enhance local determination.

Can you also explain why you are prepared to allow the establishment of new foundation special schools, but not other new foundation schools? In any event, does more freedom for governors not enhance local determination?

Finally, I want to ask about the section that imposes a duty on schools and local authorities to follow improvement guidance issued by Welsh Ministers, with a view to sharing best practice, and I think that you have already dealt with this question in part. The section goes on to say that schools do not have to follow that guidance if it is unreasonable, for some reason, or where schools have decided to follow an alternative policy. I welcome the recognition that one size does not fit all and that schools should retain freedom, but, in that case, is it correct to talk about imposing a duty to follow Welsh Ministers' guidance when the reality is that schools just have to follow an improvement policy, either of their making or one heavily influenced by Ministers? Can you perhaps explain briefly whose views prevail in those circumstances—those of the school, the local authority or Welsh Ministers?

Leighton Andrews: To take the issues raised by the Member for South Wales West, in respect of comparable schools, we will develop school profiles for primary schools. As we have said, we will introduce a primary

pŵer i wneud penderfyniadau sydd wedi'u datganoli i athrawon a rhieni, i raddau. Fodd bynnag, hyd yn oed gydag ymrwymiad eich Llywodraeth i awdurdodau lleol, mae'r ddwy bennod hon yn caniatáu ar gyfer y canfyddiad bod pŵer yn symud yn bendant, fel yr awgrymodd William Powell, i ganol Llywodraeth Cymru. Mae dadl, wrth gwrs, y gall fod angen i Weinidogion Cymru ddwyn awdurdodau addysg lleol i gyfrif a hyd yn oed ymyrryd mewn rhai materion. Fodd bynnag, mae'r pŵer hwn i ddechrau cynigion, yn enwedig ar gyfer ysgolion penodol, ac i ymyrryd yn rhagweithiol yn hytrach nag ymyrryd yn y modd arferol yn ddatblygiad sy'n peri pryder. Efallai y gallech egluro sut rydych yn gweld hynny'n cyd-fynd â'ch nod i wella penderfyniadau lleol.

Allwch chi egluro hefyd pam eich bod yn barod i ganiatáu sefydlu ysgolion sefydledig arbennig newydd, ond nid ysgolion sefydledig newydd eraill? Beth bynnag, onid yw rhoi rhagor o ryddid i lywodraethwyr yn gwella penderfyniadau lleol?

Yn olaf, hoffwn ofyn am yr adran sy'n gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddilyn canllawiau gwella a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda'r bwriad o rannu arfer gorau, ac rwy'n meddwl eich bod eisoes wedi ymdrin â'r cwestiwn hwn yn rhannol. Aiff yr adran ymlaen i ddweud nad oes raid i ysgolion ddilyn y canllawiau hynny os yw'n afresymol, am unrhyw reswm, neu lle mae ysgolion wedi penderfynu dilyn polisi amgen. Rwy'n croesawu'r gydnabyddiaeth nad yw un ateb yn addas i bawb ac y dylai ysgolion gadw'u rhyddid, ond, yn yr achos hwnnw, a yw'n gywir sôn am osod dyletswydd i ddilyn canllawiau Gweinidogion Cymru pan mai'r gwir amdani yw bod yn rhaid i ysgolion ddilyn polisi gwella, naill ai drwy greu un eu hunain neu un y dylanwadir yn drwm arno gan Weinidogion? Allwch chi esbonio'n gryno, efallai, barn pwy sy'n ennill o dan yr amgylchiadau hynny—rhai'r ysgol, yr awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru?

Leighton Andrews: I gymryd y materion a godwyd gan yr Aelod dros Orllewin De Cymru, mewn perthynas ag ysgolion y gellir eu cymharu, byddwn yn datblygu proffiliau ysgol ar gyfer ysgolion cynradd. Fel rydym

school banding system from 2014. Clearly, the PISA results would not relate to primary schools, but we will be able to draw on a variety of evidence, including Estyn reports, as well as the banding information that will have been made available to us and school profiles. I think that that will provide sufficient material. We already publish a significant amount of data on school performance; those are available. We have made it clear that no school would pass an Estyn inspection if those data were not discussed by the school governing body, for example. That is now in the Estyn guidelines on inspection. We have made that material available and we can work through the detail of that, if need be, during the passage of the Bill.

This is very much about local determination. We are drawing on the precedents set in existing legislation in respect of the statutory consultees. I am perfectly happy to look further at those, but we are building on the legislation that already exists, just as we are doing in respect of the powers over sixth forms. I currently have those powers; I am not seeking to change that. There is a difference with post-16 education: it is centrally funded; it is not funded through the revenue support grant. It is funded on a different basis: we make specific allocations. We had a national funding and planning system in place, until I suspended it, which was designed to ensure more equity between sixth form provision and further education provision, and has served us well for several years, but was still leading to probably unnecessary duplication of provision in some parts of Wales.

In respect of foundation schools, we legislated on that at the end of the last Assembly in the Education (Wales) Measure 2011, to prevent the establishment of any further foundation schools. We also legislated in the same Measure in respect of support for school governing bodies and school governors, so I feel that we have addressed those issues in an earlier Assembly. In

wedi'i ddweud, byddwn yn cyflwyno system fandio i ysgolion cynradd o 2014. Yn amlwg, ni fyddai canlyniadau PISA yn berthnasol i ysgolion cynradd, ond byddwn yn gallu defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau Estyn, yn ogystal â'r wybodaeth fandio a fydd wedi cael ei rhoi i ni, a phroffiliau ysgolion. Rwy'n meddwl y bydd hynny'n rhoi digon o ddeunydd. Rydym eisoes yn cyhoeddi cryn dipyn o ddata ar berfformiad ysgolion; byddai'r rheini ar gael. Rydym wedi dweud yn glir na fyddai unrhyw ysgol yn pasio arolygiad Estyn os nad yw'r data hynny'n cael eu trafod gan gorff llywodraethu'r ysgol, er enghraifft. Mae hynny bellach yng nghanllawiau Estyn ar arolygu. Rydym wedi sicrhau bod y deunydd hwnnw ar gael a gallwn wneud rhagor o waith ar y manylion, os bydd angen, yn ystod taith y Bil.

Mae hyn yn ymwneud llawer â phenderfyniadau lleol. Rydym yn defnyddio'r cynseiliau a osodwyd yn y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â'r ymgngoreion statudol. Rwy'n gwbl barod i'w hystyried ymhellach, ond rydym yn adeiladu ar y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, yn union fel rydym yn ei wneud mewn perthynas â'r pwerau dros chweched dosbarth. Gennyf fi mae'r pwerau hynny ar hyn o bryd; nid wyf yn bwriadu newid hynny. Mae gwahaniaeth gydag addysg ôl-16: caiff ei hariannu'n ganolog; ni chaiff ei hariannu drwy'r grant cynnal refeniw. Caiff ei hariannu ar sail wahanol: rydym yn gwneud dyraniadau penodol. Roedd gennym system ariannu a chynllunio genedlaethol mewn grym, nes i mi ei hatal, er mwyn ceisio sicrhau mwy o degwch rhwng darpariaeth chweched dosbarth a darpariaeth addysg bellach, ac mae wedi ein gwasanaethu'n dda am nifer o flynyddoedd, ond roedd yn dal i arwain at ddyblygu darpariaeth yn ddiangen yn ôl pob tebyg mewn rhai rhannau o Gymru.

O ran ysgolion sefydledig, gwnaethom ddeddfu ar hynny ar ddiwedd y Cynulliad diwethaf ym Mesur Addysg (Cymru) 2011, i atal sefydlu unrhyw ysgolion sefydledig pellach. Gwnaethom ddeddfu hefyd yn yr un Mesur ar y cymorth i gyrff llywodraethu ysgolion a llywodraethwyr ysgolion, felly rwy'n teimlo ein bod wedi mynd i'r afael â'r materion hynny mewn Cynulliad cynharach.

respect of the overall improvement guidance, what we are seeking to do here is to ensure that we improve school performance overall. We know that we have significant challenges facing us in Wales to do that and, therefore, as we seek to move the Welsh system from being a fair system to being a good system, we need to have more clarity, more sharing of good practice and a really clear view of what constitutes that best practice.

O ran y canllawiau gwella cyffredinol, yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yma yw sicrhau ein bod yn gwella perfformiad ysgolion yn gyffredinol. Gwyddom ein bod yn wynebu heriau sylweddol yng Nghymru o ran gwneud hynny ac, felly, wrth inni geisio symud system Cymru o fod yn system deg i fod yn system dda, mae angen mwy o eglurder, rhannu mwy o arfer da a chael darlun clir iawn o'r hyn yw arfer gorau.

Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)
Motion to Approve the General Principles of the Local Government Byelaws (Wales) Bill

Cynnig NDM4959 Carl Sargeant

Motion NDM4959 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru).

Agrees to the general principles of the Local Government Byelaws (Wales) Bill.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I move the motion.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Cynigiau y cynnig.

I am pleased to have the opportunity to open this debate on the general principles of the Local Government Byelaws (Wales) Bill, which I introduced to the Assembly last November. The Bill forms an important part of the Welsh Government's wider simplification agenda. It seeks to streamline the procedure for making bye-laws by introducing, where appropriate, an alternative procedure that removes the need for confirmation of certain bye-laws by Welsh Ministers. The Bill also provides local authorities with the option of using fixed-penalty notices to enforce bye-laws.

Rwy'n falch o gael y cyfle i agor y ddatl hon ar egwyddorion cyffredinol Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru), a gyflwynais i'r Cynulliad fis Tachwedd diwethaf. Mae'r Bil yn ffurfio rhan bwysig o agenda symleiddio ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'n ceisio symleiddio'r weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfau drwy gyflwyno, lle bo'n briodol, weithdrefn amgen sy'n dileu'r angen i Weinidogion Cymru gadarnhau rhai is-ddeddfau. Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r opsiwn i awdurdodau lleol ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig i orfodi is-ddeddfau.

I am grateful to Ann Jones and the members of the Communities, Equality and Local Government Committee, as well as David Melding and the members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for their careful and thoughtful scrutiny. I am also grateful for the supportive evidence provided by stakeholders during the Stage 1 committee sessions and welcome their general consensus in favour of the Bill.

Rwy'n ddiolchgar i Ann Jones ac aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, yn ogystal â David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am eu gwaith craffu gofalus a meddylgar. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y dystiolaeth gefnogol a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod sesiynau pwyllgor Cyfnod 1 ac yn croesawu eu consensws cyffredinol o blaid y

Bil.

I agree that a number of the issues raised in the committee's report have merit and aim to respond positively to the majority of them through guidance or by Government amendment to the Bill at Stage 2. I would like to turn to some of the points raised by the committee and give Members those undertakings that I can at this stage. The Bill's provision about consultation attracted significant debate with both committees, with both making recommendations.

The Bill contains provision requiring specific consultation on bye-laws subject to the alternative procedure, whereas consultation on those requiring confirmation by Welsh Ministers remains a matter of best practice. On reflection, however, I agree with the view of the Communities, Equalities and Local Government Committee that the consultation arrangements should be standardised and formalised on the face of the Bill.

In addition to extending the consultation requirements to bye-laws requiring confirmation, I intend to amend the Bill to increase the period for which the proposed bye-laws must be placed on deposit from one month to six weeks, to allow sufficient time for town and community councils to respond.

The Constitutional and Legislative Affairs Committee considered that prior to making an Order to revoke an obsolete bye-law, the Welsh Ministers should be required to consult. In practice, we would always consult before making such an Order, but I agree that it would be helpful to put the matter beyond any doubt. I also intend to consider further the committee's recommendations that section 5 of the Bill should contain a more positive expression than 'think is obsolete' in relation to the power of Welsh Ministers by Order to revoke the bye-law. To clarify, this is a fallback power that would only be used by Welsh Ministers when necessary and would be subject to the appropriate Assembly procedures—prior consultation with interested parties would inform the Minister's decision.

Rwy'n cytuno bod rhinweddau i nifer o'r materion a godwyd yn adroddiad y pwyllgor a'r nod yw ymateb yn gadarnhaol i'r mwyafrif ohonynt drwy arweiniad neu drwy welliannau gan y Llywodraeth i'r Bil yng Nghyfnod 2. Hoffwn droi at rai o'r pwyntiau a godwyd gan y pwyllgor a rhoi'r ymrwymadau y gallaf ar hyn o bryd i Aelodau. Bu cryn ddadlau yn y ddau bwyllgor am ddarpariaeth y Bil ynghylch ymgynghori, a chafwyd argymhellion gan y ddau bwyllgor.

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn am ymgynghori penodol ar is-ddeddfau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn amgen, tra bod ymgynghori ar y rhai sydd angen cadarnhad gan Weinidogion Cymru yn parhau i fod yn fater o arfer gorau. Ar ôl ystyried y mater, fodd bynnag, cytunaf â barn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y dylai'r trefniadau ymgynghori gael eu safoni a'u ffurfioli ar wyneb y Bil.

Yn ychwanegol at ymestyn y gofynion ymgynghori i is-ddeddfau sydd angen cadarnhad, rwy'n bwriadu newid y Bil i gynyddu'r cyfnod y mae'n rhaid i'r is-ddeddfau arfaethedig gael eu rhoi ar adnau o un mis i chwe wythnos, er mwyn caniatáu digon o amser i gynghorau tref a chymuned ymateb.

Barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol oedd y dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud Gorchymyn i ddirymu is-ddeddf anarferedig, Fel arfer, byddem bob amser yn ymgynghori cyn gwneud Gorchymyn o'r fath, ond rwy'n cytuno y byddai o gymorth i roi'r mater tu hwnt i unrhyw amheuaeth. Rwyf hefyd yn bwriadu ystyried ymhellach argymhellion y pwyllgor y dylai adran 5 o'r Bil gynnwys mynegiant mwy cadarnhaol nag 'o'r farn ei bod yn anarferedig' mewn perthynas â phŵer Gweinidogion Cymru drwy Orchymyn i ddirymu'r is-ddeddf. I egluro, mae hwn yn bŵer wrth gefn a fyddai ond yn cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru yn ôl yr angen a byddai'n amodol ar weithdrefnau priodol y Cynulliad—byddai ymgynghori ymlaen llaw â phartion â diddordeb yn llywio penderfyniad y Gweinidog.

The Communities, Equality and Local Government Committee suggested that the same period of consultation as required of legislating authorities under section 6(2) of the Bill should also be required to publish a draft bye-law. I cannot support this amendment on the basis that consulting on the initial statement is the means by which the authority engages with the local community on the issues that give rise to the need for a response. The consultation should seek to explore all options, including whether the bye-law is the most appropriate method of addressing the underlying issue. Requiring the publication of a draft bye-law at the same time could pre-empt the outcome of the consultation and lead to other more suitable options being overlooked.

The use of fixed-penalty notices to enforce bye-laws is a key element of the Bill. I welcome the committee's comments stating that these should be used as a last resort, and I will issue guidance clarifying that point at the appropriate time. The Constitutional and Legislative Affairs Committee commented on the power in the Bill for Welsh Ministers to set out in regulations the range within which the local authority may specify a fixed penalty. The committee favoured this being on the face of the Bill, although I note that it did not appear to feel that strongly about it in the notes that it sent. Given the breadth of the bye-law-making powers, I do not feel that it would be appropriate to specify this in primary legislation. It is entirely possible that we would wish to specify a number of ranges for different types of bye-laws, and doing it through the subordinate legislation process would allow us to undertake appropriate consultation with stakeholders before doing so.

I thank the Communities, Equality and Local Government Committee for identifying the issues around Swansea City Council (Tawe Barrage) Act 1986 and also a variety of other Acts that are now being reviewed and will be included in the Bill as appropriate. The Constitutional Affairs Committee suggested that issuing guidance on the meaning of difficult concepts such as 'good rule and government' and 'obsolete' may be

Awgrymodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y dylai'r un cyfnod ymgynghori â'r hyn sy'n ofynnol i awdurdodau deddfu o dan adran 6(2) o'r Bil hefyd fod yn ofynnol i gyhoeddi is-ddeddf ddrafft. Ni allaf gefnogi'r gwelliant hwn ar y sail mai ymgynghori ar y datganiad cychwynnol yw'r ffordd y mae'r awdurdod yn ymgysylltu â'r gymuned leol ar y materion sy'n arwain at yr angen am ymateb. Dylai'r ymgynghoriad geisio ystyried yr holl opsiynau, gan gynnwys ai'r is-ddeddf yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r broblem sylfaenol. Gallai'r orfodaeth i gyhoeddi is-ddeddf ddrafft ar yr un pryd ragdybio canlyniad yr ymgynghoriad ac arwain at anwybyddu dewisiadau addas eraill.

Mae'r defnydd o hysbysiadau cosb benodedig i orfodi is-ddeddfau yn elfen allweddol o'r Bil. Rwy'n croesawu sylwadau'r pwyllgor mai fel y dewis olaf y dylai'r rhain gael eu defnyddio, a byddaf yn cyhoeddi canllawiau yn egluro hynny ar yr adeg briodol. Soniodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am y pŵer yn y Bil i Weinidogion Cymru nodi yn y rheoliadau i ba raddau y caiff awdurdodau lleol bennu cosb benodedig. Roedd y pwyllgor o blaid rhoi hyn ar wyneb y Bil, er fy mod yn nodi nad oedd yn ymddangos fod y pwyllgor yn teimlo'n gryf amdano yn y nodiadau a anfonodd. O ystyried ehangder y pwerau i wneud is-ddeddfau, ni chredaf y byddai'n briodol nodi hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n gwbl bosibl y byddem yn dymuno pennu nifer o amrywiaethau ar gyfer gwahanol fathau o is-ddeddfau, a byddai gwneud hynny drwy'r broses is-ddeddfwriaeth yn ein galluogi i gynnal ymgynghoriad priodol â rhanddeiliaid cyn gwneud hynny.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am nodi'r materion sy'n ymwneud â Deddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 a hefyd amrywiaeth o Ddeddfau eraill sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac a gaiff eu cynnwys yn y Bil fel y bo'n briodol. Awgrymodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y gallai cyhoeddi canllawiau ar ystyr cysyniadau anodd fel 'rheolaeth dda

beneficial. These terms are used deliberately in a broad sense and are understood by local authorities, due to their use in current existing legislation. I welcome the committee's suggestion that the power for Welsh Ministers to issue guidance should be broadened to facilitate this. We will bring forward an amendment to that effect, although I am not currently persuaded that defining these terms is desirable, given that it could have the effect of inadvertently and inappropriately limiting the scope of the powers. However, I will keep the matter clearly under review.

Finally, as suggested by the Communities, Equality and Local Government Committee, I intend to continue to liaise with chief constables with a view to achieving consistency on the role of community support officers across Wales. While there are no amendments to be made to the Bill on this matter, I intend to pursue this matter, as I said, with further discussions with the chief officers.

While I have not addressed today all of the recommendations made by the committee, I will consider each in detail. I thank both committees for their constructive ideas to improve the Bill. I am greatly encouraged by the support shown by Members and stakeholders at Stage 1 in committee. I urge Members to take the same view and support the Bill today.

Ann Jones: I am pleased to contribute to this debate as the chair of the Communities, Equality and Local Government Committee. I thank committee members and all those who contributed to evidence sessions, both orally and in writing. Their contributions have helped us to shape the report, and by shaping the report we hope that we will have some good legislation. We have highlighted a number of areas in which we think the legislation could be improved and I was heartened to hear the Minister say that he has accepted most of them. I am sure that we will talk about the rest another time.

We undertook consultation and we received

a llywodraeth' ac 'anarferedig' fod o fudd. Defnyddir y rhain yn fwriadol mewn ystyr eang a chânt eu deall gan awdurdodau lleol, oherwydd eu defnydd mewn deddfwriaeth bresennol sy'n bodoli eisoes. Rwy'n croesawu awgrym y pwyllgor y dylai pŵer Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau gael ei ehangu i hwyluso hyn. Byddwn yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw, er nad wyf wedi fy argyhoeddi ar hyn o bryd bod diffinio'r termau hyn yn ddymunol, o ystyried y gallai gael yr effaith o gyfyngu'n anfwriadol ac yn amhriodol ar gwmpas y pwerau. Fodd bynnag, byddaf yn amlwg yn adolygu'r mater.

Yn olaf, fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, rwy'n bwriadu parhau i gysylltu â phrif gwnstabiliaid gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb ynghylch rôl swyddogion cymorth cymunedol ledled Cymru. Er nad oes unrhyw newidiadau i'w gwneud i'r Bil ar y mater hwn, rwy'n bwriadu mynd ar drywydd y mater hwn, fel y dywedais, gyda thrafodaethau pellach gyda'r prif swyddogion.

Er nad wyf wedi rhoi sylw heddiw i bob un o'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor, byddaf yn ystyried pob un yn fanwl. Diolch i'r ddau bwyllgor am eu syniadau adeiladol i wella'r Bil. Rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan y gefnogaeth a ddangoswyd gan Aelodau a rhanddeiliaid yn ystod Cyfnod 1 mewn pwyllgor. Rwy'n annog Aelodau i fod o'r un farn a chefnogi'r Bil heddiw.

Ann Jones: Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon fel cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Diolch i aelodau'r pwyllgor ac i bawb a gyfrannodd at y sesiynau tystiolaeth, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae eu cyfraniadau wedi ein helpu i lunio'r adroddiad, a thrwy lunio'r adroddiad rydym yn gobeithio y bydd gennym ddeddfwriaeth dda. Rydym wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle y credwn y gallai'r ddeddfwriaeth gael ei gwella ac roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn dweud ei fod wedi derbyn y rhan fwyaf ohonynt. Rwy'n siŵr y byddwn yn trafod y gweddill rywbryd eto.

Cynhaliwyd ymgynghoriad a chawsom

written and oral evidence from relevant organisations, the overwhelming majority of which were in favour of the Bill and welcomed the simplification of the bye-laws process.

I will only talk about the sections that are relevant to the recommendations; I do not intend to go through the whole of the Bill. Section 4, on the revocation or amendment of bye-laws, restates the general power of legislating authorities to make or revoke their own bye-laws where no other specific power exists to do so. Section 5 provides an additional power for Welsh Ministers, to revoke bye-laws, by Order, when they think those bye-laws have become obsolete. I listened carefully to the Minister when he said that he is going to find a better word than 'think'. The committee recommends that the Bill should be amended to include a duty to ensure relevant town and community councils are informed when a bye-law that affects them is to be revoked.

4.45 p.m.

On sections 6 to 9, on the procedures for bye-laws, the committee again recommends that the Bill should also include a provision requiring an authority to publish and consult on a draft version of the proposed legislation; I think that more work is probably needed on that section. We also feel that bye-laws that are subject to ministerial confirmation should be subject to the same consultation provisions as those that are not.

A provision under section 6 requires an authority to publish notification of its intention to make a bye-law, and I am pleased to see that you have accepted our recommendation that the minimum notice period should increase from one month to six weeks. I am very grateful to you for that, because that was not just the view of the committee; it was raised in a lot of the evidence that we received.

We heard evidence from town and

dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan sefydliadau perthnasol, gyda'r mwyafrif llethol ohonynt o blaid y Bil ac yn croesawu'r broses o symleiddio'r broses is-ddeddfau.

Dim ond am yr adrannau sy'n berthnasol i'r argymhellion y byddaf yn siarad; nid wyf yn bwriadu mynd drwy'r Bil cyfan. Mae adran 4, ynghylch dirymu neu ddiwygio is-ddeddfau, yn ailddatgan pŵer cyffredinol awdurdodau deddfu i wneud neu ddirymu eu his-ddeddfau eu hunain lle nad oes unrhyw bŵer penodol eraill yn bodoli i wneud hynny. Mae adran 5 yn rhoi pŵer ychwanegol i Weinidogion Cymru, i ddirymu is-ddeddfau, drwy Orchymyn, pan fyddant o'r farn bod yr is-ddeddfau wedi mynd yn anarferedig. Gwrandewais yn astud ar y Gweinidog pan ddywedodd ei fod am ddod o hyd i eiriau gwell nag 'o'r farn'. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys dyletswydd i sicrhau bod cynghorau tref a chymuned perthnasol yn cael eu hysbysu pan fydd is-ddeddf sy'n effeithio arnynt yn cael ei dirymu.

O ran adrannau 6 i 9, ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfau, mae'r pwyllgor unwaith eto yn argymhell y dylai'r Bil hefyd gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gyhoeddi ac ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r deddfwriaeth arfaethedig; credaf fod angen mwy o waith, efallai, ar yr adran honno. Rydym hefyd yn teimlo y dylai'r is-ddeddfau sy'n ddarostyngedig i gadarnhad gweinidogol, yn ogystal â'r rhai nad ydynt, fod yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau ymgynghori.

Mae darpariaeth o dan adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i wneud is-ddeddf, ac rwy'n falch o weld eich bod wedi derbyn ein hargymhelliad y dylai'r cyfnod rhybudd lleiaf gynyddu o un mis i chwe wythnos. Rwy'n ddiolchgar iawn ichi am hynny, oherwydd nid barn y pwyllgor yn unig oedd hynny; fe'i codwyd mewn llawer o'r dystiolaeth a gawsom.

Cawsom dystiolaeth gan gynghorau tref a

community councils about their ability to make bye-laws in relation to their resources and experience. You have stated clearly that you expect these councils to work together to make bye-laws, and we believe that this provision should be clarified on the face of the Bill.

Turning to sections 12 to 17 on fixed-penalty notices, witnesses were generally content with the provisions in these sections. One of the main points raised was inconsistency on the role of police community support officers across Wales and how we can ensure a consistent approach. I am grateful to you, Minister, for informing us that you will continue to talk to chief constables about how we provide a consistent role for police community support officers.

We recognised the requirement for fixed-penalty notices to be used in some circumstances. However, we wanted to ensure that they are not going to be used as—dare I say, to use in my own words—a cash cow for local authorities. We have seen some evidence of that previously in relation to other things. Fixed-penalty notices should be a last resort, and I am pleased that you have accepted that.

Our final recommendation was to consider the issue raised by the City and County of Swansea regarding the Swansea City Council (Tawe Barrage) Act 1986—I am grateful to two members of my committee for raising this, because without their local knowledge I do not think that we would have known about it—with a view to including it, and any other relevant legislation, in Schedule 1. Again, I thank you, Minister, for taking that recommendation forward.

In conclusion, we look forward to the Assembly passing this legislation in Stage 1, and the committee looks forward to Stage 2 and the appropriate amendments.

David Melding: The Constitutional and Legislative Affairs Committee's remit includes reporting on provisions in Assembly Bills that give powers to Welsh Ministers to make subordinate legislation. I thank the

chymuned am eu gallu i wneud is-ddeddfau mewn perthynas â'u hadnoddau a'u profiad. Rydych wedi datgan yn glir eich bod yn disgwyl i'r cynghorau hyn weithio gyda'i gilydd i wneud is-ddeddfau, ac rydym o'r farn y dylai'r ddarpariaeth hon gael ei hegluro ar wyneb y Mesur.

Gan droi at adrannau 12 i 17 ar hysbysiadau cosb benodedig, yn gyffredinol, roedd tystion yn fodlon gyda'r darpariaethau yn yr adrannau hyn. Un o'r prif bwyntiau a gododd oedd anghysondeb o ran rôl swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ar draws Cymru a sut y gallwn sicrhau dull cyson. Rwy'n ddiolchgar i chi, Weinidog, am roi gwybod i ni y byddwch yn parhau i siarad â'r prif gwnstabiliaid ynglŷn â sut rydym yn darparu rôl gyson i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu.

Rydym yn cydnabod y gofyniad i ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau na fyddant yn cael eu defnyddio—mentraf ddweud, gan ddefnyddio fy ngeiriau fy hun—fel peiriant arian i awdurdodau lleol. Rydym wedi gweld rhywfaint o dystiolaeth o hynny yn flaenorol mewn perthynas â phethau eraill. Y dewis olaf ddylai hysbysiadau cosb benodedig fod, ac rwy'n falch eich bod wedi derbyn hynny.

Ein hargymhelliad olaf oedd ystyried y mater a godwyd gan Ddinas a Sir Abertawe o ran Deddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986—rwyf yn ddiolchgar i ddau aelod o fy mhwyllgor am godi hyn, oherwydd heb eu gwybodaeth leol, nid wyf yn credu y byddem wedi gwybod amdano—gyda'r bwriad o gynnwys y Ddeddf hon ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, yn Atodlen 1. Unwaith eto, diolch ichi, Weinidog, am dderbyn yr argymhelliad hwnnw.

I gloi, rydym yn edrych ymlaen at weld y Cynulliad yn pasio'r ddeddfwriaeth hon yng Nghyfnod 1, ac mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen at Gyfnod 2 a'r gwelliannau priodol.

David Melding: Mae cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cynnwys adrodd ar ddarpariaethau mewn Biliau Cynulliad sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-

Minister for his constructive engagement and for his highly courteous speech in opening today's debate. The Bill contains a number of subordinate legislation provisions, but the committee was satisfied that it does not contain any unusual or unsatisfactory provisions in relation to these powers. The committee was also content that there is generally an appropriate balance between the level of detail on the face of the Bill and the subordinate legislation powers that it gives to Ministers. However, I wish to draw the Assembly's attention to some aspects of the Bill about which the committee had some concerns.

Part of the intention behind the Bill is to simplify existing legislation. The committee questioned whether this opportunity should have been taken up more fully to consolidate old bye-law-making powers on the face of the Bill. However, the committee accepted the Minister's assurance that this was not practical in the current circumstances.

Section 4 allows legislating authorities to revoke or amend their own bye-laws, while section 5 states:

'The Welsh Ministers may by order revoke any byelaw made by a legislating authority which they think is obsolete.'

The Minister made it clear that this power will only be used when there is a request to do so by legislating authorities. The committee was content with this explanation, but urged the Minister to look at words such as 'think' and 'obsolete' and clarify what they mean. I am very grateful that he has said that he intends to do so. That shows that scrutiny works.

We also thought that there was a case for requiring consultation, either by a requesting authority, or by the Minister, before this power was exercised. Again, I was very pleased to hear the Minister's response, and that he has been convinced by our recommendation.

Section 11 allows bye-laws to be made that

ddeddfwriaeth. Rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei ymgysylltiad adeiladol ac am ei araith hynod gwrtais wrth agor y ddaid heddiw. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth, ond roedd y pwyllgor yn fodlon nad yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaethau anarferol neu anfodddhaol mewn perthynas â'r pwerau hyn. Roedd y pwyllgor hefyd yn fodlon bod cydbwysedd priodol cyffredinol rhwng lefel y manylion ar wyneb y Bil a'r pwerau is-ddeddfwriaeth y mae'n ei roi i Weinidogion. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad at rai agweddau ar y Bil oedd yn peri pryder i'r pwyllgor.

Rhan o fwriad y Bil yw symleiddio'r ddeddfwriaeth bresennol. Cwestiynodd y pwyllgor a ddylid manteisio ar y cyfle i gyfuno hen bwerau i wneud is-ddeddfau ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, derbyniodd y pwyllgor sicrwydd y Gweinidog nad oedd hyn yn ymarferol yn yr amgylchiadau presennol.

Mae adran 4 yn caniatáu i awdurdodau ddeddfu i ddirymu neu ddiwygio eu his-ddeddfau eu hunain, tra bod adran 5 yn datgan:

'Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddirymu unrhyw is-ddeddf a wnaed gan awdurdod deddfu y maent o'r farn ei bod yn anarferedig.'

Gwnaethpwyd yn glir gan y Gweinidog y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio ond pan fydd cais i wneud hynny gan awdurdodau ddeddfu. Roedd y pwyllgor yn fodlon â'r esboniad hwn, ond anogodd y Gweinidog i edrych ar eiriau fel 'o'r farn' ac 'anarferedig' ac egluro beth yw eu hystyr. Rwy'n ddiolchgar ei fod wedi dweud ei fod yn bwriadu gwneud hynny. Mae hynny'n dangos bod craffu yn gweithio.

Rydym hefyd o'r farn bod achos dros wneud ymgynghori yn ofynnol, naill ai gan awdurdod sy'n gwneud y cais, neu gan y Gweinidog, cyn i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio. Unwaith eto, roeddwn yn falch iawn o glywed ymateb y Gweinidog, a'i fod wedi ei argyhoeddi gan ein hargymhelliad.

Mae adran 11 yn caniatáu i is-ddeddfau gael

can allow for the seizure and possible forfeiture of property. This is the general power for local authorities to make bye-laws for the purpose of good rule and government of their areas, and for the suppression of nuisances. Such bye-laws do not require ministerial confirmation. Read literally, section 11 might be seen as authorising the forfeiture of property in an arbitrary way. However, the committee received legal advice that section 11 should be read as only authorising provision, which respects the European convention on human rights, and was therefore content with this section as drafted.

Section 12 sets out arrangements for allowing offences under bye-laws to be dealt with through fixed monetary penalties. Section 13 deals with the amount of these penalties. The default penalty is set at £75. Authorities can vary this amount, but only within a range set out in regulations by Ministers. This range could include penalties set at a greater amount than £75. Although the committee did not have any serious concerns on this point, as the Minister intimated earlier, it is uneasy with this approach, because it seems to be somewhat inconsistent.

The committee felt that it would be better to set out the initial range of potential penalties on the face of the Bill and subsequently make it amendable by statutory instrument. This is the way the default penalty is specified in section 13, and is subsequently amendable by Order. We did not see much merit in having two systems. It would be better to use the same system. This obviously will be dealt with in committee now, and I commend the point to the committee that will look at it.

Finally, section 18 allows Ministers to give statutory guidance to authorities on procedures and enforcement, and we thought that guidance powers could be less restrictive. I am delighted that the Minister has also accepted that point. In particular, it might be helpful if Ministers were to give some guidance on concepts such as 'good rule', 'government' and 'obsolete'. He said that he will consider this, but he regards them as being fairly established in current usage.

eu gwneud a fyddai'n caniatáu ymafael mewn eiddo ac, o bosibl, ei fforffedu. Pŵer cyffredinol yw hwn i awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau er mwyn sicrhau rheolaeth a llywodraeth dda yn eu hardaloedd ac atal niwsans. Nid oes angen cadarnhad gweinidogol ar is-ddeddfau o'r fath. Petaech yn darllen adran 11 yn llythrennol, gellid meddwl ei bod yn awdurdodi fforffedu eiddo mewn ffordd fympwyol. Fodd bynnag, cafodd y pwyllgor gyngor cyfreithiol y dylid ystyried adran 11 yng nghyd-destun awdurdodi darpariaeth yn unig, sy'n parchu'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, ac roedd felly yn fodlon ar yr adran hon fel y'i drafftwyd.

Mae adran 12 yn nodi trefniadau ar gyfer caniatáu i dramgwyddau o dan is-ddeddfau gael eu trin drwy gosbau ariannol penodedig. Mae adran 13 yn ymdrin â swm y cosbau hyn. Gosodwyd cosb ddiodyfyn o £75. Gall awdurdodau amrywio'r swm hwn, ond dim ond o fewn ystod benodol a nodir yn y rheoliadau gan Weinidogion. Gallai hyn gynnwys cosbau sy'n fwy na £75. Er nad oedd gan y pwyllgor unrhyw bryderon difrifol ar y pwynt hwn, fel y bu i'r Gweinidog awgrymu yn gynharach, mae'n anesmwyth â'r dull hwn, oherwydd mae'n edrych braidd yn anghyson.

Teimlai'r pwyllgor y byddai'n well nodi'r ystod gychwynnol o gosbau posibl ar wyneb y Bil ac yna caniatáu newid hynny drwy offeryn statudol. Dyma'r ffordd y mae'r gosb ddiodyfyn yn cael ei phennu yn adran 13, a gellir ei newid drwy Orchymyn. Nid oeddem yn gweld rhinwedd mewn cael dwy system. Byddai'n well defnyddio'r un system. Yn amlwg, bydd hyn bellach yn cael ei drin mewn pwyllgor, a chymeradwyaf y pwynt i'r pwyllgor a fydd yn edrych arno.

Yn olaf, mae adran 18 yn galluogi Gweinidogion i roi canllawiau statudol i awdurdodau ar weithdrefnau a gorfodi, ac roeddem yn credu y gallai'r pwerau cyfarwyddyd fod yn llai cyfyngol. Rwy'n falch iawn bod y Gweinidog hefyd wedi derbyn y pwynt hwnnw. Yn benodol, efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bai Gweinidogion yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar gysyniadau fel 'rheolaeth dda', 'llywodraeth' ac 'anarferedig'. Dywedodd y bydd yn ystyried

However, some of this usage goes back to the early nineteenth century, and I wonder whether we could take advantage of this opportunity to update some of our concepts and definitions.

In conclusion, regardless of these issues, the committee saw no reason why the National Assembly should not agree to the general principles of this Bill, should it wish to do so.

Mike Hedges: I strongly support the principles of this Bill. It brings the making of bye-laws into the twenty-first century, from, as David Melding just said, in some cases, the nineteenth. It simplifies the process of making local government bye-laws in Wales, which will make it easier for people to bring in bye-laws. It was contained in a 2007 local government policy statement, 'A Shared Responsibility'.

Consultation has shown overwhelming positive support for simplification of the bye-law process by removing the requirement for confirmation by Welsh Ministers, and also the introduction of fixed-penalty notices as a much more effective and easier method than going through the magistrates' court and trying to get a conviction.

As someone who has steered two bye-laws through Swansea council, one on street drinking in the city centre and the other on skateboarding in Castle Square, I realise how important bye-laws are. They are opportunities to deal with local problems with a local solution. Also, as has been shown in relation to on-street drinking, when a large number of local authorities bring in a bye-law on a single issue, legislation can quite often follow.

I believe that local government is best placed to take responsibility for making the majority of bye-laws without input from a Welsh Minister. With all due respect to Welsh Ministers, their knowledge of Castle Square is probably fairly limited. *[Interruption.]* Their knowledge of Wind Street may be very good, but their knowledge of Castle Square is

hyn ond ei fod yn credu bod eu hystyr yn amlwg oherwydd y defnydd presennol ohonynt. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r defnydd yn mynd yn ôl i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, felly efallai y gallwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiweddarau rhai o'n cysyniadau a'n diffiniadau.

I gloi, er gwaethaf y materion hyn, ni ddaeth y pwyllgor o hyd i unrhyw reswm pam na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gyntuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil hwn, pe bai'n dymuno gwneud hynny.

Mike Hedges: Rwy'n cefnogi egwyddorion y Mesur hwn yn gryf. Mae'n dod â'r broses o wneud is-ddeddfau i'r unfed ganrif ar hugain, yn lle, fel y mae David Melding newydd ddweud, mewn rhai achosion, y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n symleiddio'r broses o wneud is-ddeddfau llywodraeth leol yng Nghymru, a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl gyflwyno is-ddeddfau. Cafodd ei gynnwys mewn datganiad polisi llywodraeth leol yn 2007, 'Rhannu Cyfrifoldeb'.

Mae ymgynghori wedi dangos cefnogaeth gadarnhaol sylweddol at symleiddio'r broses is-ddeddfau drwy gael gwared ar y gofyniad am gadarnhad gan Weinidogion Cymru, yn ogystal â chyflwyno hysbysiadau cosb benodedig fel dull llawer mwy effeithiol a rhwyddach na mynd drwy lys yr ynadon a cheisio cael euogfarn.

Fel rhywun sydd wedi llywio dwy is-ddeddf drwy gyngor Abertawe, un ar yfed ar y stryd yng nghanol y ddinas a'r llall ar sglefrfyrdio ar Sgwâr y Castell, rwy'n sylweddoli pa mor bwysig yw is-ddeddfau. Maent yn gyfle i ymdrin â phroblemau lleol drwy gynnig datrysiadau lleol. Hefyd, rydym wedi gweld o ran yfed ar y stryd, pan fydd nifer fawr o awdurdodau lleol yn cyflwyno is-ddeddf ar yr un mater, gall deddfwriaeth ddilyn yn aml.

Credaf mai llywodraeth leol sydd yn y sefyllfa orau i gymryd cyfrifoldeb am wneud y rhan fwyaf o is-ddeddfau heb fewnbwn gan Weinidogion Cymru. Gyda phob parch i Weinidogion Cymru, tybiwn fod eu gwybodaeth am Sgwâr y Castell yn weddol gyfyng. *[Torri ar draws.]* Efallai bod eu gwybodaeth am Stryd y Gwynt yn dda iawn,

probably fairly limited, as it is of a whole number of other places where bye-laws have been brought in to deal with specific, local problems.

Local government is the best place to deal with this. The key issue is that local authorities consult with local people and consider their views carefully before introducing bye-laws, and take into account the view of the residents who are affected by the bye-law. I also hope and expect that the whole process will take place in public so that the press can also publicise proposals. I have been on the receiving end, in relation to something that was not a bye-law, when a newspaper that was not read in the area was used in order to advertise something. It was the first time that people realised it was happening, but it was much later on. The idea of having it done in public makes life a lot easier.

This is the first legislation for the Assembly, and it is important legislation. It will have an effect on people's lives. The Communities, Equality and Local Government Committee made recommendations in its Stage 1 report, among which were that the relevant town and community councils are informed when a bye-law that affects them is to be revoked. That is important so that people know what is happening.

I am glad that the minimum consultation period for a bye-law has increased from a month to six weeks. That will fit in with community councils' cycles. I do not think that anyone wanted a situation where community councils would be calling special meetings to discuss a bye-law affecting them.

The committee noted that the Minister is liaising with chief constables in Wales, and recommended that that continues with a view to providing consistency on the role of PCSOs across Wales. If PCSOs across Wales could police bye-laws, it would make them more enforceable, and, perhaps more importantly, they would be seen as part of the legal system. However, if a community council or a county council bring in mutually

ond tybiwn fod eu gwybodaeth am Sgwâr y Castell yn weddol gyfyng, fel y mae am nifer o fannau eraill lle cyflwynwyd is-ddeddfau i ymdrin â phroblemau lleol penodol.

Llywodraeth leol yw'r lle gorau i ymdrin â hyn. Y mater allweddol yw bod awdurdodau lleol yn ymgynghori â phobl leol ac yn ystyried eu barn yn ofalus cyn cyflwyno is-ddeddfau, a'u bod yn ystyried barn y trigolion sy'n cael eu heffeithio arnynt gan yr is-ddeddf. Rwyf hefyd yn gobeithio ac yn disgwyl y bydd y broses gyfan yn cael ei chynnal yn gyhoeddus fel y gall y wasg hefyd dynnu sylw at gynigion. Rwyf wedi profi hyn, mewn perthynas â rhywbeth nad oedd yn is-ddeddf, pan ddefnyddiwyd papur newydd nad oedd yn cael ei ddarllen yn yr ardal i hysbysebu rhywbeth. Dyna'r tro cyntaf i bobl sylweddoli ei fod yn digwydd, ond roedd hynny llawer yn hwyrach. Mae'r syniad o'i wneud yn gyhoeddus yn gwneud bywyd llawer yn haws.

Dyna'r ddeddfwriaeth gyntaf i'r Cynulliad, ac mae'n ddeddfwriaeth bwysig. Bydd yn cael effaith ar fywydau pobl. Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi gwneud argymhellion yn ei adroddiad Cyfnod 1, ac yn eu plith mae'r argymhelliad y dylid rhoi gwybod i'r cynghorau tref a chymuned perthnasol pan fydd is-ddeddf sy'n effeithio arnynt yn mynd i gael ei dirymu. Mae hynny'n bwysig fel bod pobl yn gwybod beth sy'n digwydd.

Rwy'n falch bod y cyfnod ymgynghori lleiaf ar gyfer is-ddeddf wedi cynyddu o fis i chwe wythnos. Bydd hynny'n cyd-fynd â phatrymau gwaith cynghorau cymuned. Nid wyf yn credu bod neb am weld sefyllfa lle byddai cynghorau cymuned yn cynnal cyfarfodydd arbennig i drafod is-ddeddf sy'n effeithio arnynt.

Nododd y pwyllgor bod y Gweinidog yn cynnal trafodaethau gyda phrif gwnstabiliaid yng Nghymru, ac argymhellodd y dylai hynny barhau er mwyn sicrhau cysondeb ynghylch rôl swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Pe gallai'r swyddogion hyn blismona is-ddeddfau ledled Cymru, byddai'n eu gwneud yn haws i'w gorfodi, ac, yn bwysicach efallai, byddent yn cael eu hystyried fel rhan o'r system gyfreithiol.

exclusive bye-laws, who adjudicates?

Fodd bynnag, os yw cyngor cymuned neu gyngor sir yn cyflwyno is-ddeddfau eu hunain, pwy sy'n barnu?

The Bill supports the Welsh Government's wider aims of simplification and reduction of bureaucracy. The system for making and enforcing of bye-laws will facilitate a timelier and more direct response by local government to local problems. The Bill recognises the value of the principle of subsidiarity, with the aim that democracy at a local level be enhanced. The capacity of local government to serve its citizens will be improved and local authorities will be able to bring in bye-laws that benefit the people living in their area. That is one of the reasons why I support this Bill so strongly.

Mae'r Bil yn cefnogi amcanion ehangach Llywodraeth Cymru o symleiddio a lleihau biwrocraetiaeth. Bydd y system o wneud a gorfodi is-ddeddfau yn hwyluso ymateb mwy amserol a mwy uniongyrchol gan lywodraeth leol i broblemau lleol. Mae'r Bil yn cydnabod gwerth yr egwyddor o sybsidiaredd, gyda'r nod o wella democratiaeth ar lefel leol. Bydd gwell capasiti gan lywodraeth leol i wasanaethu ei dinasyddion a bydd awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno is-ddeddfau sydd o fudd i'r bobl sy'n byw yn eu hardaloedd. Dyna un o'r rhesymau pam rwyf mor gefnogol o'r Bil hwn.

Janet Finch-Saunders: I also welcome and support the general principles of the Local Government Byelaws (Wales) Bill, which is the first piece of legislation to be introduced since the Assembly gained its new powers, and the first with which I have been involved as a member of the committee. In saying that, I also pay tribute to the Chairman, Ann Jones, and to everyone who gave evidence, including yourself, Minister.

Janet Finch-Saunders: Rwyf innau hefyd yn croesawu a chefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru), sef y darn cyntaf o ddeddfwriaeth i gael ei gyflwyno ers i'r Cynulliad gael ei bwerau newydd, a'r cyntaf rwyf wedi ymwneud ag ef fel aelod o'r pwyllgor. Wedi dweud hynny, rwyf hefyd yn talu teyrnged i'r Cadeirydd, Ann Jones, ac i bawb a roddodd dystiolaeth, gan gynnwys chi eich hun, Weinidog.

Having looked at the consultation responses, it would be hard for anyone to oppose the general principles of this Bill. It is fair for us to acknowledge that the main aim in the discussion of this Bill is to ensure that it delivers for our local authorities and, more importantly, for our local communities, and that it ensures the maximisation of the local democratic potential on offer. We must acknowledge the constitutional limitation that smaller councils have, however, and, as someone who champions town, community and parish councils, I have a few concerns about that, which I raised in committee, and I am sure that they will be raised again at Stage 2. I do not wish to see anyone miss out on the improved powers for compositional or structural abilities.

Wedi edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, byddai'n anodd i unrhyw un wrthwynebu egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Mae'n deg i ni gydnabod mai prif nod y drafodaeth ar y Bil hwn yw sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer ein hawdurdodau lleol ac, yn bwysicach, ar gyfer ein cymunedau lleol, a'i fod yn sicrhau'r potensial democrataidd mwyaf posibl sydd ar gael yn lleol. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gydnabod y cyfyngiad cyfansoddiadol ar gynghorau llai, ac, fel rhywun sy'n hyrwyddo cynghorau tref, cymuned a phlwyf, mae gennyf rai pryderon am hynny, ac fe godais y rhain yn y pwyllgor, ac rwy'n siŵr y byddant yn cael eu codi eto yng Nghyfnod 2. Nid wyf yn dymuno i neb golli allan ar y pwerau gwell ar gyfer galluoedd cyfansoddiadol neu strwythurol.

The Communities, Equality and Local Government Committee recognised the cost implications identified by town and community councils. While we do not

Cydnabu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y goblygiadau o ran costau a nodwyd gan gynghorau tref a chymuned. Er nad ydym yn

believe that the use of bye-laws will increase on a yearly basis, as mentioned in the report, we hope that any financial burden incurred by the implementation of bye-laws by these councils is eased by working with unitary authorities. A little more work needs to be done on how that will happen, perhaps through the charter or a similar mechanism.

One Voice Wales estimated spending of around £7,000 to £9,000 on implementing or amending a bye-law. Bearing in mind the current median precepts across local community councils, that is a vast sum of money—it is not back-pocket change. Therefore, there needs to be some consideration of that.

It is not just the financial constraints that were of concern to the consultation respondents, the majority of which were smaller town and community councils, but also the lack of expertise at a local level in drafting bye-laws. Recommendation 5 of the committee calls for clarification within the Bill for town and community councils looking to work with local authorities to make bye-laws so as to assist with the resources available. I cannot emphasise that strongly enough, because we have many valuable town, community and parish councils across Wales, and we must try to strengthen that. When one looks at how many seats are unopposed in the forthcoming local government elections, we must ensure that that level of democracy is not eroded by any further implementation from the Assembly. To further this, the committee recommends that section 8 be amended to enable town and community councils to use the principal office of the county council to comply with requirements, with clear guidance on this process to be provided by the Welsh Government.

5.00 p.m.

In addition to these resource concerns, the North Wales Association of Town and Larger Community Councils has raised the issue of the role of PCSOs. I know that it has been mentioned in the committee and mentioned here by the chairman of the committee and by

credu y bydd cynnydd blynyddol yn y defnydd o is-ddeddfau, fel y crybwyllwyd yn yr adroddiad, rydym yn gobeithio y bydd unrhyw faich ariannol a ddaw o ganlyniad i weithredu is-ddeddfau gan y cynghorau hyn yn cael ei leddfu drwy weithio gydag awdurdodau unedol. Mae angen gwneud ychydig mwy o waith ar sut y bydd hynny'n digwydd, efallai drwy'r siarter neu ddull tebyg.

Amcangyfrifwyd gan Un Llais Cymru mai tua £7,000 i £9,000 fyddai'r gost o weithredu neu ddiwygio is-ddeddf. Gan gadw mewn cof y praeseptau canolrifol presennol ar draws cynghorau cymuned lleol, mae hwnnw'n swm enfawr o arian—nid newid mân mohono. Felly, mae angen rhywfaint o ystyriaeth o hynny.

Nid y cyfyngiadau ariannol yn unig oedd yn peri pryder i'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad, a oedd gan fwyaf yn gynghorau tref a chymuned llai, ond hefyd y diffyg arbenigedd ar lefel leol o ran drafftio is-ddeddfau. Mae argymhelliad 5 y pwyllgor yn galw am eglurhad yn y Bil i gynghorau tref a chymuned sydd am weithio gydag awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau i'w cynorthwyo â'r adnoddau sydd ar gael. Ni allaf bwysleisio hynny digon, gan fod gennym lawer o gynghorau tref, cymuned a phlwyf gwerthfawr ledled Cymru, ac mae'n rhaid inni geisio cryfhau'r sefyllfa honno. Pan edrychwch ar nifer y seddi diwrthwynebiad yn yr etholiadau llywodraeth leol sydd ar y gorwel, rhaid i ni sicrhau nad yw'r lefel honno o ddemocratiaeth yn cael ei herydu gan unrhyw weithredu pellach gan y Cynulliad. I hyrwyddo hyn, mae'r pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio adran 8 i alluogi cynghorau tref a chymuned ddefnyddio prif swyddfa'r cyngor sir i gydymffurfio â'r gofynion, gydag arweiniad clir ar y broses hon wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r pryderon hyn am adnoddau, mae Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymdeithasau Mwyaf Gogledd Cymru wedi codi'r mater o rôl swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Gwn fod y mater hwn wedi cael ei grybwyll yn y pwyllgor ac wedi

our Deputy Presiding Officer. I think that some work could perhaps be taken through the community safety partnerships on bringing about a clear, concise and consistent approach to the powers that PCSOs have in relation to bye-laws across the whole of Wales and across the forces. However, I realise that that would take some work.

Giving PCSOs the powers to enforce certain bye-laws would greatly enhance the effectiveness of smaller councils' bye-laws and prevent smaller councils being discouraged from creating what they may perceive to be unenforceable bye-laws. In response to my concern that consultations vary in the way in which they are put out to people, the Minister has stated that there must be a consistent approach to assessing information on bye-laws. My concern is that you may have one authority consulting via the web while another does it through newspapers and so on. Again, you will lack a consistent approach. Consider the size, scope and differences across local councils: some do not have a clerk, some do not have websites, and so on. We need to ensure that those issues are taken into account. Of course, I believe in consultation as one of the cornerstones of a strong local democracy, but there must also be a flexible approach so as not to hinder those smaller councils where the infrastructure may not allow for electronic consultation.

Importantly, recommendation 4 of the committee report—

The Presiding Officer: Order. Time is up.

Rhodri Glyn Thomas: Rwyf innau, fel pawb arall, yn croesawu'r ddeddfwriaeth hon. Mae'n eithriadol o bwysig o ran y berthynas rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau lleol ar bob lefel. Mae cydweithio yn eithriadol o bwysig, ac rwyf yn croesawu'n fawr agwedd adeiladol y Gweinidog wrth ymateb i argymhellion y

cael ei grybwyll yma hefyd, gan gadeirydd y pwyllgor a'n Dirprwy Lywydd. Credaf y gallai rhywfaint o waith gael ei wneud drwy'r partneriaethau diogelwch cymunedol i greu dull clir, cryno a chyson o ymdrin â'r pwerau sydd gan swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu mewn perthynas ag is-ddeddfau ar draws Cymru gyfan ac ar draws y lluoedd. Fodd bynnag, rwyf yn sylweddoli y byddai hynny'n golygu tipyn o waith.

Byddai rhoi pwerau gorfodi mewn perthynas â rhai is-ddeddfau i swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn gwella effeithiolrwydd is-ddeddfau cynghorau llai ac yn atal cynghorau llai rhag meddwl na allant wneud is-ddeddfau mewn achosion lle mae ganddynt ganfyddiad y byddant yn amhosibl i'w gorfodi. Mewn ymateb i'r pryder a fynegwyd gennyf fod ymgynghoriadau'n amrywio o ran y ffordd y maent yn cael eu cyflwyno i bobl, nododd y Gweinidog fod yn rhaid cael dull cyson o asesu gwybodaeth am is-ddeddfau. Fy mhryder i yw y gallech gael un awdurdod yn ymgynghori ar y we, tra bod awdurdod arall yn ymgynghori drwy'r papurau newydd ac yn y blaen. Unwaith eto, bydd diffyg dull gweithredu cyson. Gadewch inni ystyried maint a chwmpas cynghorau lleol, a'r gwahaniaethau rhyngddynt: nid oes gan rai awdurdodau glerc, nid oes gan rai awdurdodau wefannau, ac yn y blaen. Mae angen inni sicrhau bod y materion hynny'n cael eu hystyried. Wrth gwrs, credaf fod y broses ymgynghori'n un o gonglfeini system gref o ddemocratiaeth leol, ond rhaid cael dull gweithredu hyblyg hefyd er mwyn peidio â rhwystro rhai cynghorau llai mewn achosion lle nad yw'r isadeiledd yn caniatáu iddynt gynnal ymgynghoriad electronig.

Yn bwysig, mae argymhelliad 4 o adroddiad y pwyllgor—

Y Llywydd: Trefn. Mae eich amser wedi dod i ben.

Rhodri Glyn Thomas: I, like everyone else, welcome this legislation. It is extremely important for the relationship between the National Assembly and local authorities at all levels. Collaboration is extremely important, and I warmly welcome the constructive approach taken by the Minister in responding to the committee's recommendations. We

pwyllgor. Cawn gyfle pellach i drafod y materion hynny wrth i'r broses fynd rhagddi.

Hoffwn nodi dau beth am yr egwyddorion cyffredinol, gan mai dyna gyd-destun y drafodaeth y prynhawn yma. Y pwynt cyntaf, sydd wedi'i godi gan Janet Finch-Saunders, yw bod dibyniaeth yma ar y ffaith bod gan awdurdodau lleol a chynghorau cymuned adnoddau digonol i ymwneud â'r broses hon. Weinidog, codwyd y pryder hwn, a hoffwn wybod a ydych yn cydnabod bod problem wirioneddol o ran hynny. Bydd rhai o'r cynghorau llai yn ei chael hi'n anodd iawn i gydweithio ar y materion hyn, felly sut y byddwch yn dod dros hynny? Bydd rhaid darganfod rhyw fodd o sicrhau eu bod yn gallu gweithredu yn y broses.

Yr ail elfen yr oeddwn am ei chodi gyda chi y prynhawn yma oedd y pwynt a godwyd gennych am gostau penodedig, ac mae diwedd y broses yw'r rheini a'r opsiwn olaf yn unig. Felly, rhaid wrth broses o geisio hysbysu'r cyhoedd am y math o ymddygiad sy'n annerbyniol, ac a gaiff ei gosbi yn y pen draw os nad yw'n cael ei atal. Rhaid ceisio ei addysgu i newid ymddygiad. A ydych wedi ystyried hyd yn hyn sut y byddwch yn gweithio gyda chynghorau cymuned a chynghorau lleol ar y broses honno o hysbysu'r cyhoedd a'i addysgu am ei ymddygiad?

Rwyf yn hapus iawn i barhau i gydweithio ar y broses hon, a mawr obeithiaf y bydd hwn, erbyn diwedd ei daith, yn hwyluso democratiaeth ar bob lefel yng Nghymru.

Peter Black: I wish to start by expressing my mild disappointment that the first Bill to reach this stage in the Assembly should be so uncontroversial and so eminently sensible. What we have before us is a reasonable and measured amendment to the existing bye-law legislation, legislation that, as Mike Hedges said, sometimes belongs not to this century or even possibly the last century, but the century before. There is no reason at all why the Minister needs to authorise new bye-laws or changes to bye-laws relating to specifically local issues brought about by locally accountable and democratically elected councillors, whether at a principal authority level or at a community or town council

will have a further opportunity to discuss these issues as part of the process.

I wish to note two issues on the general principles, as that is the context of this afternoon's debate. The first point, which has been raised by Janet Finch-Saunders, is that there is an assumption here on the fact that local authorities and community councils have adequate resources to engage with this process. Minister, this concern has been raised, and I want to know whether you acknowledge this as a genuine problem. Some of the smaller councils will find it very difficult to collaborate on these issues, so how do you intend to overcome that? Some way of ensuring that they can function in this process will have to be found.

The second issue that I wish to raise with you this afternoon is the point that you yourself have raised of fixed penalty notices being the option of last resort. There will have to be a campaign to inform the public of the sorts of behaviours that are unacceptable and that are to be penalised, unless they are stopped. It is about educating the public to change its behaviour. Have you given any consideration to date to how you are going to work with community councils and local councils on that process of informing the public and educating people about what constitutes acceptable behaviour?

I am happy to continue to collaborate on this process, and I very much hope that, by the end of its journey, this will further democracy at all levels in Wales.

Peter Black: Hoffwn ddechrau drwy fynegi rywfaint o siom bod y Bil cyntaf i gyrraedd y cam hwn yn y Cynulliad mor annaddeuol a hynod gall. Mae'r hyn sydd ger ein bron yn welliant rhesymol a phwyllog i'r ddeddfwriaeth bresennol ar is-ddeddfau, sy'n ddeddfwriaeth—fel y dywedodd Mike Hedges—nad yw weithiau'n perthyn i'r ganrif hon neu hyd yn oed i'r ganrif ddiwethaf, ond i'r ganrif cyn hynny. Nid oes unrhyw reswm yn y byd pam bod angen i Weinidog awdurdodi is-ddeddfau newydd neu newidiadau i is-ddeddfau sy'n ymwneud â materion lleol penodol a gyflwynir gan gynghorwyr sy'n atebol yn lleol ac a etholwyd yn ddemocrataidd, boed ar lefel prif

level.

The other piece of good news from this is the effectiveness of the scrutiny of the legislation. The committee highlighted a number of small but important issues, which the Minister has taken on board, and I very much welcome the fact that the Minister has agreed to amend the Bill in a number of instances as outlined by the committee, but specifically on the six-week consultation period, given that that fits in with the modern-day meeting times of town and community councils and would enable them to operate within their existing schedule of meetings.

There are issues to do with enforcement, but the Bill does very little apart from take away the ministerial role. I do not—and I am sure that the Minister does not—anticipate a sudden rash of new bye-laws as a result of this Bill going through, nor does anyone anticipate massive changes to the way in which bye-laws are brought in by councils, all because the Minister no longer has to approve them at the end. As has been highlighted by a number of speakers, fixed penalties will need to be looked at to make sure that they are workable, and we need to look at how the police and various other councils work to enforce those bye-laws. When a specific bye-law is passed, it is important that people in the area that it affects are given adequate notice. Notices should be put up so that people are aware of what is and is not allowed in that area, and that if they breach the bye-law there will be a penalty or some sanction.

This has been a consensual debate, Presiding Officer, and I wanted to conclude by welcoming the Minister's recognition of the various items of private legislation that also contain bye-law provisions for local councils. The Swansea City Council (Tawe Barrage) Act 1986 is one such example and the West Glamorgan Act 1987 is another, but I am sure that many others have been passed. I welcome the fact that the Minister will be

awdurdod neu ar lefel cyngorau tref a chymuned.

Y darn arall o newyddion da yn y cyd-destun hwn yw effeithiolrwydd y gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth. Tynnodd y pwyllgor sylw at nifer o faterion bach ond pwysig, y mae'r Gweinidog wedi eu hystyried. Rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith fod y Gweinidog wedi cytuno i ddiwygio'r Bil mewn nifer o achosion, fel yr amlinellodd y pwyllgor, ac yn benodol mewn perthynas â'r cyfnod ymgynghori o chwe wythnos, o gofio bod hynny'n cyd-fynd ag amseroedd cyfarfod cyngorau tref a chymuned yn yr oes fodern. Byddai'r cam hwn yn eu galluogi i weithredu o fewn eu hamserlen bresennol o gyfarfodydd.

Mae yna faterion sy'n ymwneud â gorfodi, ond ychydig iawn mae'r Bil yn ei wneud ar wahân i gael gwared ar y rôl weinidogol. Nid wyf yn rhagweld—ac rwyf yn siŵr nad yw'r Gweinidog yn rhagweld—cawod sydyn o is-ddeddfau newydd o ganlyniad i basio'r Bil hwn, ac nid oes unrhyw un yn rhagweld newidiadau enfawr i'r ffordd y mae is-ddeddfau yn cael eu cyflwyno gan gyngorau yn sgil y ffaith nad yw'r Gweinidog bellach yn gorfod eu cymeradwyo ar ddiwedd y broses. Fel y nodwyd gan nifer o siaradwyr, bydd angen edrych ar gosbau penodedig er mwyn sicrhau eu bod yn ymarferol, a bydd angen inni edrych ar sut mae'r heddlu a chynghorau amrywiol eraill yn gorfodi'r is-ddeddfau hynny. Pan fydd is-ddeddf benodol yn cael ei phasio, mae'n bwysig bod pobl yn yr ardal y bydd yr is-ddeddf yn effeithio arnynt yn cael digon o rybudd. Dylid rhoi hysbysiadau yn yr ardal er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn a ganiateir yn yr ardal honno a'r hyn na chaniateir, ac y byddant yn wynebu cosb os byddant yn torri'r is-ddeddf honno.

Mae hon wedi bod yn ddadl gydsyniol, Lywydd, ac roeddwn am orffen drwy groesawu cydnabyddiaeth y Gweinidog o eitemau amrywiol o ddeddfwriaeth breifat sydd hefyd yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag is-ddeddfau ar gyfer cyngorau lleol. Mae Deddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 yn un enghraifft o'r fath, ac mae Deddf Gorllewin Morgannwg 1987 yn un arall, ond rwyf yn siŵr bod llawer

incorporating those in an amended Bill to be brought before the committee, and I look forward to the committee's considering that. We have virtually run out of amendments as a result of the Minister meeting many of the objections in this report.

Joyce Watson: I welcome the opportunity to speak today as a member of the Communities, Equality and Local Government Committee. For the past few weeks, and for another week yet, up and down the country, people have stood in their doorways politely listening to people like us telling them about the importance of local decision making. They have read the leaflets that the dog did not get to first, bloodstains and all, and read that local government is the best place to make local decisions. The bye-laws Bill embodies that principle perfectly. The Labour Welsh Government believes that locally elected officials should be able to consult local people and make the majority of bye-laws without undue input or interference from the Welsh Ministers. As a former member of Pembrokeshire County Council, I can appreciate how this Bill will tidy up the procedures for making and scrutinising bye-laws, stripping away unnecessary bureaucracy and bringing the whole process closer to those whom it affects and benefits. Some bye-laws, for example those for sites of special scientific interest and national parks, can be controversial, and there would be merit in retaining the confirmation procedure, whereby the Welsh Ministers have an input. However, on the whole, the Bill supports the Welsh Government's wider aim of simplifying and reducing bureaucracy and enhancing local democracy, and I commend the Bill in that regard.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I am grateful for the contributions made by Members today, and I reiterate my support and thanks to the Chairs of both committees—Ann Jones as Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, and David Melding

o rai eraill wedi cael eu pasio. Croesawaf y ffaith y bydd y Gweinidog yn ymgorffori'r rhain i mewn i'r Bil diwygiedig a gaiff ei ddwyn gerbron y pwyllgor, ac edrychaf ymlaen at ystyriaeth y pwyllgor o'r mater hwnnw. Rydym bron wedi rhedeg allan o welliannau yn sgil y ffaith fod y Gweinidog wedi mynd i'r afael â nifer o'r gwrthwynebiadau yn yr adroddiad hwn.

Joyce Watson: Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad heddiw fel aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Dros yr wythnosau diwethaf, ac am un wythnos arall, mae pobl wedi sefyll yn gwrtais wrth eu drysau, ledled y wlad, yn gwrando ar bobl fel ni yn dweud wrthynt am bwysigrwydd gwneud penderfyniadau lleol. Maent wedi darllen y taflenni hynny nad oedd y ci wedi'u malu, gan adael olion gwaed, ac wedi darllen mai llywodraeth leol yw'r lle gorau i wneud penderfyniadau lleol. Mae'r Bil is-ddeddfau yn ymgorffori'r egwyddor honno'n berffaith. Mae Llywodraeth Lafur Cymru o'r farn y dylai fod gan swyddogion a etholwyd yn lleol y gallu i ymgynghori â phobl leol a gwneud y mwyafrif o is-ddeddfau heb fewnbwn nac ymyrraeth ormodol gan Weinidogion Cymru. Fel cyn aelod o Gyngor Sir Penfro, rwyf yn gwerthfawrogi sut y bydd y Bil hwn yn tacluso'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a chraffu ar is-ddeddfau, gan ddileu biwrocratiaeth ddiangen a chan ddod â'r holl broses yn nes at y rhai sy'n cael eu heffeithio ganddi ac sy'n elwa ohoni. Mae rhai is-ddeddfau, fel y rhai ar gyfer safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a pharciau cenedlaethol, yn gallu bod yn ddadleuol, a byddai'n werthfawr cadw'r weithdrefn gadarnhau, lle mae gan Weinidogion Cymru fewnbwn. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r Bil yn cefnogi nod ehangach Llywodraeth Cymru, sef symleiddio a lleihau biwrocratiaeth a gwella democratiaeth leol, a chymeradwyaf y Bil yn hynny o beth.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Rwyf yn ddiolchgar am y cyfraniadau a wnaed gan Aelodau heddiw, ac rwyf yn ailadrodd fy nghefnogaeth a'm diolch i Gadeiryddion y ddau bwyllgor—Ann Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol; a David Melding,

as Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. The contributions made by Members today have been useful in informing my thoughts for Stage 2 in committee, should a successful vote happen today.

I will pick up on a few points raised by Members. I am grateful for Ann's recognition and the issues that she raised on requiring the same consultation processes for bye-laws. As I mentioned, I will be tabling an amendment to the Bill at Stage 2. Several Members raised issues about the period of consultation moving to six weeks from one month. That is to enable town and community councils to consider the proposals fully and make the appropriate recommendations without having to hold special meetings. I will also be tabling amendments to achieve that.

Several Members raised the issue of fixed penalty notices, asking how it came about and how we will manage that process. I have made it clear that we should clarify that the fixed penalty notices process should be seen as the last resort, and I will issue guidance on that.

On the size of town and community councils and how they would work this, some are relatively small and some, as they would recognise, have not quite reached the digital age yet, either. I acknowledge that, but my view is that it does not have to be them that pass the bye-laws; it could be the unitary authority that they work with. I encourage them, as I have already, to create charter agreements between local town and community councils and the unitary authority.

On the consistency of community support officers, I have already met with the chief constables and I give my commitment to continue discussions with the chief officers. Obviously, policing is a non-devolved function and is the responsibility of the Home Office, and so instructions to PCSOs about their powers and the operational aspects of

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Mae'r cyfraniadau a wnaed heddiw gan Aelodau wedi bod yn ddefnyddiol o ran llunio fy marn ar gyfer y trafodaethau pwyllgor yng Nghyfnod 2, os bydd pleidlais lwyddiannus heddiw.

Rwyf am ymdrin â rhai o'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau. Rwyf yn ddiolchgar i Ann am ei chydabyddiaeth ac am godi materion ynghylch sicrhau bod angen defnyddio'r un prosesau ymgynghori ar gyfer is-ddeddfau. Fel y soniais, byddaf yn cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2. Cododd sawl Aelod faterion ynghylch newid y cyfnod ymgynghori o un mis i chwe wythnos. Bydd y cam hwnnw'n galluogi cynghorau tref a chymuned i ystyried y cynigion yn llawn ac i wneud argymhellion priodol heb orfod cynnal cyfarfodydd arbennig. Byddaf hefyd yn cyflwyno gwelliannau i gyflawni hynny.

Cododd sawl Aelod y mater o hysbysiadau cosb benodedig, gan ofyn sut y daeth y mater hwn i'r amlwg a sut byddwn yn rheoli'r broses honno. Rwyf wedi ei gwneud yn glir y dylem egluro y dylai'r broses hysbysiadau cosb benodedig gael ei gweld fel y dewis olaf, a byddaf yn cyhoeddi canllawiau ar hynny.

O ran maint cynghorau tref a chymuned, a sut y byddent yn gweithredu'r broses hon, mae rhai o'r cynghorau'n gymharol fach ac nid yw rhai ohonynt, fel y byddent yn cydnabod, wedi cyrraedd yr oes ddigidol eto, chwaith. Rwyf yn cydnabod hynny, ond credaf nad y cynghorau hynny, o reidrwydd, fydd yn gorfod pasio'r is-ddeddfau; gallai'r awdurdodau unedol sy'n cydweithio â hwy wneud hynny. Rwyf yn eu hannog, fel y gwneuthum eisoes, i greu cytundebau siarter rhwng y cynghorau tref a chymuned lleol ac awdurdodau unedol.

O ran cysondeb swyddogion cymorth cymunedol, rwyf eisoes wedi cyfarfod â'r prif gwnstabiliaid ac rwyf yn rhoi ymrwymiad i barhau i gynnal trafodaethau gyda'r prif swyddogion. Yn amlwg, mae plismona yn swyddogaeth nad yw wedi'i datganoli ac yn un o gyfrifoldebau'r Swyddfa Gartref. Felly, mae'n rhaid i'r cyfarwyddiadau a roddir i

their duties have to come from the chief officers. I share Members' concern that there should be consistency across Wales on that, and I have mentioned that to the chief officers and will continue to do so. Hopefully, a positive outcome will be achieved working with them. I concede to Mike Hedges that I am probably not too knowledgeable about skateboarding at Castle Square—I have had my moments, just not there. [*Laughter.*] However, I recognise the important point that the Member raises about local determination and local members understanding the problems on their doorsteps, creating the appropriate bye-laws accordingly.

Finally, Llywydd, I thank Peter Black for his contribution and pledge of support throughout the process. I am rather pleased that we are taking the historic step of using the Assembly's new powers for the first time to get this largely non-controversial Bill passed. I hope that I will have Members' continued support, and I acknowledge the wide base of knowledge about local government matters among members of the committee, which has helped to inform my deliberations when forming this Local Government Byelaws (Wales) Bill. I thank Members for their contributions.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The proposal is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36. Thank you very much, Minister.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 5.13 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 5.13p.m.*

swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu am eu pwerau ac am agweddau gweithredol ar eu dyletswyddau ddod oddi wrth y prif swyddogion. Rhannaf bryderon yr Aelodau ynghylch y ffaith y dylid cael cysondeb ledled Cymru ar y mater hwn. Rwyf wedi sôn wrth y prif swyddogion am y mater hwn, a byddaf yn parhau i wneud hynny. Gobeithiaf y bydd y gwaith a wneir gyda hwy yn arwain at ganlyniad cadarnhaol. Rwyf yn derbyn awgrym Mike Hedges nad wyf yn rhy wybodus am sglefrfyrdio ar Sgwâr y Castell—rwyf wedi cael ambell i brofiad yn fy mywyd, ond nid yn y fan honno. [*Chwerthin.*] Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod y pwynt pwysig a gododd yr Aelod am benderfynu'n lleol a'r ffaith fod aelodau lleol yn deall y problemau sydd ar garreg eu drws, a'r angen i greu is-ddeddfau priodol yn unol â hynny.

Yn olaf, Lywydd, hoffwn ddiolch i Peter Black am ei gyfraniad a'i addewid o gymorth drwy gydol y broses. Rwyf yn falch ein bod yn cymryd y cam hanesyddol hwn o ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad am y tro cyntaf i basio'r Bil hwn, sydd, i raddau helaeth, yn annadleuol. Gobeithiaf y caf gefnogaeth barhaus gan yr Aelodau, ac rwyf yn cydnabod y sylfaen eang o wybodaeth sydd gan aelodau'r pwyllgor am faterion llywodraeth leol—gwybodaeth sydd wedi helpu i lywio fy marn wrth lunio'r Bil hwn, sef Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru). Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36. Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd: Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf

The Climate Change Strategy for Wales: First Annual Progress Report

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham, gwelliant 4 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 5 a 6 yn enw Peter Black.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham, amendment 4 in the name of Jocelyn Davies and amendments 5 and 6 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4960 Jane Hutt

Motion NDM4960 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

(a) Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd: Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cyntaf; a

(a) the Climate Change Strategy for Wales: First Annual Progress Report; and

(b) y camau sy'n cael eu cymryd i wireddu ymrwymadau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

(b) the progress being made to deliver the Welsh Government's commitments to tackle climate change.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): I move the motion.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Cynigiau y cynnig.

The publication of the climate change strategy in 2010 was an important milestone in confirming the Welsh Government's commitment to tackling climate change. I am pleased to be able to present our first progress report on its delivery.

Roedd cyhoeddi'r strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd yn 2010 yn garreg filltir bwysig o ran cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Rwyf yn falch o allu cyflwyno ein hadroddiad cynnydd cyntaf ar weithredu'r strategaeth hon.

Climate change remains the most pressing of global issues, and the Welsh Government recognises that we have a responsibility to provide leadership, to drive down emissions and to ensure that Wales is well prepared to manage the consequences of a changing climate in the decades ahead. Enhancing the long-term wellbeing of people and communities is central to our approach to sustainable development, and addressing climate change is a key part of this.

Mae newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn un o faterion mwyaf difrifol y byd, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb i roi arweiniad, i leihau allyriadau, ac i sicrhau bod Cymru'n barod i reoli goblygiadau newid yn yr hinsawdd yn y degawdau i ddod. Mae gwella lles pobl a chymunedau yn y tymor hir yn ganolog i'n hagwedd at ddatblygu cynaliadwy, ac mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan allweddol o hyn.

5.15 p.m.

I want to harness every available resource to deliver on our challenging commitments,

Rwyf am ddefnyddio pob adnodd sydd ar gael i gyflawni ein hymrwymadau heriol,

which are some of the most ambitious in the UK and the European Union, and I intend to work with my Cabinet colleagues to identify options for enhancing our intervention measures where the opportunity arises.

The report highlights activity across Wales to drive down our emissions and prepare for a changing climate. It contains many examples that show that we are leading the way in taking action to achieve this. The Welsh Government's strategic energy scheme, Arbed, has been particularly successful. Along with our boiler scrappage scheme and the home energy efficiency programme, Arbed has helped to make 25,000 Welsh homes easier and cheaper to heat during 2010-11, and we intend to build on that success as we move into phase 2 of the scheme.

The development of the sustainable travel centre initiative has been successful in delivering better integrated transport networks and promoting health and wellbeing, and I am delighted that this initiative will continue to be developed over the coming year. The ongoing support and advice the Welsh Government is giving to businesses on energy efficiency and low-carbon opportunities for SMEs is a valuable service to those businesses that play such an important role in the Welsh economy. The Welsh Government itself is leading action across the public sector in Wales through successful initiatives to cut emissions.

On adaptation, we have published new guidance for public bodies in Wales on adapting to climate change. We have also published a new national strategy on flood management. The Welsh Government has co-funded the UK climate change risk assessment, which was published earlier this year, and we will use its findings to help shape our sectoral adaptation plans. Looking ahead, we intend to build on this work by publishing further guidance and developing performance indicators to monitor our progress.

sydd ymysg y rhai mwyaf uchelgeisiol yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n bwriadu gweithio gyda'm cyd-Aelodau yn y Cabinet i ganfod opsiynau ar gyfer gwella ein mesurau ymyrryd lle bo'r cyfle'n codi.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at weithgaredd ledled Cymru i leihau ein hallyriadau a pharatoi am newid yn yr hinsawdd. Mae'n cynnwys nifer o enghreifftiau sy'n dangos ein bod yn arwain y blaen o ran cymryd camau i gyflawni hyn. Bu Arbed, cynllun ynni strategol Llywodraeth Cymru, yn arbennig o lwyddiannus. Ynghyd â'n cynllun sgrapio boeleri a'r rhaglen effeithlonrwydd ynni cartref, mae Arbed wedi helpu i wneud 25,000 o gartrefi Cymru yn haws ac yn rhatach i'w gwresogi yn ystod 2010-11, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwnnw wrth i ni symud i ail gam y cynllun.

Bu datblygiad menter y ganolfan teithio cynaliadwy yn llwyddiannus o ran darparu rhwydweithiau trafnidiaeth mwy integredig a hybu iechyd a lles, ac rwyf wrth fy modd y bydd y fenter hon yn parhau i gael ei datblygu dros y flwyddyn i ddod. Mae cymorth a chynghor parhaus Llywodraeth Cymru i fusnesau ynghylch effeithlonrwydd ynni a chyfleoedd carbon isel ar gyfer busnesau bach a chanolig yn wasanaeth gwerthfawr i'r busnesau hynny sy'n chwarae rhan mor bwysig yn economi Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain y gweithredu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru drwy fentrau llwyddiannus i leihau allyriadau.

O ran addasu, rydym wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru ynghylch addasu i newid yn yr hinsawdd. Rydym hefyd wedi cyhoeddi strategaeth genedlaethol newydd ynghylch rheoli llifogydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyd-ariannu asesiad risg y DU ar y newid yn yr hinsawdd, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, a byddwn yn defnyddio ei ganfyddiadau i helpu i lunio ein cynlluniau addasu sectoraidd. I edrych ymlaen, rydym yn bwriadu adeiladu ar y gwaith hwn drwy gyhoeddi mwy o ganllawiau a datblygu dangosyddion perfformiad i fonitro ein cynnydd.

I am grateful to the UK Committee on Climate Change and the Climate Change Commission for Wales for their ongoing support and advice. This first report responds to their most recent advice, which acknowledged the solid progress we have made so far and highlighted areas for us to consider for future action. I look forward to hearing Members' views and responding in due course.

Gwelliant 1 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder:

a) bod y duedd mewn allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 1990/2009 yn yr adroddiad yn awgrymu na chyrhaeddir darged 2020 o sicrhau gostyngiad o 40 y cant; a

b) mai ar hyn o bryd, dim ond o ganlyniad i'r dirywiad economaidd y mae'n bosibl cyflawni'r targed o 3 y cant o ostyngiad blynyddol.

Gwelliant 2 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd creu swyddi gwyrdd carbon isel, cynaliadwy yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Gwelliant 3 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i ddiweddarau Ôl-Troed Ecolegol Cymru ac i fabwysiadu mesur ar ddefnydd o allyriadau er mwyn mesur yn llawn allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu mewnforio o wledydd eraill yn y byd.

Russell George: I move amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

Before I speak to the Conservative amendments, I wish to say that we will be

Rwy'n ddiolchgar i Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd am eu cefnogaeth a'u cyngor parhaus. Mae'r adroddiad cyntaf yn ymateb i'w cyngor diweddaraf, a oedd yn cydnabod y cynnydd cadarn yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn ac yn tynnu sylw at feysydd i ni eu hystyried ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau ac i ymateb maes o law.

Amendment 1 William Graham

Add new point at end of motion:

Expresses concern that:

a) the 1990/2009 Green House Gas trend in the report suggests that the 40% reduction target for 2020 will not be met; and

b) the delivery of the 3% annual reduction target may only be possible at present by the virtue of the economic downturn.

Amendment 2 William Graham

Add new point at end of motion:

Believes that the creation of sustainable, low carbon green jobs will help tackle climate change.

Amendment 3 William Graham

Add new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to take urgent steps to update the Ecological Footprint for Wales and adopt a consumption measure of emissions in order to fully measure Green House Gas emissions from imported goods and services from elsewhere in the world.

Russell George: Cynigaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

Cyn i mi siarad am welliannau'r Ceidwadwyr, hoffwn ddweud y byddwn yn

supporting the amendments tabled by Plaid and the Lib Dems. I think that the Chamber will agree that part 1 of Arbed has been successful. However, it needs to be extended beyond registered social landlords to the wider private sector as a whole and projects need to be scaled up, particularly the retrofitting of older properties. With regard to the two amendments tabled by the Lib Dems, amendment 6 on energy efficiency is absolutely right. The Government must invest in measures that will conserve energy and reduce consumption. That neatly dovetails with Arbed.

I would like to thank the Minister for bringing this annual progress report to the Chamber today and allowing us to debate the key issues. This first report is less meaningful than future reports will be in some respects as future reports will contain emissions statistics that will demonstrate the progress the Government is making one way or the other on its target of 3%. In figures 1 and 2 of the report, we have trend predictions based on historical baselines and emission data sets. Our first amendment, amendment 1, is based on these graphics as they give us cause for concern. Figure 1 shows that Wales will more than likely be on course to take the first step on the path towards the target of cutting emissions by 3% by 2020. However, the significant caveat to that is that that trend is probably due to the economic downturn, which is depressing emission levels. The report states that, depending on economic growth, there is sufficient potential for emissions to rebound in future years. Many organisations who have analysed the data believe that the rebound will happen sooner rather than later. Therefore, what specific policies is the Government implementing to ensure that there is no emissions spike that will drastically alter those predictions?

Figure 2 shows the 40% emissions reductions target, which is the target to reduce greenhouse gas emissions based on 1990 levels by 2020. It is important that the

cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Rwy'n meddwl y bydd y Siambr yn cytuno y bu rhan 1 o Arbed yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae angen ei ymestyn y tu hwnt i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i'r sector preifat ehangach yn ei gyfanrwydd ac mae angen ehangu'r prosiectau, yn enwedig ôl-ffitio eiddo hŷn. O ran y ddau welliant a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, mae gwelliant 6 ar effeithlonrwydd ynni yn hollol gywir. Rhaid i'r Llywodraeth fuddsoddi mewn mesurau a fydd yn arbed ynni ac yn lleihau defnydd. Mae hynny'n cydweddu'n daclus ag Arbed.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ddod â'r adroddiad cynnydd blynyddol i'r Siambr heddiw a chaniatáu i ni drafod y materion allweddol. Mae'r adroddiad cyntaf yn llai ystyrlon nag y bydd adroddiadau yn y dyfodol mewn rhai ffyrdd, gan y bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys ystadegau allyriadau a fydd yn dangos y cynnydd y mae'r Llywodraeth yn ei wneud un ffordd neu'r llall ar ei tharged o 3%. Yn ffigurau 1 a 2 o'r adroddiad, mae gennym ragfynegiadau tueddiadau sy'n seiliedig ar linellau sylfaen hanesyddol a setiau data ar allyriadau. Mae ein gwelliant cyntaf, gwelliant 1, yn seiliedig ar y graffigwaith hwn gan ei fod yn peri pryder i ni. Mae ffigur 1 yn dangos ei bod yn fwy na thebyg y bydd Cymru ar y trywydd iawn tuag at gymryd y cam cyntaf ar y llwybr o gyrraedd y targed o leihau allyriadau 3% erbyn 2020. Fodd bynnag, yr amod sylweddol o ran hynny yw bod y duedd honno'n bodoli, yn ôl pob tebyg, oherwydd y dirywiad economaidd, sy'n lleihau lefelau allyriadau. Yn dibynnu ar dwf economaidd, mae'r adroddiad yn nodi bod digon o botensial i allyriadau adlamu yn y dyfodol. Mae nifer o sefydliadau sydd wedi dadansoddi'r data yn credu y bydd yr adlamu'n digwydd yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Felly, pa bolisiau penodol y mae'r Llywodraeth yn eu gweithredu i sicrhau nad oes unrhyw gynnydd sydyn mewn allyriadau a fydd yn newid y rhagfynegiadau hynny'n sylweddol?

Mae ffigur 2 yn dangos y targed o 40% ar gyfer gostwng allyriadau, sef y targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn seiliedig ar lefelau 1990 erbyn 2020. Mae'n bwysig bod

Government has reaffirmed its commitment to this target in the report. However, as we can see from the graph, there is a real concern that the target will not be met, and it is vitally important for the Government to urgently examine this. The Government will only be able to ensure that it has the right measures in place by having a comprehensive set of performance indicators in its possession to track progress. It is therefore disappointing that a full set of indicators have still not been prepared. The table on page 15 shows a number of indicators, particularly business indicators, which are still under development.

We believe that the creation of sustainable, low carbon, green jobs will help to tackle climate change and will be the driving force in achieving Government targets. To be fair to the Government, it is investing in the skills base to develop a low carbon economy. However, it is crucial that it creates an enabling environment not only to attract inward investment from the renewable sector into Wales, but to ensure that SMEs are geared up to contribute to delivering the Government's agenda.

Our final amendment is on the creation of a consumption-based emissions measure. I am sure that the Minister saw the report published last week by the House of Commons' Energy and Climate Change Committee, which showed that there is a clear divergence between the UK's territorial emissions and its consumption-based emissions. If the Government wishes to lead on climate change policy, it must recognise the growth in the UK's consumption-based emissions. I know that the Government has committed in the past to reporting on consumption levels, but we believe that this has to be implemented as a matter of urgency. We believe that the ecological footprint measure is one way of identifying emissions from consumption.

So, Minister, I think that we would all agree that the report sets out many of the Government's foundations for achieving key national targets, but more work needs to be done. Our amendments raise legitimate concerns and offer some practical solutions to

y Llywodraeth wedi cadarnhau ei hymrwymiad i'r targed hwn yn yr adroddiad. Fodd bynnag, fel y gallwn ei weld o'r graff, mae pryder gwirioneddol na fydd y targed yn cael ei gwrrdd, ac mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn archwilio hyn ar frys. Dim ond drwy feddu ar gyfres gynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad y gall y Llywodraeth sicrhau bod ganddi'r mesurau cywir ar waith i fonitro'r cynnydd. Felly, mae'n siomedig nad oes cyfres lawn o ddangosyddion wedi cael eu paratoi. Mae'r tabl ar dudalen 15 yn dangos nifer o ddangosyddion, yn enwedig dangosyddion busnes, sy'n dal i gael eu datblygu.

Credwn y bydd creu swyddi gwyrdd cynaliadwy, carbon isel, yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a bydd yn sbardun i gyrraedd targedau'r Llywodraeth. I fod yn deg â'r Llywodraeth, mae'n buddsoddi yn y sgiliau i ddatblygu economi carbon isel. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ei bod yn creu amgylchedd sy'n galluogi, nid yn unig i ddenu buddsoddiad o'r sector adnewyddadwy i mewn i Gymru, ond er mwyn sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn barod i gyfrannu at gyflawni agenda'r Llywodraeth.

Mae ein gwelliant olaf yn ymwneud â chreu mesur allyriadau sy'n seiliedig ar ddefnydd. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi gweld yr adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf gan Bwyllgor Ynni a Newid yn yr Hinsawdd Tŷ'r Cyffredin, a oedd yn dangos bod gwahaniaeth amlwg rhwng allyriadau tiriogaethol y DU a'i hallyriadau sy'n seiliedig ar ddefnydd. Os yw'r Llywodraeth am arwain ar bolisi newid yn yr hinsawdd, mae'n rhaid iddi gydnabod y twf yn allyriadau'r DU sy'n seiliedig ar ddefnydd. Gwn fod y Llywodraeth wedi ymrwymo yn y gorffennol i adrodd ar lefelau defnydd, ond credwn fod yn rhaid i hyn gael ei weithredu ar frys. Credwn mai'r mesur ôl-troed ecolegol yw un ffordd o ganfod allyriadau o ddefnydd.

Felly, Weinidog, rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cytuno bod yr adroddiad yn nodi nifer o sylfeini'r Llywodraeth ar gyfer cyrraedd targedau cenedlaethol allweddol, ond mae angen gwneud mwy o waith. Mae ein gwelliannau'n codi pryderon dilys ac yn

help strengthen measures and the monitoring of progress. I hope that Members will support them.

Gwelliant 4 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i ymestyn y cynllun Arbed fel yr awgrymwyd gan y Comisiwn yn yr adroddiad.

Llyr Huws Gruffydd: Cynigiaf welliant 4 yn enw Jocelyn Davies.

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod yr adroddiad. Rwyf yn siomedig fod y cynnig braidd yn dila gan ei fod ddim ond yn nodi'r adroddiad a'r camau sydd wedi eu cymryd. Rwyf yn meddwl bod lle i ganmol yr hyn sydd wedi ei gyflawni mewn sawl cyd-destun, ond, wrth gwrs, mae lle i wneud mwy. Mae'r gwelliannau, yn fy marn i, yn cryfhau'r cynnig yn sylweddol, a byddwn yn hapus i'w cefnogi fel ag y maent.

Mae'r Gweinidog wedi cydnabod, fel y gwna'r adroddiad, fod y targedau yn uchelgeisiol yng nghyd-destun y targedau rhyngwladol, ond y realiti yw nad yw'r rheini ynddynt eu hun dal yn ddigon i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Rwyf felly am edrych ar rai o'r sectorau penodol.

O ran trafndiaeth, rwyf wedi traethu yma o'r blaen ynglŷn â'r angen i fuddsoddi mwy mewn dulliau teithio amgen, mwy cynaliadwy. Gyda defnydd car personol yn cynhyrchu 14% o allyriadau carbon trafndiaeth, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i daclo hyn. Mae angen mwy o gefnogaeth, yn fy marn i, i fentrau lleol sy'n darparu trafndiaeth gynaliadwy. Mae cefnogaeth, ac mae cynlluniau cadarnhaol wedi cael eu cyflwyno, ond, eto, mae lle i wneud mwy. Pe bai dim ond 1% o'r £600 miliwn sydd am gael ei wario ar ffyrdd dros y blynyddoedd nesaf yn cael ei fuddsoddi yn y dulliau hynny, byddai hynny yn help mawr.

Gwnaethoch gyfeirio at y sector busnes, sydd â rôl allweddol i fynd i'r afael â'r sefyllfa yn y cyd-destun hwn. Mae hynny'n tanlinellu

cynnig rhai atebion ymarferol i helpu i gryfhau mesurau a monitro cynnydd. Gobeithio y bydd yr Aelodau yn eu cefnogi.

Amendment 4 Jocelyn Davies

Add new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to bring forward proposals to extend the Arbed scheme as recommended by the Commission in the report.

Llyr Huws Gruffydd: I move amendment 4 in the name of Jocelyn Davies.

I also welcome the opportunity to discuss the report. I am disappointed that the motion is a little weak in that it merely seeks to note the report and the steps taken so far. There is room for praise of what has been achieved in several contexts, but, of course, there is also room to do more. The amendments, in my opinion, strengthen the motion significantly, and I would be happy to support them as tabled.

The Minister has recognised, as does the report, that the targets are ambitious in the context of international targets, but the reality is that those in themselves are not adequate in order to get to grips with the problem. I therefore want to focus on specific sectors.

